# Dogfennau Ategol - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 14 Ionawr 2016

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Bethan Davies**

Committee Clerk

0300 200 6565

SeneddCyllid@Cynulliad.Cymru

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

# - Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru - Dogfennau'r Gyllideb Ddrafft

## 10 Cyllideb Llywodraeth Cymru 2016-17: Dogfennau'r Gyllideb Ddrafft

Darperir y dogfennau canlynol er mwyn cyfeirio atynt yn ystod y sesiynau tystiolaeth ar y gyllideb ddrafft:

Naratif y Gyllideb Ddrafft (Tudalennau 1 - 61)

Cynigion y Gyllideb Ddrafft (Tudalennau 62 - 88)

Tablau Camau Gweithredu Cyllideb Ddrafft (Tudalennau 89 -111)

Asesiad effaith integredig strategol (Tudalennau 112 - 135)

Taflen Cyllideb Ddrafft (Tudalennau 136 - 139)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

Agenda Item 10

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2016–2017

## Cymru Decach, Cymru Well – Buddsoddi at y Dyfodol



Rhagfyr 2015



OGL © Hawlfraint y Goron 2015 WG27301 ISBN digidol 978 1 4734 5299 2

## Rhagair Gweinidogol

## Cymru Decach, Cymru Well – Buddsoddi at y Dyfodol

Ar 25 Tachwedd, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys gylch arall o doriadau mewn termau real i Gyllideb Cymru. Er y gwelwyd ychydig o arafu ar lif y toriadau, mae eu heffaith gronnus arnom yn amlwg. Erbyn 2019-20, bydd ein cyllideb 11 y cant yn is nag yr oedd yn 2010-11. Rwy'n cyhoeddi heddiw gynlluniau gwariant y Llywodraeth, sy'n dangos sut y bydd Llywodraeth Cymru'n ymateb i'r cylch diweddaraf hwn o doriadau mewn termau real.

Er crebachu'r gyllideb dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi ceisio rheoli'r gostyngiadau fel nad ydynt yn peryglu'r gwasanaethau sydd bwysicaf i bobl Cymru, i adlewyrchu strategaeth sy'n gynaliadwy yn y tymor hwy yng nghyd-destun rhagolygon ariannol ac anghenion Cymru yn y dyfodol. Rydym yn gwario mwy y pen ar iechyd nag yn Lloegr ac mae ein gwariant y pen ar iechyd o'i gyfuno â'r gwasanaethau cymdeithasol ac ar addysg yn fwy nag yn Lloegr. Mae hyn yn dangos mor bwysig yw'n gwasanaethau cyhoeddus allweddol i ni yng Nghymru.

Rydym wedi gorfod gwneud dewisiadau a phenderfyniadau anodd ond fe'u gwnaed ar sail egwyddorion a gwerthoedd tegwch, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol ac ar fuddsoddi at y tymor hir.

Rydym wedi troi at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i'n helpu i ymateb i'r her hon. Cyn i'r Ddeddf ddod i rym yn llawn, rydym wedi ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth baratoi ar gyfer cylch pellach o benderfyniadau cyllidebol anodd, gan holi barn y rheini sy'n darparu gwasanaethau hanfodol a'r rheini sy'n defnyddio'n gwasanaethau cyhoeddus. A minnau wedi cynnal Taith y Gyllideb, gan siarad â phobl sy'n gweithio yn rheng flaen y gwasanaethau cyhoeddus, yn ogystal â phobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau - sef gofalwyr, prentisiaid, gwirfoddolwyr - rwyf yn glir ynghylch eu blaenoriaethau, beth sy'n gweithio'n dda a ble mae yna le i integreiddio rhagor o wasanaethau a chael rhagor o gydweithio i wireddu'n huchelgais gytûn ar gyfer Cymru.

Mae'r Gyllideb Ddrafft rydym yn ei chyhoeddi heddiw'n adlewyrchu'r ystyriaethau hynny.

Canolbwynt ein Cyllideb yw'r £293.5m ychwanegol i'r GIG yng Nghymru. Mae'r arian hwn ar ben yr £1.1bn ychwanegol o gyfalaf a refeniw rydym wedi'i fuddsoddi yn y GIG dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Bydd y buddsoddiad hwn, ynghyd â'n mesurau i wneud gofal iechyd darbodus yn rhan ganolog o'r GIG yng Nghymru, yn helpu i wneud yn siŵr bod y GIG yng Nghymru'n parhau'n fforddiadwy, gan fuddsoddi ym muddiannau tymor hir pobl Cymru.

Gydol y Cynulliad hwn, seiliwyd ein dyraniadau ar ddealltwriaeth bod cael Cymru iach yn golygu mwy na chyllido'r GIG. Rydym wedi cymryd camau dros y pum mlynedd ddiwethaf i warchod y gwasanaethau cymdeithasol a

ddarperir gan awdurdodau lleol rhag y toriadau gwaethaf. Yn ogystal â diogelu ein buddsoddiad, rydym yn diogelu hefyd y cyllid sydd wedi'i neilltuo ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol trwy'r setliad i lywodraeth leol ac yn ychwanegu ato trwy neilltuo £21m arall y flwyddyn nesaf. Rydym am neilltuo hefyd £30m o'r arian ychwanegol ar gyfer y GIG y flwyddyn nesaf i'r Gronfa Gofal Canolraddol, gan integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol ymhellach. O'u cymryd gyda'i gilydd, mae'r mesurau hyn yn diogelu'r gyllideb iechyd ymhellach ac yn adlewyrchu hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn gofalu am y mwyaf agored i niwed.

Gyda chanolbwynt ar atal ac ymyrryd yn gynnar, rydym hefyd yn diogelu'r cyllid ar gyfer Dechrau'n Deg, Cefnogi Pobl, a Chymunedau'n Gyntaf rhag gostyngiadau ariannol yn 2016-17

Conglfaen ein hymdrechion i sicrhau gwelliannau mawr yn ein system addysg dros y pum mlynedd ddiwethaf yw diogelu a chynyddu adnoddau ar gyfer darpariaeth rheng flaen mewn ysgolion. Rydym yn parhau i ysgwyddo'n hymrwymiad i ddiogelu'n cyllid i ysgolion ar lefel sydd 1 y cant uwchlaw'r newidiadau i'n setliad cyffredinol, gyda'r arian ychwanegol yn cael ei ddarparu gan fwyaf trwy'r setliad i lywodraeth leol gan helpu drwy hynny i gyflenwi'r ddarpariaeth graidd i ysgolion yn uniongyrchol. Bydd hyn, ynghyd â diogelu'r gyllideb ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, yn hwb i lywodraeth leol ar yr adegau ariannol anodd hyn.

Elfen ganolog ein gweledigaeth ar gyfer addysg a sgiliau yw helpu cymaint o ddysgwyr â phosibl i aros mewn addysg ac i ennill y sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer y gweithle. Yn unol â hynny, rydym yn diogelu'r cyllidebau ar gyfer addysg bellach drwy setliad arian gwastad, ac yn darparu arian ychwanegol ar gyfer prentisiaethau. Rydym hefyd yn cadw'n hymrwymiad na ddylai'r un myfyriwr addysg uwch amser llawn dalu mwy am ei radd mewn termau real na'r rheini oedd yn fyfyrwyr yn 2010-11.

Mae buddsoddi mewn seilwaith hanfodol wedi bod yn allweddol i'r ffordd rydym wedi mynd ati i 'ysgogi'r economi' yn ein hymdrech i ymladd cyni, a hynny trwy hybu twf a swyddi. Rydym wedi parhau â hyn er gwaethaf cyllideb sydd wedi syrthio mewn termau real. Rydym yn croesawu'r cynnydd bach mewn arian parod yn ein cyllideb gyfalaf y flwyddyn nesaf, ond bydd ein cyllideb gyfalaf yn parhau i fod bron i draean yn is mewn termau real erbyn 2020-21 na'r hyn oedd yn 2009-10. Rydym yn dyrannu £230m o gyfalaf ychwanegol yn 2016-17. Bydd bron £80m o hyn yn mynd i bortffolio'r Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i gydnabod pwysigrwydd creu twf a swyddi.

Er y gostyngiadau yr ydym wedi'u gweld yn ein cyllideb, rydym yn benderfynol yn ein hymrwymiad i wneud popeth posibl i warchod pobl Cymru a diogelu gwasanaethau cyhoeddus Cymru. Waeth pa mor galed yw'r hinsawdd ariannol, nid ydym am lacio'r ymrwymiad hwn. Yn ganolog i'n gwaith yn hyn o beth mae ein ffocws ar sicrhau newidiadau real a hirdymor i bobl Cymru. Mae **Cymru Decach, Cymru Well – Buddsoddi at y Dyfodol** yn adeiladu ar y penderfyniadau rydym wedi'u gwneud yn ystod y weinyddiaeth hon ac yn

gosod y sylfeini i ddiogelu llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ein cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.

## Cynnwys

**1. Y Cyd-destun Strategol**........................................................................5
**2. Y Cyd-destun Ariannol**........................................................................13
**3. Ein Blaenoriaethau Gwariant**...................................................................19
**4. Cynigion Cyllideb Llywodraeth Cymru**..................................................36

**Atodiad A - Cysoni'r Gyllideb Weinyddol â Dyraniadau'r Adnoddau yn y Cynigion ar gyfer y Gyllideb Ddrafft**..............................................................41
**Atodiad B - Newidiadau o flwyddyn i flwyddyn**.........................................44
**Atodiad C - Cysoni rhwng Dyraniadau'r Gyllideb Atodol Gyntaf 2015-16 a Llinellau Sylfaen 2016-17**.............................................................................48
**Atodiad D - Costau Deddfwriaeth yn 2016-17**...........................................55
**Atodiat E -** Geifa...............................................................................................58

## 1. Y Cyd-destun Strategol

**1.1** Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi heddiw ei chynlluniau gwariant ar gyfer 2016-17 – Cyllideb olaf y Weinyddiaeth hon. Mae cyni wedi bod yn nodwedd amlwg yn y gwasanaethau cyhoeddus ers 2010. Roedd ein Rhaglen Lywodraethu yn pennu cynlluniau uchelgeisiol ac rydym wedi llwyddo i'w cynnal ar adeg pan fu cyllidebau'n crebachu. Mae'r adnoddau rydym yn eu cael gan Lywodraeth y DU yn parhau i gwympo mewn termau real ac mae penderfyniadau Llywodraeth y DU, er enghraifft y diwygiadau i'r system les, yn parhau i gynyddu'r pwysau ar wasanaethau a chyllidebau Cymru. Â hyn yn gefndir, mae'n bwysicach nag erioed bod Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar gysoni ei hadnoddau â'i blaenoriaethau ac yn cadw at ei phenderfyniadau i sicrhau nad yw ymatebion tymor byr yn cael effeithiau andwyol yn y tymor hir.

**1.2** Mae ein cynigion heddiw ar gyfer y Gyllideb wedi'u llunio yng ngoleuni ein dyletswyddau newydd o dan **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** o fis Ebrill 2016. Maent yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a'r ymrwymiadau a nodwyd yn ein **Rhaglen Lywodraethu** yn 2011 a'r **Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru** yn 2012. Mae'r cynigion ar gyfer y gyllideb yn ymateb i doriadau pellach, mewn termau real, sy'n ein hwynebu oherwydd **Adolygiad Gwariant** Llywodraeth y DU.

### Y Rhaglen Lywodraethu

**1.3** Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn rhaglen uchelgeisiol a chynhwysfawr ar gyfer tymor llawn y Cynulliad hwn, ac yn sail ar gyfer asesu'r hyn y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud a'i gyflawni. Er gwaetha'r cyfnod ariannol caled, mae 95 y cant o'r ymrwymiadau yn y Rhaglen wedi'u cyflawni neu ar drywydd cael eu cyflawni. Y Rhaglen Lywodraethu sy'n parhau i ddiffinio blaenoriaethau a ffurf y Gyllideb a gyflwynir heddiw, gan ganolbwyntio ar ein blaenoriaethau trosfwaol, sef iechyd a gwasanaethau iechyd; cyrhaeddiad addysgol; cynorthwyo plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig a thwf a swyddi.

### Y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru

**1.4** Ers 2012, mae ein cynlluniau buddsoddi cyfalaf wedi bod yn seiliedig ar saith flaenoriaeth graidd y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (WIIP) ac mae'r rheini'n adlewyrchu blaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu. Er y gwelwyd rhywfaint o gynnydd yn yr arian parod yn yr Adolygiad Gwariant, bydd ein cyllideb cyfalaf yn dal i fod bron 30 y cant yn is yn 2019-20 mewn termau real nag yr oedd pan oedd ar ei huchaf yn 2009-10. Mae'r WIIP yn ein helpu i neilltuo'r adnoddau prinnach hyn i'r llefydd iawn ac i ddatblygu ffynonellau cyllid arloesol i roi hwb i'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r ffordd mae'r WIIP yn ymdrin â cynllunio at y tymor hir,


blaenoriaethu buddsoddiadau a chydweithio yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn parhau i lywio'r cynlluniau seilwaith rydym yn eu hamlinellu yn y Gyllideb hon.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

**1.5** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gyfle i wella'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau sy'n gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Gydol tymor y Llywodraeth hon, mae'r Rhaglen Lywodraethu wedi'n helpu i roi mwy o ffocws ar ganlyniadau.

**1.6** Bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ein helpu i ddatblygu hyn ymhellach ac i wneud integreiddio, cynnwys, cydweithio, atal a meddwl hirdymor yn rhannau annatod o bopeth a wna'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae saith Nod Llesiant Cymru'n rhoi pwrpas cyffredin ac iddo rym cyfreithiol ar gyfer llywodraeth ganol a lleol ac ar gyfer cyrff penodol eraill sy'n gweithio ar draws Cymru. Byddant yn ein helpu i weithio gyda'n gilydd i ddod â gwelliannau i bobl a chymunedau ledled y wlad - nawr ac yn y dyfodol.

## Y Nodau Llesiant



**1.7** Mae'r Nodau Llesiant a'r pum ffordd gynaliadwy o weithio yn berthnasol i Lywodraeth Cymru fel y maent i'r cyrff cyhoeddus eraill a restrir yn y Ddeddf. Byddwn yn edrych o hyd ar sut i wneud y mwyaf o'n cyfraniad i'w cyflawni. Rhaid i bob rhan o'r broses benderfynu ar bob lefel yn y sector cyhoeddus adlewyrchu'r saith Nod Llesiant a'r pum ffordd o weithio, er mwyn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar ganlyniadau i bobl a chymunedau. Mae'r ffordd rydym yn gwario arian yn sbardun pwysig ar gyfer newid ac mae'r Gyllideb hon yn rhoi cyfle cynnar inni osod y sylfeini ar gyfer eu rhoi ar waith yn llwyddiannus yng Nghymru. Rydym wedi newid ein dull gweithredu o ran paratoi'r Gyllideb yn unol â hynny.

## Ein dull gweithredu o ran paratoi'r Gyllideb

**1.8** Rydym wedi mabwysiadu'r pum prif ffordd o weithio a sefydlwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Drwy hynny, sicrheir bod cyrff cyhoeddus yn ystyried y tymor hir wrth wneud penderfyniadau; eu bod yn ystyried pa gamau sydd angen eu cymryd i atal problemau rhag codi yn y dyfodol neu i atal problemau rhag gwaethygu; eu bod yn gwneud penderfyniadau mewn ffordd integredig a chydweithredol; a'u bod yn cynnwys y defnyddwyr wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau. Mae'r dull hwn wedi bod yn allweddol wrth ddelio ag ansicrwydd Adolygiad Gwariant hwyr.

**1.9** Mae'r saith Nod Llesiant, wrth eu natur, yn croesi ffiniau, ac yn adlewyrchu'r ffaith bod llawer o ffactorau a gwasanaethau gwahanol yn gallu cyfrannu, ac yn wir y dylent gyfrannu, at eu gwireddu. Wrth baratoi ar gyfer y Gyllideb hon, rydym wedi canolbwyntio ar sut y gall yr holl gyfrifoldebau Gweinidogol a phob sefydliad gwasanaeth cyhoeddus gyfrannu at y Nodau Llesiant, yn hytrach na chael ein cyfyngu gan y ffordd y mae cyllid wedi'i rannu yn y gorffennol.

Rydym wedi ystyried sut y mae Llywodraeth Cymru'n mynd i'r afael â pholisi a chyllido a sut mae hynny'n dylanwadu ar wasanaethau cyhoeddus ar lawr gwlad, beth yw eu hanghenion yn y dyfodol a beth mae hynny'n dweud wrthym sut y dylem fynd ati i ddyrannu'r gyllideb. Mae wedi ein helpu i ffurfio barn ar y ffordd orau o wario cronfeydd yn unol â'r Ddeddf honno. Bydd angen gwaith pellach yn y cyfnod paratoi ar gyfer ar gyfer rhoi'r Ddeddf ar waith yn llawn o Ebrill 2016, ond roedd yn bwysig inni ddechrau nawr ar y newidiadau sydd eu hangen cyn i'r dyletswyddau newydd ddod i rym.

Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi gweithio'n glos â'r Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy wrth inni edrych tuag at pan ddaw'r ddeddfwriaeth i rym y flwyddyn nesaf. Mae hyn wedi'n helpu â'n penderfyniadau ynghylch y Gyllideb ddrafft hon a sut rydym wedi cyflwyno'r wybodaeth. Yr hydref hwn, gan weithio gyda'r Comisiynydd a Cynnal Cymru, cynhaliwyd ymgynghoriad ar **Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol: Canllawiau Statudol Drafft** ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol er

mwyn gwireddu manteision Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Cyhoeddwyd hefyd set ddrafft  o ddangosyddion cenedlaethol at ddiben ymgynghori arnynt i fesur cynnydd y saith Nod Llesiant.

**1.12** Ym mis Tachwedd, cyhoeddodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ei fod yn penodi Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol statudol newydd i Gymru. Bydd yn cymryd lle'r Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy anstatudol.  Bydd gan y Comisiynydd newydd ran hanfodol i'w chwarae o ran cefnogi'r newidiadau sydd eu hangen i wireddu'r saith Nod Llesiant yng Nghymru.

## Defnyddio'r Pum Ffordd o Weithio wrth Gynllunio'r Gyllideb

**1.13** Y pum ffordd hyn o weithio sydd wedi bod flaenaf yn ein meddyliau wrth baratoi ar gyfer y Gyllideb ac maent yn gam pwysig wrth baratoi ar gyfer rhoi'r Ddeddf ar waith fis Ebrill nesaf ac wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy i bobl Cymru sy'n addas at y dyfodol.




Wrth gynllunio'n Cyllideb, rydym wedi ystyried effeithiau tueddiadau heddiw a rhagolygon y dyfodol ar wasanaethau cyhoeddus dros y tymor hwy. Drwy hynny, rydym wedi gallu cynllunio trwy weld heriau cyn iddynt godi gan ganiatáu inni gadw'r ddysgl yn wastad rhwng pwysau tymor byr ac anghenion tymor hir.




Yn ogystal ag ystyried sut orau i ddiwallu'r galw presennol am wasanaethau, mae ein penderfyniadau gwariant yn cefnogi ymyriadau hefyd sy'n rhwystro problemau rhag codi yn y dyfodol.  Mae'r elfen 'atal' hon yn rhan bwysig o'n cynlluniau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, nawr ac yn y dyfodol.




Wrth lunio’n cynlluniau ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2016-17, rydym wedi gweithio ar draws ffiniau traddodiadol cyfrifoldebau Gweinidogol er mwyn canolbwyntio ar y gwasanaethau a chanlyniadau sy’n bwysig i bobl Cymru.




Wrth fynd ati i gynllunio Cyllideb Ddrafft 2016-17 mewn modd cydweithredol, rydym wedi ystyried y cysylltiadau rhwng meysydd gwasanaeth a sut i fanteisio i’r eithaf ar y cysylltiadau hyn i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol pawb.




Dros yr haf, bu’r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ar Daith Cyllideb ar draws Cymru.  Bu’n gyfle i fanteisio ar brofiad ymarferol partneriaid cyflenwi a defnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus i ystyried beth sy’n gweithio’n dda a ble y ceir cyfleoedd i integreiddio gwasanaethau ymhellach a chydweithio mwy i wella canlyniadau.

### Edrych tua'r tymor hir

**1.14** Un o'r ffactorau sbarduno allweddol o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru dros y tymor canolig i'r tymor hir yw'r newid rhagamcanol yn y boblogaeth ac effaith hynny ar y gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion y boblogaeth honno.  Fodd bynnag, bydd tueddiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol pwysig eraill megis newid yn yr hinsawdd hefyd yn llunio'r gwasanaethau cyhoeddus sy'n ofynnol yn y dyfodol. O ran darparu gwasanaethau cyhoeddus, mae hyn yn golygu sut i ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

**1.15** Rhagwelir y bydd poblogaeth Cymru yn cynyddu o 3.1 miliwn yn 2014 i 3.3 miliwn erbyn 2033. O ran hyn, rhagwelir y bydd y gyfran o bobl dros 65 oed yn cynyddu o 20 y cant o'r boblogaeth i dros chwarter o'r

boblogaeth. Gan y bydd mwy o bobl yn byw'n hirach, rhagwelir y bydd cynnydd yn nifer yr achosion o gyflyrau penodol a chymhleth, megis dementia, sy'n fwy cyffredin ymhlith yr henoed ac mae'r rhain yn debygol o roi pwysau cynyddol ar ein gwasanaethau cymdeithasol.

**1.16** Yn ogystal, rhagwelir y bydd nifer y bobl ifanc yn cynyddu hyd at y flwyddyn 2023, sef tua 18 y cant o'r boblogaeth dros y cyfnod hwn. Mae'r newidiadau demograffig hyn yn awgrymu y bydd mwy o alw yn y dyfodol am wasanaethau cyhoeddus allweddol, megis ysgolion, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Gan hynny, mae sicrhau bod capasiti priodol ar gael a'n bod yn darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion y boblogaeth yn ystyriaethau allweddol.

**1.17** O ddechrau'r broses o bennu'r Gyllideb, rydym wedi canolbwyntio ar sicrhau'r ffordd orau o ddiwallu anghenion cynyddol meysydd gwasanaeth allweddol er gwaethaf toriadau cyllidebol. Mewn Cyllidebau olynol, rydym wedi blaenoriaethu gwariant ataliol fel ffordd o osgoi ymyriadau mwy costus yn y dyfodol, ac i wella ansawdd bywydau pobl yn y tymor hir. Yn unol ag argymhelliad blaenorol y Pwyllgor Cyllid o ran rhoi eglurhad pellach o sut y mae ein Cyllideb yn cynorthwyo ymyriadau ataliol, rydym yn cydweithio â'r Trydydd Sector i ddatblygu diffiniad cyffredin o wariant ataliol.

**1.18** Dadansoddiad ydyw o'r dystiolaeth ynghylch tueddiadau ac amcanestyniadau cyfredol sydd wedi ein helpu i ganolbwyntio ar y meysydd mwyaf allweddol o ran diwallu anghenion poblogaeth Cymru, a dyna sydd wedi llywio'r cynigion gwariant hyn.

**1.19** Rydym wedi asesu'r dystiolaeth ac wedi nodi'r gwasanaethau allweddol sy'n gwneud y cyfraniad mwyaf i gyflawni ein blaenoriaethau trosfwaol, ac rydym wedi rhoi ystyriaeth fanwl i'r camau gweithredu sydd eu hangen, yn enwedig yr hyn y gallwn ei wneud yn awr i atal problemau yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn gynaliadwy a'u bod yn gallu diwallu ein hanghenion ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

## Cynnwys

**1.20** Wrth baratoi ein cynlluniau rydym wedi cynnwys ein partneriaid allweddol, gan gynnwys y Trydydd Sector a defnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus. Aethpwyd ati i ystyried yr heriau a'r cyfleoedd a ddaw yn sgil ymdopi â thoriadau cyllidebol, gan gynnwys y cyfleoedd sydd ar gael i annog arloesi o ran darparu gwasanaethau ac i fabwysiadu dulliau gweithredu mwy cydweithredol a chydgysylltiedig. Mae'r gwaith ymgysylltu hwn yn ffordd hanfodol o feithrin dealltwriaeth o'r modd y mae penderfyniadau cyllidebol yn effeithio ar fywydau pobl ledled Cymru.

**1.21** Rydym wedi parhau â'n gwaith ymgysylltu rheolaidd gyda Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb (BAGE), ac mae eu cyngor a'u harbenigedd wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr i'n gwaith o baratoi'r

Gyllideb. Gofynnwyd i'r Grŵp roi cyngor i ni ar y meysydd blaenoriaeth o ran buddsoddi cyn i ni baratoi Cyllideb Ddrafft 2016-17, a thrwy'r gwaith hwnnw maent wedi darparu sail tystiolaeth sydd wedi llywio ein penderfyniadau, yn enwedig o ran lle y gallwn weithredu i liniaru effaith toriadau cyllidebol ar y bobl fwyaf difreintiedig.

### Ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i'r Arferion Gorau o ran Gweithdrefnau Cyllidebol

**1.22** Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cynnal Ymchwiliad i'r arferion gorau o ran gweithdrefnau cyllidebol a sut y mae angen newid y prosesau sy'n bodoli eisoes i adlewyrchu'r cyfrifoldebau cyllidol newydd. Un o argymhellion allweddol Rhan II yr ymchwiliad oedd sefydlu proses gyllidebol dau gam, gyda'r cam cyntaf yn canolbwyntio ar ddyraniadau lefel uchel i bortffolios Gweinidogol, a'r ail gam yn canolbwyntio ar benderfyniadau a dyraniadau Gweinidogol manwl o fewn portffolios.

**1.23** Wrth lunio'r crynodeb hwn o gynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru, rydym wedi ceisio adlewyrchu ysbryd yr argymhellion hyn, gan ganolbwyntio ar y penderfyniadau strategol lefel uchel a wneir, ynghyd â'r dystiolaeth i ategu'r penderfyniadau strategol hynny. Rydym wedi mynd ati mewn ffordd integredig i asesu effaith ein penderfyniadau, ac ochr yn ochr â chyhoeddi Cyllideb Ddrafft 2016-17 rydym yn cyhoeddi ein Hasesiad Effaith Integredig Strategol. Rydym yn cydweithio â Chomisiwn y Cynulliad i ystyried y broses gyllidebol yn y dyfodol.

### Cyllid Ewropeaidd

**1.24** Bu Llywodraeth Cymru yn llwyddiannus iawn o ran cynorthwyo ei rhaglenni â Chronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, sy'n chwarae rôl allweddol yn yr economi a'r farchnad lafur yng Nghymru.

**1.25** Mae'r cronfeydd hyn gan yr Undeb Ewropeaidd yn cynnwys Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF), Cronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD), a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF). Gyda'i gilydd, mae'r cronfeydd hyn yn werth dros £2.4 biliwn i Gymru yn y cyfnod cyllido 2014-2020, gan sbarduno buddsoddi ym meysydd ymchwil ac arloesi, cystadleurwydd busnes, ynni adnewyddadwy ac arbed ynni, cysylltedd (gan gynnwys TGCh a thrafnidiaeth), datblygu trefol, helpu pobl i mewn i waith a hyfforddiant, cyflogaeth ieuenctid, gwella cystadleurwydd yn y sector amaethyddiaeth a choedwigaeth, a meithrin busnesau a chymunedau gwledig cynaliadwy.

**1.26** Er mwyn manteisio i'r eithaf ar effaith cronfeydd yr UE i gynorthwyo twf economaidd a chreu swyddi, rydym wedi mabwysiadu dull gweithredu mwy strategol o ran

1.27 cyflawni, gyda chronfeydd yr UE yn cynorthwyo cynlluniau sy'n canolbwyntio ar gyfleoedd datblygu economaidd ac sy'n ychwanegu gwerth ehangach i fuddsoddiadau cyhoeddus a phreifat ehangach yn economi a marchnad lafur Cymru.

## 2. Y Cyd-destun Ariannol


**2.1** Ym mis Ebrill 2018 bydd datganoli mân drethi, sef y Dreth Dirlenwi a Threth Dir y Dreth Stamp, yn dechrau. Grant bloc gan Lywodraeth y DU yw prif ffynhonnell cyllid Llywodraeth Cymru o hyd. Mae'r penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth y DU mewn meysydd gwariant cymaradwy yn arwain at newidiadau yng nghyllidebau Llywodraeth Cymru. Gan hynny, yr Adolygiad Gwariant sy'n pennu'r cyd-destun ariannol rydym yn gweithredu ynddo.

### Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU, 2015

**2.2** Roedd Adolygiad Gwariant y DU yn pennu'r gwariant refeniw am y pedair blynedd nesaf a'r gwariant cyfalaf am y pum mlynedd nesaf, a hynny ar gyfer holl Adrannau Llywodraeth y DU. Drwy Fformiwla Barnett, bydd newidiadau i gyllidebau Adrannau'r DU mewn meysydd datganoledig yn arwain at newidiadau i Gyllideb Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth y DU wedi parhau â'r arfer o roi rhywfaint o ddiogelwch cymharol i feysydd eang o wariant cyhoeddus; sef yn bennaf iechyd, ysgolion, amddiffyn a chymorth tramor. Fodd bynnag, disgwylir i'r toriadau cyllidebol llym mewn termau real - a thoriadau o ran arian parod mewn rhai achosion - yn y rhan fwyaf o'r meysydd nad ydynt wedi'u diogelu - barhau tan ddiwedd y degawd hwn. Mae hyn yn golygu, er gwaethaf y cynnydd mewn termau real o ran cyllido'r GIG yn ystod y cyfnod hwn, fod ein cyllideb gyffredinol yn parhau i leihau mewn termau real.

**2.3** Mae cyflymder y toriadau mewn gwariant yn lled debyg i'r hyn a ddigwyddodd yn ystod y Senedd flaenorol. Fodd bynnag, daw hyn ar ben pum mlynedd o doriadau i wariant cyhoeddus nas gwelwyd eu math o'r blaen, ac yng nghyd-destun pwysau cynyddol ar gyflogau a chynnydd cronnus o ran angen. Mae Siart 1 yn dangos trywydd gwariant Llywodraeth y DU ar wasanaethau ers 2009-10, ochr yn ochr â'r toriadau gwariant a gyhoeddwyd dros gyfnod nesaf yr Adolygiad Gwariant.

**Siart 1 Gwariant y DU ar Wasanaethau'r Llywodraeth (Termau Real, 2009-10 = 100)**




## Goblygiadau Adolygiad Gwariant 2015 i Gymru

**2.4** Pennwyd Cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod o 2016-17 i 2019-20 gan Lywodraeth y DU yn ei Hadolygiad Gwariant, a ddaeth i ben ar 25 Tachwedd 2015. Nodir setliad Llywodraeth Cymru isod yn Nhabl 1. At ei gilydd, mae Cyllideb Cymru'n cynyddu mewn termau arian parod ym mhob blwyddyn o'r setliad. Erbyn 2019-20, bydd tua 4 y cant yn uwch nag yn ystod y flwyddyn hon, gyda chynnydd o ychydig yn llai na £400m mewn refeniw a £200m mewn cyfalaf.

**Tabl 1 Setliad Arian Parod Llywodraeth Cymru, £Biliynau**

| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Refeniw** | 12.92 | 13.03 | 13.15 | 13.21 | 13.29 |
| **Cyfalaf** | 1.46 | 1.53 | 1.52 | 1.57 | 1.65 |
| **Cyfanswm** | 14.38 | 14.56 | 14.67 | 14.77 | 14.93 |


**2.5** Fodd bynnag, fel y dangosir yn Nhabl 2, yn sgil chwyddiant, bydd cyllideb Llywodraeth Cymru yn lleihau tua 3.6 y cant mewn termau real dros y cyfnod hwn.

**Tabl 2: Setliad Termau Real Llywodraeth Cymru £ Biliynau (prisiau 2015-16)**

| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Refeniw** | 12.92 | 12.81 | 12.70 | 12.52 | 12.33 |
| **Cyfalaf** | 1.46 | 1.51 | 1.47 | 1.48 | 1.53 |
| **Cyfanswm** | 14.38 | 14.31 | 14.17 | 14.00 | 13.86 |

**2.6** Mae Siart 2 yn dangos y dirywiad cyffredinol mewn termau real yn ein Cyllideb rhwng 2015-16 a 2019-20


**Siart 2: Cyfanswm DEL Cymru - Cymharu Termau Arian Parod a Thermau Real**





**2.7** Rhaid pwysleisio hefyd, er bod cyfradd y lleihad dros y cyfnod hwn ychydig yn arafach na'r hyn a welwyd o dan Lywodraeth Glymbleidiol flaenorol y DU, mae'r setliad yn parhau i fod yn eithriadol o heriol mewn termau hanesyddol, yn enwedig oherwydd y daw'r toriadau mewn termau real i'n cyllideb ar ben y toriadau llym a wnaed eisoes o dan weinyddiaeth flaenorol y DU. Fel y dangosir yn Siartiau 3 a 4, ers

dechrau'r mesurau cyni yn 2010, bydd Cyllideb Llywodraeth Cymru wedi ei thorri 10 y cant mewn termau real, a bydd ei chyllideb gyfalaf wedi'i thorri 20 y cant erbyn diwedd y degawd.

**Siart 3: Cyllideb Refeniw Cymru mewn termau real**



**Siart 4: Cyllideb Gyfalaf Cymru mewn termau real**



## Yr Heriau Ariannol sy'n Wynebu Cymru

**2.8** Cyn yr Adolygiad o Wariant, galwodd Llywodraeth Cymru unwaith eto ar Lywodraeth y DU i ailystyried y targed anhyblyg ac amhriodol a bennwyd ganddi ar gyfer y diffyg cyllidebol a'r cynlluniau cysylltiedig ar gyfer toriadau pellach i wariant cyhoeddus. Rydym o'r farn y gallai toriadau pellach i wariant cyhoeddus beryglu'r adferiad economaidd.

**2.9** Mae buddsoddiad mewn seilwaith a sgiliau - sef buddsoddiad sydd ei angen yn fawr - a chynnal a datblygu capasiti a chynhyrchiant economaidd yn hanfodol er mwyn sicrhau adferiad economaidd cytbwys. Dyma'r dull gweithredu y mae Llywodraeth Cymru ei hun wedi ceisio ei fabwysiadu, er ei bod yn gwneud hynny o fewn y cyfyngiadau llym a osodwyd gan Lywodraeth y DU. Rydym yn croesawu'r cynnydd bach mewn arian parod yn ein cyllideb gyfalaf ar gyfer 2016-17 - ond mae hwn yn dal yn ostyngiad mewn termau real. Ynghyd â'r toriadau mewn termau real i Gyllideb Cymru dros y pum mlynedd diwethaf, mae'n golygu ein bod yn wynebu cyfnod ariannol anos fyth yn y blynyddoedd i ddod. O fewn y cyfyngiadau ariannol hyn, ein blaenoriaeth o hyd yw gwneud popeth a allwn i liniaru effaith y toriadau hyn, a sicrhau ein bod yn canolbwyntio'r adnoddau prin sydd gennym ar y gwasanaethau a'r canlyniadau sydd bwysicaf i bobl Cymru, ac yn atgyfnerthu'r meysydd o wariant cyhoeddus lle mae'r angen mwyaf.

## Cyllido Tecach i Gymru

**2.10** Un o nodau allweddol Llywodraeth Cymru yw sicrhau cyllido tecach i'w gwasanaethau cyhoeddus datganoledig. Fodd bynnag, mae'r ffordd rydym yn cael ein cyllido drwy Fformiwla Barnett yn hen ffasiwn, ac nid yw'n seiliedig ar anghenion poblogaeth Cymru. Mae'r lefelau o angen cymharol yng Nghymru yn parhau i fod yn uwch nag yn Lloegr, sy'n golygu bod y fantais gwariant cymharol yn cael ei herydu - gelwir hyn yn gydgyfeirio, neu'n 'wasgfa Barnett'.

**2.11** Ym mis Hydref 2012, cydnabu Llywodraeth y DU am y tro cyntaf y bu cydgyfeirio o ran cyllido cymharol Cymru ers dechrau cyfnod datganoli, a bod hynny'n peri pryder sylweddol yng Nghymru. Ym mis Chwefror 2015, gwnaeth Llywodraeth y DU ymrwymiad i gyflwyno trefn 'llawr ariannu' i Gymru a fyddai'n addasu'r dyraniad gan Lywodraeth y DU. Er hynny, ar y pryd ni roddwyd unrhyw fanylion pellach o ran sut y byddai trefn y llawr ariannu yn gweithredu, na phryd y byddai'n dod i rym.

**2.12** Mae'r trafodaethau ynghylch trefn y llawr ariannu wedi parhau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, gan arwain at gyhoeddiad yn ystod yr Adolygiad diweddar o Wariant y bydd Llywodraeth y DU yn sicrhau y bydd gwariant y pen yng Nghymru yn ystod y Senedd bresennol yn parhau'n uwch nag yn Lloegr - sef o leiaf 115 y cant o wariant cymaradwy y pen. Er hynny, mae Llywodraeth y DU wedi datgan

y caiff y llawr gwaelodol ei ail-bennu yn ystod Adolygiadau Gwariant yn y dyfodol. Mae hyn yn gam bach ymlaen ond ni fydd yn sicrhau cyllido hirdymor i Gymru, ac mae'n codi llawer o gwestiynau ynghylch sut y caiff ymrwymiadau cyllido o'r fath eu cyfrifo a'u cyflawni yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru'n croesawu'r gefnogaeth drawsbleidiol a roddwyd ar 3 Rhagfyr i sicrhau cytundeb rhynglywodraethol ar y llawr ariannu.

## Cynlluniau Gwariant Llywodraeth Cymru

**2.13** Mae amseriad hwyr yr Adolygiad o Wariant wedi peri heriau ychwanegol i Lywodraeth Cymru o ran paratoi ei Chyllideb. Yn ogystal â gorfod rheoli cylch pellach o doriadau nas cadarnhawyd, mae angen i ni daro cydbwysedd rhwng rhoi sicrwydd cyllido cynnar i'n partneriaid cyflawni a sicrhau bod gan y Cynulliad gyfle i wneud gwaith craffu ystyrlon ar y cynlluniau gwariant.

**2.14** Oherwydd yr holl ystyriaethau hyn, mae Cyllideb Ddrafft 2016-17 yn nodi ein cynlluniau gwariant ar gyfer un flwyddyn yn unig, sef blwyddyn gyntaf cyfnod nesaf yr Adolygiad Gwariant. 2016-17 yw blwyddyn olaf Llywodraeth bresennol Cymru, a mater i'r weinyddiaeth nesaf fydd amlinellu ei chynlluniau ar gyfer gweddill cyfnod yr Adolygiad Gwariant hwn yr hydref nesaf.

**2.15** Yn unol â'r egwyddorion eang a amlinellwyd yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar yr Ymchwiliad i'r Arferion Cyllidebol Gorau, mae naratif y Gyllideb yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau strategol lefel uchel sy'n llywio'r dyraniadau ar lefel y Prif Grwpiau Gwariant. Rhoddir manylion cynlluniau gwariant y portffolios ym mhapurau tystiolaeth y Gweinidogion i'r pwyllgorau pwnc.

## 3. Ein Blaenoriaethau Gwariant

**3.1** Mae ein blaenoriaethau gwariant ar gyfer 2016-17 wedi'u seilio ar ddadansoddiad o'r dystiolaeth ac ar y tueddiadau cyfredol.

### IECHYD A GWASANAETHAU IECHYD

#### Cyfraniad at y Nodau Llesiant

**3.2** Mae parhau i fuddsoddi yn y GIG i godi safonau, gwella canlyniadau i gleifion a sicrhau gwasanaeth iechyd cynaliadwy a chyffredinol i bobl Cymr  yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon. Mae hefyd yn ganolog i sicrhau **Cymru iachach.**

**3.3** Rydym wedi ymrwymo i leihau anghydraddoldebau iechyd a chau'r bwlch yn y canlyniadau iechyd rhwng y tlodaf a'r cyfoethocaf yn ein cymunedau, gan gyfrannu at **Gymru sy'n fwy cyfartal**. Mae'r camau gweithredu yn canolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar ac atal, er mwyn gwneud y cyfraniad mwyaf at ein nodau o ran tlodi ac anghydraddoldeb.

**3.4** Mae iechyd a llesiant da yn bwysig i bawb ac mae hefyd yn ased economaidd. Mae buddsoddi mewn iechyd a gwasanaethau iechyd hefyd yn talu ar ei ganfed yn y tymor canolig a'r tymor hwy, gan gefnogi gwell deilliannau addysgol a ddylai arwain at weithlu mwy medrus a chynhyrchiol. Yn ogystal â chefnogi'n uniongyrchol nodau llesiant **Cymru iachach** a **Chymru sy'n fwy cyfartal**, bydd y buddsoddiad ychwanegol ar gyfer y GIG a amlinellir yn y Gyllideb ddrafft hefyd yn cyfrannu at nod **Cymru lewyrchus.**

#### Tystiolaeth o'r angen i fuddsoddi

**3.5** Yn sgil cynnydd yn y galw am wasanaethau'r GIG yn y blynyddoedd diwethaf, mae pobl Cymru yn cael eu trin yn gyflymach, yn cael canlyniadau gwell ac yn byw yn hirach, ac mae hyn yn cael ei helpu gan y gofal y maent yn ei gael gan GIG Cymru.

**3.6** Mae'r cyllid ar gyfer GIG Cymru wedi cyrraedd lefelau uwch nag erioed, gyda £6.7bn yn cael ei wario eleni er gwaetha'r pwysau rydym wedi'i wynebu o ran Cyllideb Cymru o ganlyniad i fesurau cyni Llywodraeth y DU. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £1.1bn o gyllid cyfalaf a refeniw ychwanegol yn y GIG. Mae hyn yn cynnwys y £225m ychwanegol ar gyfer y GIG yn 2015-16 a gyhoeddwyd gennym yng Nghyllideb Ddrafft 2015-16 yn hydref y llynedd.

**3.7** Mae'r gyllideb iechyd wedi cynyddu dros 9 y cant yn rheolaidd ers 2013-14, a hynny o ran refeniw yn unig. Mae hyn gyfwerth â £178 ychwanegol

yn cael ei wario ar iechyd pob unigolyn yng Nghymru. Yn ôl y ffigurau diweddaraf a gyhoeddwyd gan y Trysorlys, roedd gwariant y pen ar iechyd yng Nghymru 1 y cant yn uwch nag ydoedd yn Lloegr yn 2014-15, ac fe gynyddodd yn gyflymach yng Nghymru nag yn unrhyw un o Wledydd eraill y DU dros y flwyddyn honno.

**3.8** Mae'r ffigurau hefyd yn dangos bod gwariant cyfunol y pen ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn £172, neu 7 y cant yn uwch nag yn Lloegr. Mae hyn yn brawf o'r gwerth a roddwn ar y gwasanaethau cyhoeddus allweddol sydd o'r pwys pennaf i bobl Cymru. Mae hefyd yn dangos ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol cwbl integredig, a'r pwysigrwydd o weithio ar draws ffiniau gwasanaethau.

**3.9** Mae'r GIG wedi parhau i gyflawni arbedion effeithlonrwydd trwy fynd ati i wneud newidiadau i'r ffordd y mae'n darparu gwasanaethau. Rhwng 2010-11 a 2014-15, mae'r GIG wedi gwneud dros £1.1bn o arbedion effeithlonrwydd trwy wneud newidiadau i wasanaethau, gan gynnwys cynyddu cyfraddau llawdriniaethau dydd, darparu mwy o ofal yn nes at gartrefi pobl; ailstrwythuro gwasanaethau; cynyddu cynhyrchiant; rheoli'r galw; cyfyngu ar gyflogau a rhoi presgripsiynau yn fwy effeithiol. Mae hyn yn cyfateb i arbedion blynyddol cyfartalog sydd dros 4 y cant o ddyraniadau refeniw byrddau iechyd. Mae'r cyfraniad y mae ein hymyriadau ataliol o ran iechyd y cyhoedd yn ei wneud yn dangos tystiolaeth o welliannau mewn meysydd allweddol. Er enghraifft, mae lefelau smygu wedi cyrraedd y lefel isaf erioed ac nid yw cyfraddau gordewdra wedi cynyddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

**3.10** Mae GIG Cymru yn mabwysiadu egwyddorion gofal iechyd darbodus wrth geisio ymateb i heriau costau a galw cynyddol yn y cyfnod hwn o gyni, a hynny ar sail gwaith Comisiwn Bevan a ffynonellau eraill o bob cwr o'r byd. Mae gofal iechyd darbodus yn rhoi GIG Cymru ar y blaen mewn symudiad rhyngwladol blaengar i sicrhau mwy o werth o systemau gofal iechyd i gleifion.

**3.11** Nod gofal iechyd darbodus yw creu gwell cydbwysedd o fewn y GIG a chreu system sy'n canolbwyntio ar y claf, drwy roi mwy o bwyslais ar ganlyniadau i gleifion, yn hytrach na swm y gweithgarwch a'r triniaethau, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae GIG sy'n seiliedig ar egwyddorion gofal iechyd darbodus yn sicrhau bod cleifion yn cael y triniaethau mwyaf priodol er mwyn cyflawni nodau a gytunir gan y naill ochr a'r llall sy'n adlewyrchu'r cyfraniad y gall unigolion ei wneud at eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Wrth i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol sicrhau bod atal yn egwyddor graidd sy'n arwain gweithgarwch pob gwasanaeth cyhoeddus, mae gofal iechyd darbodus yn darparu'r fframwaith ar gyfer defnyddio adnoddau mor effeithiol â phosibl.

**3.12** Egwyddorion gofal iechyd darbodus yw:

- creu gwell cydbwysedd o fewn y system gofal iechyd drwy gryfhau gofal sylfaenol a chymunedol;
- cefnogi'r gwaith o sefydlu perthynas fwy cyfartal rhwng cleifion a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol; a
- newid y berthynas rhwng gwasanaethau gofal iechyd a'r cyhoedd, fel eu bod yn rhannu'r cyfrifoldeb am sicrhau gwell canlyniadau iechyd.

**3.13** Fodd bynnag, mae graddfa'r heriau sy'n wynebu GIG Cymru yn arwyddocaol. Mae'r cynnydd yn y boblogaeth o ran y niferoedd cyffredinol sy'n cael eu trin am salwch, a'r galw am ofal heb ei drefnu a gofal cymdeithasol yn effeithio ar y gwariant ar ddarparu gwasanaethau iechyd. Gall tueddiadau demograffig penodol gynyddu'r pwysau. Er enghraifft, amcangyfrifir y bydd nifer y bobl â dementia yn y DU yn cynyddu'n sylweddol hyd at 2051, a bydd pobl hŷn yn fwy tebygol o ddioddef cyflyrau cymhleth a fydd yn effeithio ar y galw a'r capasiti. Mae holl wledydd y Gorllewin yn wynebu'r heriau a'r pwysau hyn.

## Blaenoriaethau Gwariant

**3.14** I gydnabod yr heriau hyn, gwnaethom gomisiynu Ymddiriedolaeth Nuffield y llynedd i gynnal adolygiad annibynnol o'r GIG. 'Degawd o Gyni i Gymru?'. Cyfrannodd yr adroddiad hwn, yn ogystal â'r wybodaeth o gynlluniau integredig tymor canolig Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG, at ein penderfyniad i ddarparu £225m ychwanegol ar gyfer y GIG yn 2015-16.

**3.15** Wrth baratoi ar gyfer Cyllideb eleni, ac fel rhan o'n dull o weithio'n drawsbynciol, mae gwaith wedi'i wneud i ddiweddaru model Nuffield i ystyried y tybiaethau diweddaraf ar bwysau ac effeithlonrwydd gwariant yn y GIG. Rydym wedi canolbwyntio ar wariant ataliol a'r cyswllt rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

**3.16** O ganlyniad, rydym yn dyrannu gwerth £260m o refeniw ychwanegol i'r GIG yn 2016-17. Mae hyn yn cynnwys:

- £200m i gefnogi darpariaeth graidd y GIG. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad i GIG cynaliadwy yng Nghymru sy'n seiliedig ar y diwygiadau a amlinellwyd yn adroddiad Nuffield, gan gydnabod hefyd fod lle i'r GIG barhau i wneud arbedion effeithlonrwydd yn y tymor canolig i'r tymor hwy;

- Rhoi hwb ariannol i'r Gronfa Gofal Canolraddol trwy roi swm ychwanegol o £30 miliwn sy'n golygu bod y dyraniad ar gyfer 2016-17 yn £50 miliwn. Mae'r gronfa hon wedi cefnogi nifer o gynlluniau llwyddiannus sydd wedi gwella canlyniadau ar gyfer pobl hŷn ac agored i niwed trwy eu helpu i gadw'u hannibyniaeth yn eu cartref eu hunain, eu hatal rhag gorfod mynd i'r ysbyty a'u helpu i gael eu rhyddhau'n gynnar o'r ysbyty. Rydym yn disgwyl i'r Gronfa hon gael ei ddefnyddio'n

llawn mewn partneriaeth â gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, gan ddefnyddio'r trefniadau partneriaeth newydd sydd ar waith trwy ein Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Bydd hyn yn sicrhau y caiff y Gyllideb ei thargedu trwy gynllunio a darparu gwasanaethau ar y cyd i ganolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar. Trwy ein buddsoddiad, mae'n rhaid i'r dull hwn ddod yn rhan greiddiol o’r gwaith o ddarparu gwasanaethau prif ffrwd ac ni ddylid ei hystyried fel buddsoddiad sy'n seiliedig ar brosiect neu sydd â therfyn amser penodol; a

- £30m ychwanegol ar gyfer gwasanaethau pobl hŷn a gwasanaethau iechyd meddwl. Rydym yn gwario mwy ar wasanaethau iechyd meddwl nag ar unrhyw ran arall o'r GIG, ac mae'r buddsoddiad ychwanegol hwn yn arwydd pellach o'n hymrwymiad i’r rhan hanfodol hon o'r gwasanaeth iechyd.

**3.17** Oherwydd y cyllid ychwanegol rydym yn ei ddyrannu i’r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ein Cyllideb arfaethedig, mae'r gyllideb hon bellach yn fwy nag erioed, a bydd yn cyfrif am 48 y cant o'r cyllid a ddyrennir i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru yn 2016-17.

## TWF A SWYDDI

### Seilwaith

### Cyfraniad at y Nodau Llesiant

**3.18** Elfen allweddol o’r ffordd yr ydym wedi mynd ati i hybu twf economaidd cynaliadwy yn ystod y cyfnod ariannol anodd hwn yw gweithredu ar y cyd i hybu buddsoddiad mewn seilwaith. Mae hyn yn darparu sbardun economaidd pwysig, gan greu'r amodau ar gyfer twf cynyddol a chynaliadwy yn y tymor canolig a'r tymor hwy. Bydd hyn wedyn yn gosod y sylfeini ar gyfer **Cymru lewyrchus**. Mae seilwaith hefyd yn darparu’r sylfeini hanfodol ar gyfer cyflenwi ein holl wasanaethau, ac mae’n gwbl allweddol ar gyfer cyflawni ein holl nodau llesiant cenedlaethol.

### Tystiolaeth o'r angen i fuddsoddi

**3.19** Mae'r sefyllfa gyfalaf wedi newid yn sylweddol ers 2009-10. Mewn gwrthgyferbyniad llwyr i'r ddegawd flaenorol pan wnaeth ein cyllideb gyfalaf bron â dyblu, mae ein cyllideb gyfalaf wedi lleihau'n sylweddol dros y cyfnod hwn. Er gwaetha'r twf bach mewn arian parod yn yr Adolygiad Gwariant, bydd ein cyllideb gyfalaf yn parhau bron draean yn is mewn termau real yn 2020-21 nag yr oedd ar ddechrau'r ddegawd hon.

**3.20** Er gwaetha'r hinsawdd ariannol heriol hwn, nid ydym wedi cyfyngu ar ein huchelgais. Pan gyhoeddwyd Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn 2012, cyflwynwyd dull mwy strategol ac iddo fwy o ffocws wrth inni fynd ati i fuddsoddi yn seilwaith Cymru. Roedd hyn yn seiliedig ar ein saith blaenoriaeth fuddsoddi craidd, sef: gwella rhwydweithiau trafnidiaeth, gwella rhwydweithiau telegyfathrebu, cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r diwydiant ynni, buddsoddi mewn tai, darparu gwasanaethau cyhoeddus mwy effeithiol a darbodus, gwella ansawdd yr ystâd addysgol a datblygu ein Hardaloedd Menter. Yn ogystal â darparu cynllun manwl o fuddsoddiadau arfaethedig am dair blynedd, mae hefyd yn nodi ein blaenoriaethau hirdymor a'n trywydd.

**3.21** Mae ymagwedd y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn ein helpu i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ein hadnoddau lle y gallwn ychwanegu'r gwerth mwyaf a manteisio i'r eithaf ar y buddion, wrth ddatblygu dulliau arloesol i ysgogi buddsoddiad ychwanegol sylweddol mewn seilwaith cyhoeddus lle mae'n cynnig gwerth am arian.

**3.22** Ers 2012, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu rhaglen fawr o gynlluniau cyllid arloesol er mwyn rhoi hwb y mae gwir ei angen i fuddsoddiad mewn seilwaith ar draws Cymru. Rydym eisoes wedi rhoi gwerth oddeutu £0.5bn o gynlluniau cyllid arloesol ar waith er mwyn sicrhau buddsoddiad ychwanegol mewn tai, ysgolion a phrosiectau priffordd ar draws Cymru drwy'r Grant Cyllid Tai a Menter Benthyca Llywodraeth Leol. Rydym wedi cyhoeddi rhaglen arfaethedig o brosiectau, a fydd yn ffurfio rhaglen fuddsoddi gwerth £1.9bn arall er mwyn creu seilwaith economaidd a chymdeithasol ar draws Cymru gyfan. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys defnyddio gwerth £500m o fenthyca uniongyrchol – rhywbeth y bydd gennym bŵer i'w wneud yn sgil Deddf Cymru 2014.

**3.23** Rydym hefyd wedi parhau i chwilio am ffynonellau cyllid Ewropeaidd er mwyn cynyddu'r buddsoddiad yn seilwaith Cymru, gan gynnwys y Gronfa Ewropeaidd newydd ar gyfer Buddsoddiad Strategol. Rydym wedi trafod yn rheolaidd â Banc Buddsoddi Ewrop er mwyn hyrwyddo dros ddeg cynllun Cymreig a allai gael eu cyllido gan y Gronfa Ewropeaidd ar gyfer Buddsoddiad Strategol a ffynonellau cyllido eraill Banc Buddsoddi Ewrop. Mae'r prosiectau'n estyn ar draws gwahanol sectorau ymhob rhan o Gymru, gan gynnwys cynllun Morlyn Ynni'r Llanw, deuoli adrannau 5 a 6 o gynllun yr A465, Prosiectau Ynys Ynni, y Metro a Chanolfan Ganser Felindre. Er mwyn adlewyrchu ein hymdrechion cynhaliodd y Canolbwynt Cynghori ar Fuddsoddi Ewropeaidd ddigwyddiad yng Nghymru ym mis Hydref 2015 er mwyn siarad yn uniongyrchol â hyrwyddwyr prosiectau o bob rhan o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat yng Nghymru. Dyma'r digwyddiad cyntaf o'i fath y mae'r Canolbwynt wedi'i gynnal yn y DU, ac ymysg y cyntaf yn Ewrop.

## Blaenoriaethau Gwariant

**3.24** Wrth baratoi ar gyfer cyfnod arall o gyfyngu ar wariant cyhoeddus, rydym wedi cynnal asesiad o gynlluniau cyfalaf ac anghenion buddsoddi a hefyd wedi ystyried buddsoddi mewn prosiectau seilwaith pwysig newydd sy'n hybu twf a swyddi. Mae'n rhaid i ni fanteisio ar bob cyfle i gynnal buddsoddiad cyfalaf hanfodol yn sgil cyfnod o gyni parhaus. Bydd angen lefel barhaus o fuddsoddi ar waith cynnal a chadw sydd i'w wneud a gosod offer newydd wrth i'r seilwaith presennol ddyddio. Mae cymryd camau ataliol yn awr i rwystro problemau rhag gwaethygu yn egwyddor allweddol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn unol â'r ymagwedd hon, rydym yn dyrannu £150m i hybu cyllidebau craidd MEG yn 2016-17.

**3.25** Yn unol â'n dull o fynd ati i gynllunio yn y tymor hwy, rydym hefyd yn dyrannu £80.4m ychwanegol, yn unol â blaenoriaethau'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Mae hyn yn cynnwys £29.1m o gyfalaf traddodiadol a £51.3m o gyllid trafodiadau ariannol. Mae manylion y dyraniadau cyfalaf ychwanegol hyn fel a ganlyn.

### Buddsoddi mewn Tai

**3.26** Mae blaenoriaeth ein Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru o fuddsoddi mewn Tai yn cefnogi'n uniongyrchol y Nod cenedlaethol o **Gymru lewyrchu**, gan helpu unigolion a theuluoedd i brynu cartref newydd a helpu i gynyddu'r cyflenwad o dai. Mae hefyd yn rhoi hwb i'r diwydiant adeiladu. Mae buddsoddiad mewn Tai hefyd yn cefnogi'n sylweddol nodau llesiant **Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru sy'n fwy cyfartal** a **Cymru iachach**. Yn unol â hyn rydym yn dyrannu gwerth £26.3m o drafodiadau ariannol ychwanegol er mwyn cynnal blwyddyn gyntaf Cam 2 ein Cynllun Cymorth i Brynu - Cymru.

### Datblygu ein Hardaloedd Menter a Datblygu Economaidd

**3.27** Mae buddsoddi yn ein Hardaloedd Menter yn gwbl allweddol ar gyfer cyflawni **Cymru lewyrchus** a **Cymru sy'n fwy cyfartal**. Mae creu swyddi'n ffordd o alluogi pobl i gyflawni hyd eithaf eu gallu o fewn economi sy'n creu cyfoeth. Rydym yn neilltuo gwerth £25m o drafodiadau ariannol a gwerth £3m o gyfalaf traddodiadol er mwyn cefnogi datblygiad ein Hardaloedd Menter, gweithgarwch ehangach busnesau ac er mwyn hybu twf economaidd. Mae hyn yn cynnwys y £7m sy'n weddill o'r pecyn gwerth £10m a gyhoeddwyd ynghynt ar gyfer datblygu llwybrau hedfan newydd o Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd.

## Gwella Rhwydweithiau Trafnidiaeth

**3.28** Mae blaenoriaeth y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru o ran buddsoddi er mwyn gwella ein rhwydweithiau trafnidiaeth yn gwbl allweddol ar gyfer sicrhau **Cymru lewyrchus**. Mae hefyd yn allweddol ar gyfer sicrhau **Cymru o gymunedau cydlynus** a **Chymru gydnerth**. Yn y Gyllideb ddrafft hon rydym yn darparu cyllid er mwyn sicrhau bod gwaith datblygu o fewn y cynlluniau trafnidiaeth yn parhau ac er mwyn cefnogi'r gwaith hwnnw:

- Ffordd gyswllt Llangefni, cam 2 - £1.3m
- Gwaith Seilwaith Priffordd Porth y Gogledd - £2.7m; a
- Pont ar Ddyfi ar yr A487, fel rhan o Gytundeb Cyllideb 2014 â Democratiaid Rhyddfrydol Cymru - £6m.

## Cefnogi Datblygiad y Diwydiant Ynni yng Nghymru

**3.29** Mae'r buddsoddiad ychwanegol yr ydym yn ei wneud o safbwynt y flaenoriaeth hon o fewn y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn canolbwyntio'n benodol ar gonglfaen Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sef cynaliadwyedd. Mae'r buddsoddiadau hyn hefyd yn ein helpu i gyflawni nodau '**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd eang'** a '**Chymru gydnerth'.**

**3.30** Yn amodol ar ddilyn yr holl arferion sicrwydd busnes a bennir yn y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, rydym yn darparu cyllid ychwanegol fel a ganlyn:

- Twf Gwyrdd Cymru - gwerth £5m o gyfalaf traddodiadol i gefnogi cynllun sy'n anelu at gynyddu a chyflymu prosiectau ar gyfer cyflawni buddsoddiad gwyrdd yng Nghymru. Mae'n canolbwyntio ar brosiectau seilwaith a fydd yn lleihau allyriadau carbon, gan gynnwys gwaith cynhyrchu ynni adnewyddadwy, defnyddio adnoddau'n effeithlon ac ynni o brosiectau gwastraff.
- Cartrefi Cynnes: Cynllun Nyth - gwerth £5m o gyfalaf traddodiadol. Yn rhoi cymorth i ddeiliaid tai unigol er mwyn mynd i'r afael â thlodi tanwydd a gwella perfformiad stoc tai Cymru.

**3.31** Rydym hefyd yn neilltuo cyllid cyfalaf traddodiadol ychwanegol i'r prosiectau canlynol sydd hefyd yn hyrwyddo cynaliadwyedd:

- Cynllun Rheoli Risg Llifogydd Llanelwy - £3m ar gyfer lleihau'r risg llifogydd ar hyd Afon Elwy ac amddiffyn dros 400 o gartrefi.

- Y Rhaglen Rheoli Risg Arfordirol - £3m ar gyfer gwaith paratoi angenrheidiol a fydd yn ei gwneud hi'n bosibl i ddefnyddio'r £150m o gyllid arloesol a fydd yn cefnogi datblygiad prosiectau addasiadau arfordirol a phrosiectau sy'n gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd.

### Cymorth i Fusnesau

**3.32** Mae'r ffaith fod Ardrethi Annomestig wedi'u datganoli, ar lefel ariannol, i Lywodraeth Cymru ers mis Ebrill 2015 yn golygu bod gan Lywodraeth Cymru ragor o hyblygrwydd o ran pennu polisïau sy'n cefnogi twf a swyddi yng Nghymru. Fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft hon rydym yn gwneud penderfyniad cynnar i estyn y Cynllun Rhyddhad Ardrethi ar gyfer Busnesau Bach am 12 mis arall. Bydd y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cynllun hwn yn helpu i sicrhau lleihad o oddeutu £90m yn yr Ardrethi Annomestig a delir gan fusnesau bach yng Nghymru yn 2016-17.

## CYRHAEDDIAD ADDYSGOL

### Cyfraniad at y Nodau Llesiant

**3.33** Mae addysg yn newid bywydau, yn creu cyfleoedd ac yn galluogi unigolion i lywio eu dyfodol. Mae'n creu **cymunedau cryfach a mwy cydlynus** ac yn sail i economi gref. Credwn y dylai addysg fod yn agored i bawb, waeth beth yw eu cefndir. Addysg yw conglfaen ein dull gweithredu ar gyfer creu **Cymru sy'n fwy cyfartal** lle mae pawb yn gallu cyrraedd eu potensial. Drwy ein system addysg, rydym am greu dysgwyr uchelgeisiol a galluog sy'n wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd.

**3.34** Bydd cyflawni ein gweledigaeth ar gyfer addysg yn helpu Cymru i ddod yn genedl gynhyrchiol a **ffyniannus** gyda gweithlu medrus sy'n gallu creu economi sy'n gallu cystadlu ar lwyfan fyd-eang. Mae ein prifysgolion hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig at economi Cymru ac yn cyfrannu at **ddiwylliant bywiog** Cymru.

### Tystiolaeth o'r angen i fuddsoddi

**3.35** Buddsoddi mewn addysg yw sylfaen ein dull ataliol ar gyfer Trechu Tlodi. Yn ôl y ffigurau diweddaraf, mae ein gwariant y pen ar Addysg 4 y cant yn uwch na Lloegr.

### Ysgolion a'r Blynyddoedd Cynnar

**3.36** Rydym yn ymwybodol ers amser bod buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar drwy addysg yn dylanwadu'n sylweddol ar ddatblygiad plant, ac

mae hefyd yn hanfodol i dorri'r cylch o anfantais ac anghydraddoldeb. Ers 2011, rydym wedi diogelu'r cyllid ar gyfer cyllidebau ysgolion ar 1 y cant yn uwch na'r newidiadau i DEL Cymru, at ei gilydd, fel rhan o'n hymrwymiad i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bob plentyn.

**3.37** Yn ôl y dystiolaeth, mae ein buddsoddiad yn gweithio. Mae mwy o blant yn ennill pump TGAU da gan gynnwys Saesneg, Cymraeg neu Fathemateg, a llai o blant yn gadael ysgol heb gymwysterau. Dengys yr ystadegau diweddaraf fod perfformiad disgyblion o deuluoedd llai cyfoethog wedi gwella bron i 4 y cant. Mae hyn yn dangos bod cynnydd yn cael ei gyflawni o safbwynt lleihau'r bwlch cyrhaeddiad. Mae'r cyflawniadau hyn yn adlewyrchu'r flaenoriaeth rydym wedi'i roi ar Addysg dros y Cynulliad hwn, gan gyfeirio adnoddau lle y gallant wneud gwahaniaeth i ddeilliannau.

**3.38** Rydym yn rhagweld pwysau cynyddol ar gyllidebau ysgolion yn sgil y rhagamcan o dwf yn nifer y bobl ifanc yn y tymor canolig a'r ffaith bod cyfran uchel o'r gwariant ar gostau staff. Un o'r ystyriaethau allweddol wrth gynllunio cyllidebau at y dyfodol yw sicrhau bod darpariaeth briodol ar gael i fodloni galw cynyddol, a'n bod yn parhau i fuddsoddi adnoddau er mwyn sicrhau bod plant yn gallu cyrraedd eu potensial llawn.

## Addysg ôl-16

**3.39** Mae addysg a sgiliau'n hanfodol i gael swydd, sy'n cynnig lefel uchel o ddiogelwch rhag tlodi - yn enwedig tlodi dwfn a pharhaus - ac yn cyfrannu'n uniongyrchol at les unigolyn. Dyma pam rydym yn gweithio i sicrhau mynediad at addysg i bawb sydd â'r potensial i gael budd o hynny, waeth beth yw eu cefndir.

**3.40** Bydd rhoi'r sgiliau cywir i bobl ar gyfer y dyfodol yn helpu Cymru i ddatblygu'n genedl fedrus sy'n gallu cynyddu cynhyrchiant a chryfhau'r economi. Yn unol â thueddiadau rhyngwladol, rydym yn disgwyl y bydd Cymru wedi ailstrwythuro ei sylfaen sgiliau erbyn 2020, gyda chynnydd yng nghyfran y bobl sydd mewn swyddi â sgiliau lefel uwch a gostyngiad yng nghyfran y bobl sydd mewn swyddi â sgiliau lefel isel neu ddim sgiliau. Mae'n bwysig ein bod ni'n paratoi ar gyfer hyn. Felly, mae ein Datganiad Polisi ar Sgiliau, a gyhoeddwyd yn gynharach eleni, yn disgrifio sut y mae angen i ni sicrhau cydbwysedd o fewn yr economi a bodloni'n well anghenion penodol busnesau o safbwynt gweithlu medrus er mwyn gallu cystadlu ar lefel ryngwladol.

## Addysg Uwch

**3.41** Mae addysg yn hwb mawr i symudedd cymdeithasol. Credwn y dylai pawb gael cyfle i fanteisio ar Addysg Uwch, waeth beth yw eu cefndir.

**3.42** Dros gyfnod y weinyddiaeth hon, rydym wedi parhau i gyflawni ein hymrwymiad i sicrhau nad yw unrhyw fyfyrwyr israddedig llawn amser sydd fel arfer yn byw yng Nghymru yn talu mwy am eu gradd mewn termau real na phe baent wedi bod yn fyfyrwyr yn 2010/11. Wrth raddio, mae'r ddyled ar gyfer myfyrwyr o Gymru yn sylweddol is na dyled eu cyfoedion yn Lloegr.  Yn ystod cwrs gradd tair blynedd, mae myfyrwyr presennol o Gymru £17,000 yn well eu byd na'u cyfoedion yn Lloegr.

## Blaenoriaethau Gwariant

### Ysgolion a'r Blynyddoedd Cynnar

**3.43** Buddsoddi mewn darpariaeth rheng flaen ysgolion yw conglfaen ein dull gweithredu ar gyfer gwella cyrhaeddiad addysgol. Fel rhan o hyn rydym yn parhau i gynyddu cyllid ar gyfer ysgolion, a hynny ar gyfradd o 1 y cant yn uwch na newidiadau i DEL Cymru yn 2016-17.

**3.44** Yn 2016-17, byddwn yn dyrannu £36.7m ychwanegol ar gyfer darpariaeth rheng flaen ysgolion. Bydd y rhan fwyaf o'r cyllid yn cael ei ddyrannu drwy'r Grant Cynnal Refeniw i gefnogi darpariaeth graidd ysgolion gan awdurdodau lleol. Rydym hefyd wedi diogelu'r cyllid cyffredinol ar gyfer ysgolion, neu i gefnogi ysgolion, at ddibenion penodol rhag y gostyngiadau o ran cyllid yn 2016-17. Rydym hefyd yn parhau i ddarparu cyllid ar gyfer ein cynllun llwyddiannus Her Ysgolion Cymru yn 2016-17, gan sicrhau bod £15m ar gael y flwyddyn nesaf. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion sy'n rhan o'r cynllun wedi gweld gwelliant mewn lefelau cyrhaeddiad, gyda rhai'n cyflawni eu canlyniadau gorau erioed.

**3.45** Rydym hefyd yn cydnabod pa mor bwysig yw ysgolion o ran **ffyniant y Gymraeg**. Bydd y cyllid ychwanegol yr ydym yn ei ddarparu’n cael yr un effaith ar ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion cyfrwng Saesneg ac ysgolion dwyieithog.

### Addysg ôl-16

**3.46** Yn ôl y gwaith rydym wedi'i wneud i ddeall effaith benodol gostyngiadau blaenorol i'r gyllideb ar y sector ôl-16, mae'n bellach yn glir y byddai rhagor o doriadau yn y dyfodol yn cyfyngu'n sylweddol ar y gallu i gyflenwi'r ddarpariaeth sy'n angenrheidiol i greu gweithlu'r dyfodol.

**3.47** Yn sgil pwysigrwydd addysg a sgiliau o ran creu Cymru **lewyrchus** a **mwy cyfartal**, rydym yn diogelu'r ddarpariaeth ar gyfer addysg ôl-16 yn 2016-17 rhag gostyngiadau mewn arian parod. Rydym hefyd yn darparu

£5m ychwanegol ar gyfer dysgu seiliedig ar waith sy'n golygu y bydd 2,500 o brentisiaethau newydd yn dechrau yn 2016-17. Mae hyn ar ben y cyllid o £5m ar gyfer prentisiaethau fel rhan o Gytundeb y Gyllideb. Yn ystod y cyfnod hwn, byddwn yn disgwyl i'r sector addysg bellach barhau i gydweithio'n agos â chymunedau lleol a busnesau i ddarparu sylfaen gynaliadwy ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol.

### Addysg Uwch

3.48 Comisiynwyd yr Athro Ian Diamond i gynnal adolygiad o gyllid addysg uwch a chyllid myfyrwyr. Un o brif flaenoriaethau'r adolygiad yw ystyried cynaliadwyedd ariannol hirdymor y system Addysg Uwch. Bydd canfyddiadau'r adolygiad hwn yn cael eu cyhoeddi yn 2016 a byddant yn helpu i lywio'r camau nesaf ar gyfer cyllid addysg uwch yng Nghymru. Yn y cyfamser, rydym yn dyrannu £10m ychwanegol ar gyfer Addysg Uwch oherwydd y pwysau ar gymorth myfyrwyr yn 2016-17. Bydd hyn yn golygu bod modd parhau i gyflawni ein hymrwymiad mewn perthynas â ffioedd dysgu.

## CEFNOGI PLANT, TEULUOEDD A CHYMUNEDAU DIFREINTIEDIG

### Cyfraniad at y Nodau Llesiant

3.49 Rydym wedi ymrwymo i greu cymdeithas lle mae pawb yn gallu **gwneud yn dda mewn bywyd, waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau**. Mae ein gweledigaeth ar gyfer **Cymru sy'n fwy cyfartal** yn golygu ein bod yn buddsoddi mewn gweithgarwch sy'n **gwella canlyniadau i bawb** er mwyn creu **cymunedau cydlynus** yng Nghymru lle mae gan bob unigolyn a theulu'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i fyw bywydau **iach, ffyniannus** ac annibynnol.

### Tystiolaeth o’r angen i fuddsoddi

3.50 Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall buddsoddi'n effeithiol mewn gwasanaethau a rhaglenni i sicrhau bod gan bob plentyn y dechrau gorau mewn bywyd, a chefnogi teuluoedd a chreu cymunedau cydlynus, helpu i dorri'r cylch o anfantais cyn ei fod yn dechrau. Fel Llywodraeth, rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag achosion ac effeithiau tlodi a helpu pobl i osgoi'r fagl tlodi. Mae angen i wneud popeth y gallwn i leddfu effaith diwygiadau lles a mesurau darbodus Llywodraeth y DU. Rydym am sicrhau bod pobl yn gallu cadw rheolaeth ar eu bywydau, gan gynnwys y penderfyniadau am y gofal y maent yn ei dderbyn.

## Buddsoddi yn y Blynyddoedd Cynnar

**3.51** Dechrau'n Deg yw ein rhaglen flaenllaw ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar sy'n canolbwyntio ar blant 0-3 oed yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Yn ôl tystiolaeth gynnar, mae'r rhaglen yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar blant. Mae hefyd yn dangos bod plant yn barod i ddysgu pan fyddant yn dechrau'r ysgol ac yn fwy hyderus wrth gymysgu gyda phlant eraill.

**3.52** Yn yr ysgol, mae ein darpariaeth brecwast am ddim yn cynnig brecwast maethlon ar ddechrau'r dydd, yn ogystal â gofal plant, i bob plentyn ysgol mewn ysgolion cynradd yng Nghymru. Mae tystiolaeth o astudiaeth ddiweddar a ddefnyddiodd data o'r cynllun yn dangos y gwahaniaeth y gall brecwast iach ei wneud o ran gwella perfformiad addysgol a chanlyniadau iechyd hirdymor. Yn ogystal â hyn, rydym hefyd yn darparu llaeth ysgol am ddim sy'n darparu maeth hanfodol i blant yn ystod y diwrnod ysgol. Mae ein sesiynau nofio am ddim ar gyfer y rhai o dan 16 oed hefyd yn eu hannog i fyw bywydau mwy iach ac egnïol. Mae'r rhaglenni hyn yn hanfodol i'n hymdrechion i dorri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol, gwella lles corfforol a meddyliol, a gwella cyfleoedd bywyd pob plentyn.

## Buddsoddi mewn Cymunedau

**3.53** Mae'n bwysig nad yw'r gwelliannau a welir yn yr ysgol yn cael eu colli gartref. Rydym am i bob plentyn gael eu magu mewn cymuned fywiog a chydlynus sy'n gallu ei helpu i gyrraedd ei botensial. Mae ein rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn targedu'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Ei nod hirdymor yw cyfrannu at leihau tlodi parhaus. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn canolbwyntio ar godi cyrhaeddiad addysgol, gwella iechyd a lles, a chynyddu ffyniant a chyflogaeth, ac yn benodol lleihau diweithdra ymhlith pobl ifanc.

**3.54** Rydym yn awyddus i sicrhau bod modd i'r Gymraeg ffynnu o fewn ein cymunedau. Mae cyni ariannol wedi arwain at benderfyniadau anodd dros y blynyddoedd diwethaf. O'r herwydd, ac er mwyn sicrhau cyn lleied â phosibl o effeithiau ar y Gymraeg ac ar gymunedau Cymraeg byddwn yn neilltuo £1.2m yn 2016-17 er mwyn sicrhau cyn lleied â phosibl o ostyngiadau i gyllidebau'r Gymraeg.

## Buddsoddi mewn Gwasanaethau Cymdeithasol

**3.55** Yn ôl ein hystyriaeth o dueddiadau yn y dyfodol, mae tueddiadau demograffig yn debygol o olygu mwy o alw am wasanaethau cymdeithasol craidd. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y pwysau ar

wasanaethau cymdeithasol yn debygol o gynyddu yn y tymor hirach. I reoli'r galw yn y dyfodol a'r pwysau presennol o ran costau, mae gofyn cael gwahanol fodelau ar gyfer darparu gwasanaethau. Rydym yn awyddus i weld modelau newydd yn cael eu datblygu sy'n osgoi neu'n lleihau'r angen am ymyriadau mwy costus gan y GIG neu ofal cymdeithasol ac yn gallu helpu pobl i fyw mor annibynnol â phosibl.

**3.56** Mae'r posibiliadau ar gyfer mwy o integreiddio rhwng gwasanaethau wedi bod yn ystyriaeth allweddol wrth gynllunio Cyllideb Ddrafft 2016-17, yn enwedig lle ceir tystiolaeth bod modd i ni gyflawni mwy drwy ddeall sut y gall y GIG, llywodraeth leol a phartneriaid allweddol eraill gydweithio'n well i fynd i'r afael â'r heriau a wynebir.

**3.57** Wrth baratoi ein cynlluniau rydym wedi defnyddio 'dull system gyfan' i gynnal asesiad ehangach o'r modd y mae darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol yn rhyngweithio ag amrywiaeth o ymyriadau cymorth eraill i ddiwallu anghenion pobl. Fel rhan o'n hymrwymiad mewn perthynas â hyn, buddsoddwyd £10m ychwanegol yn 2015-16 yng ngwasanaethau cymdeithasol llywodraeth leol. Roedd hyn yn fodd i lywodraeth leol ymateb i'r galw cynyddol a dechrau symud at wasanaethau mwy ataliol. Rydym hefyd wedi parhau i gefnogi tocynnau teithio rhatach sy'n galluogi pobl hŷn a phobl anabl i gyrraedd amwynderau a pharhau'n annibynnol.

**3.58** Yn yr un modd, mae ein rhaglen Cefnogi Pobl yn helpu unigolion a theuluoedd sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref i ddod o hyd i gartref neu gadw eu cartref, gan wella canlyniadau i'r bobl fwyaf agored i niwed a lleihau'r pwysau ar wasanaethau eraill. Yn 2015-16, disgwylir i'r rhaglen hon helpu bron i 60,000 o bobl.

## Blaenoriaethau Gwariant

**3.59** Yn 2016-17, rydym yn diogelu'r gyllideb ar gyfer Dechrau'n Deg ar yr un lefelau â 2015-16 er mwyn adeiladu ar ei lwyddiant. Rydym hefyd yn bwriadu parhau i ddiogelu'r cyllid ar gyfer brecwast am ddim a llaeth am ddim mewn ysgolion a nofio am ddim ar 1% uwchlaw'r newidiadau i grant bloc cyffredinol Cymru. Er mwyn cydnabod pwysigrwydd rhaglenni a all wella canlyniadau ar gyfer pobl a chymunedau rydym yn diogelu'r cyllidebau ar gyfer grantiau penodol yn ymwneud â gofal cymdeithasol gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf, Cefnogi Pobl ac elfennau eraill o wariant awdurdodau lleol ar wasanaethau cymdeithasol rhag gostyngiadau ariannol. Rydym hefyd yn parhau'n ymrwymedig i gyllido tocynnau teithio rhatach ar 1% uwchlaw'r newidiadau i grant bloc cyffredinol Cymru. Rydym hefyd yn diogelu'r cyllid ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol drwy'r Grant Cynnal Refeniw – gan gynnwys y £10m ychwanegol a neilltuwyd yn 2015-16. Byddwn yn mynd gam ymhellach na hyn, yn ogystal, drwy ddarparu £21m ychwanegol y flwyddyn nesaf er mwyn cefnogi llywodraeth leol i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol.

**3.60** Rydym yn defnyddio ein cyllid ochr yn ochr â'n pwerau deddfwriaethol er mwyn trawsnewid y modd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu. Mae ein Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn gosod y fframwaith ar gyfer darparu gwasanaethau, gan ofyn am fwy o integreiddio rhwng gwasanaethau, mwy o weithio mewn partneriaeth a hefyd mwy o ffocws ar atal ac ymyrryd yn gynnar. Bydd gofyn i'r awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd gydweithio i sicrhau arloesi a newid ac i integreiddio gwasanaethau, gan gynnwys defnyddio'r pwerau yn y Ddeddf mewn perthynas â chyllidebau cyfun i sicrhau gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Bydd y £30m ychwanegol yr ydym yn ei neilltuo i'r Gronfa Gofal Canolraddol yn 2016-17 yn cefnogi nodau'r Ddeddf hon.

**3.61** Er mwyn cydnabod y pwysau ar gyllidebau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Estyn, rydym yn neilltuo £3m yn 2016-17 i liniaru effaith y gostyngiadau i'r gyllideb ac i'w cynorthwyo wrth iddynt gydweithio â darparwyr gwasanaethau. Bydd hyn yn eu cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau diogel sydd o safon uchel.

## Llywodraeth Leol

**3.62** Rydym yn gwerthfawrogi'r ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan lywodraeth leol, sef gwasanaethau y mae pobl yn dibynnu arnynt a gwasanaethau a ddaw'n bwysicach ar adegau anodd. Ers 2010 rydym wedi rhoi rhywfaint o amddiffyniad i gyllidebau awdurdodau lleol er mwyn lliniaru effeithiau toriadau Llywodraeth y DU i'n Cyllideb. Mae hyn yn golygu bod awdurdodau lleol yng Nghymru wedi derbyn setliadau mwy ffafriol na Chynghorau yn Lloegr. Mae gwariant ar wasanaethau lleol yn Lloegr wedi lleihau tua 9.8 y cant yn nhermau arian parod dros y cyfnod hwn, tra bod gwariant yn y maes hwn wedi cynyddu 2.5 y cant yng Nghymru. Lle bynnag y bo modd, rydym wedi penderfynu buddsoddi rhagor o adnoddau mewn gwasanaethau lleol drwy gyllidebau craidd awdurdodau lleol, yn hytrach na thrwy grantiau wedi'u clustnodi. Gwnaethom hynny mewn ymateb uniongyrchol i alwadau am fwy o hyblygrwydd.

**3.63** Rydym yn parhau â'n hymrwymiad i ddiogelu cyllid ysgolion ar lefel sydd 1 y cant yn uwch na'r newidiadau cyffredinol i Gyllideb Cymru. Gan adeiladu ar y lefel o gyllido a ddiogelir i ysgolion yn 2015-16 (£2.141bn), rydym yn buddsoddi £39.7m o gyllid ychwanegol mewn ysgolion y flwyddyn nesaf, a chaiff £34.8m o'r swm hwnnw ei gyflenwi drwy'r Grant Cynnal Refeniw i gynorthwyo'r ddarpariaeth rheng flaen mewn ysgolion fel rhan o'n hymrwymiad ehangach i symleiddio'r drefn o gyllido llywodraeth leol.

**3.64** Wrth baratoi ein cynlluniau ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol, rydym wedi defnyddio tystiolaeth a gyflwynwyd mewn adroddiad ar y cyd a luniwyd gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i lywio ein hasesiad o

bwysau cyllidebol yn y dyfodol. Mae'r dystiolaeth hon wedi'n helpu i lunio ein penderfyniadau. Rydym yn diogelu cyllid gwasanaethau cymdeithasol drwy'r Grant Cynnal Refeniw, ac yn buddsoddi £21m o gyllid ychwanegol yn 2016-17 i gynorthwyo llywodraeth leol i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol.

**3.65** Gan ganolbwyntio ar atal ac ar ymyrraeth gynnar, rydym hefyd yn diogelu cyllid Dechrau'n Deg, Cefnogi Pobl a Chymunedau yn Gyntaf yn 2016-17, a hynny drwy setliad arian gwastad.

**3.66** Wrth wneud penderfyniadau cyllido ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2016-17, rydym wedi cymryd camau i liniaru effaith toriadau cyllidebol ar lywodraeth leol, ac mae ein penderfyniadau yn golygu y bydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn cael setliad cyffredinol gwell yn 2016-17 na Chynghorau yn Lloegr. Fodd bynnag, rydym yn llwyr werthfawrogi'r heriau ariannol y bydd y setliad yn eu peri i wasanaethau lleol eraill a ddarperir gan lywodraeth leol. Dyna pam ei bod yn bwysig i lywodraeth leol, ynghyd â'r holl wasanaethau cyhoeddus, barhau i ystyried dulliau arloesol o ddarparu gwasanaethau a sut y gallant fuddsoddi mewn trawsnewid gwasanaethau er mwyn paratoi ar gyfer setliadau mwy heriol.

**3.67** Wrth edrych tua'r dyfodol, rydym yn cydweithio â llywodraeth leol i wneud arbedion effeithlonrwydd gweithredol a lleihau costau eu swyddogaethau gweinyddol. Rydym hefyd yn chwilio am gyfleoedd i gynorthwyo nod y Cabinet o symleiddio'r ffordd y mae'r Llywodraeth yn cydweithio â phartneriaid drwy leihau gorbenion gweinyddol diangen a chostus a sicrhau bod y ffyrdd o weithio a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymwreiddio.

**3.68** Yn unol â'n gweledigaeth o greu un gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru sy'n cydweithio i gyflawni canlyniadau gwell i ddinasyddion, rydym yn cydweithio â Llywodraeth Leol i ddatblygu systemau gwell i roi sicrwydd ynghylch y canlyniadau a gyflawnir drwy'r cyllid sylweddol a roddir gennym i Awdurdodau Lleol. Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym yn ailystyried y posibilrwydd o gynnig dulliau cyllido mwy hyblyg i Awdurdodau Lleol a, lle y bo'n briodol, symud cyllid allan o grantiau penodol i gyllid sydd heb ei neilltuo (sef y Grant Cynnal Refeniw). Symudwyd dros £160m o gyllid grant i mewn i'r Grant Cynnal Refeniw yn ystod tymor presennol y Cynulliad ac, yn dilyn dileu Budd-dal y Dreth Gyngor fel rhan o'r broses o ddiwygio'r system les, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi £244m o gyllid blynyddol i Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor drwy'r Setliad heb ei neilltuo.

**3.69** Mae'r gyllideb ddrafft yn cadarnhau bod dros £30m o gyllid a fu'n cael ei ddefnyddio i gynorthwyo Cytundebau Canlyniadau yn cael ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw, a thrwy gynnal trafodaethau gyda'r Awdurdodau Lleol, rydym yn parhau i ystyried y posibilrwydd o wneud mwy o ran dadneilltuo ar gyfer 2016-17 a datblygu opsiynau pellach i'r weinyddiaeth newydd eu hystyried o ran 2017-18.

**3.70** Caiff manylion y setliad llywodraeth leol dros dro, gan gynnwys manylion y dyraniadau i'r awdurdodau unigol, eu cyhoeddi ar 9 Rhagfyr.

## Cytundeb Cyllideb 2014

**3.71** Y llynedd, gwnaethom gytuno ar becyn o fesurau gyda Democratiaid Rhyddfrydol Cymru fydd yn para am ddwy flynedd . Roedd y rhain yn seiliedig ar ein hymrwymiad i gefnogi plant a phobl ifanc ac ymyrraeth gynnar. Mae'r mesurau hyn yn cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau llesiant gwell i bobl yn awr ac yn y dyfodol – sef yr hyn sydd wrth wraidd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**3.72** Mae ein cynigion Cyllidebol yn adlewyrchu goblygiadau ariannol y mesurau y cytunwyd arnynt ar gyfer 2016-17.

## Y Grant Amddifadedd Disgyblion

**3.73** Yn 2015-16 darparwyd £44m o gyllid ychwanegol gennym i gynyddu'r Grant Amddifadedd Disgyblion o £918 i £1,050 i bob plentyn cymwys. Mae'r grant ar gael i ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig, yn unol â'n hymrwymiad a rennir i gau'r bwlch cyrhaeddiad ar gyfer dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig. Yn 2016-17 rydym yn dyrannu £7.2m o gyllid pellach i gynyddu'r Grant Amddifadedd Disgyblion o £1,050 i £1,150 i bob plentyn cymwys.

**3.74** Rydym yn parhau i ariannu'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar lefel uwch na'r buddsoddiad a roddir gan Lywodraeth Cymru i gyllidebau ysgolion yn gyffredinol, gan adlewyrchu'r flaenoriaeth a roddir gennym i dorri'r cysylltiad rhwng cyrhaeddiad addysgol isel a thlodi. Byddwn hefyd yn parhau i ddarparu'r grant ar gyfer plant dan 5 oed, er mwyn sicrhau bod plant o'r cefndiroedd mwyaf difreintiedig yn cael mynediad i addysg o ansawdd uchel yn eu blynyddoedd cynnar.

## Tocynnau Teithio Rhatach i Bobl Ifanc

**3.75** I lawer o bobl ifanc, mae'r system drafnidiaeth gyhoeddus yn hanfodol o ran gallu cael cyfleoedd gwaith, addysg a hyfforddiant, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Ym mis Medi 2015 gwnaethom gyflwyno cynllun teithio rhatach i bobl ifanc 16 a 17 oed er mwyn sicrhau nad yw fforddiadwyedd yn eu rhwystro rhag cael y cyfleoedd hynny. Yn 2016-17 rydym yn dyrannu £9.75m ar gyfer Tocynnau Teithio Rhatach i Bobl Ifanc er mwyn parhau i gefnogi'r cynllun hwn.

## Prentisiaethau

**3.76** Mae prentisiaethau yn ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc, gan gynnig man cychwyn gwerthfawr iddynt ar y llwybr tuag at yrfaoedd addawol. Yn ystod tymor y weinyddiaeth hon rydym wedi buddsoddi cannoedd o filiynau o bunnoedd mewn creu lleoliadau prentisiaeth er budd byd busnes a phobl ifanc.

**3.77** Fel rhan o Gytundeb Cyllideb 2014 cyhoeddwyd cynlluniau i ddyrannu £10m i brentisiaethau dros y cyfnod o ddwy flynedd er mwyn helpu i liniaru effeithiau'r toriadau arfaethedig. Mae ein cynigion cyllidebol ar gyfer 2016-17 yn adlewyrchu ein hymrwymiad i ddyrannu cyllid ychwanegol o £5m, a fydd yn sicrhau parhad y cymorth i oddeutu 2,500 o brentisiaethau. Mae hyn ar ben y £5m o gyllid a ddyrennir gennym yn 2016-17 i gynorthwyo Dysgu Seiliedig ar Waith.

## Gofal Plant ym maes Addysg Bellach

**3.78** Gan gydnabod pwysigrwydd sicrhau bod gan bobl ifanc y cymorth sydd ei angen arnynt i barhau â'u haddysg, fel rhan o Gytundeb y Gyllideb rydym yn cyllido astudiaeth ddichonoldeb yn 2015-16 i benderfynu pa gymorth pellach sydd ei angen ar rieni ifanc i'w helpu i ddychwelyd i addysg bellach pan fo gofal plant yn peri rhwystr. Bydd canlyniadau'r astudiaeth hon yn hysbysu cynllun peilot, ac rydym wedi neilltuo cyllid ychwanegol o £350k yn 2016-17 ar gyfer y cynllun hwnnw.

## Buddsoddi Cyfalaf

**3.79** Dyrannwyd cyllid o £6m yn y Gyllideb Ddrafft hon i gynorthwyo'r gwaith o godi pont newydd dros afon Dyfi ger Machynlleth sy'n rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i barhau i wella'r cysylltiadau trafnidiaeth rhwng y Gogledd a'r De. Dyrannwyd cyllid o £0.05m ar gyfer arwyddion Theatr Hafren, a oedd hefyd yn rhan o'r Cytundeb.

## Cyllideb DEL Cymru

**4.1** Y gwariant datganoledig yng Nghymru ar gyfer 2016-17 yw Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) Cymru o £15.1bn a Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) o £1.5bn.

**4.2** Mae Tabl x yn dangos cydrannau Cyllideb DEL Cymru, sy'n cynnwys Cyllideb DEL Llywodraeth Cymru a chyllidebau dangosol Comisiwn y Cynulliad, Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae hefyd yn dangos y Cronfeydd Adnoddau Wrth Gefn a'r Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn. Mae DEL Cymru hefyd yn cynnwys Costau Uniongyrchol i Gronfa Gyfunol Cymru.

### Tabl 4.1 – Dyrannu Cyllideb DEL Cymru

| **PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)** | | **£000oedd 2016-17** |
|---|---|---|
| **Terfynau Gwariant Adrannol (DEL)** | | |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | | 6,984,269 |
| Llywodraeth Leol | | 3,367,323 |
| Cymunedau a Threchu Tlodi | | 677,323 |
| Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | | 938,747 |
| Addysg a Sgiliau | | 1,746,578 |
| Cyfoeth Naturiol | | 366,575 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | | 311,897 |
| **Cyfanswm y Dyraniad i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | | **14,392,712** |
| Cronfeydd Adnoddau Wrth Gefn | DEL Adnoddau Cyllidol | 221,017 |
| | DEL Adnoddau Anghyllidol | 209,871 |
| Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn | | 293,747 |
| Comisiwn y Cynulliad | | 54,438 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | | 4,339 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | | 6,928 |
| Costau Uniongyrchol i Gronfa Gyfunol Cymru | | 707 |
| **Cyfanswm Gwariant o fewn Cyllideb DEL Cymru** | | **15,183,759** |

**4.3** Yr elfen fwyaf o DEL Cymru yw'r arian a ddyrennir i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru, sydd, yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2016-17, yn cynnwys £13.2bn o Adnoddau ac £1.2bn o Gyfalaf.

## Tabl 4.2 – Dyrannu Cyllidebau DEL Adnoddau Cyllidol Llywodraeth Cymru



| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | £000oedd | | |
|---|---|---|---|
| | Llinell Sylfaen 2015-16 | Newidiadau | Cynlluniau 2016-17 |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 6,316,592 | 244,646 | 6,561,238 |
| Llywodraeth Leol | 3,431,780 | -87,777 | 3,344,003 |
| Cymunedau a Threchu Tlodi | 336,614 | -3,022 | 333,592 |
| Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | 496,297 | -25,341 | 470,956 |
| Addysg a Sgiliau | 1,472,678 | 1,201 | 1,473,879 |
| Cyfoeth Naturiol | 290,743 | -16,323 | 274,420 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 276,793 | 7,584 | 284,377 |
| **Cyfanswm y Dyraniad i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **12,621,497** | **120,968** | **12,742,465** |

## Tabl 4.3 – Dyrannu Cyllidebau DEL Adnoddau Anghyllidol Llywodraeth Cymru

| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | £000oedd | | |
|---|---|---|---|
| | Llinell Sylfaen 2015-16 | Newidiadau | Cynlluniau 2016-17 |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 170,000 | 0 | 170,000 |
| Llywodraeth Leol | 407 | -7 | 400 |
| Cymunedau a Threchu Tlodi | 0 | 0 | 0 |
| Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | 116,677 | 0 | 116,677 |
| Addysg a Sgiliau | 106,931 | 0 | 106,931 |
| Cyfoeth Naturiol | 3,340 | 0 | 3,340 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 16,000 | 0 | 16,000 |
| **Cyfanswm y Dyraniad i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **413,355** | **-7** | **413,348** |

## Tabl 4.4 – Dyrannu Cyllidebau DEL Cyfalaf Llywodraeth Cymru



| PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG) | £000oedd | | |
|---|---|---|---|
| | **Llinell Sylfaen 2015-16** | **Newidiadau** | **Cynlluniau 2016-17** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 219,550 | 33,481 | 253,031 |
| Llywodraeth Leol | 22,920 | 0 | 22,920 |
| Cymunedau a Threchu Tlodi | 275,420 | 68,311 | 343,731 |
| Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | 271,700 | 79,414 | 351,114 |
| Addysg a Sgiliau | 143,834 | 21,934 | 165,768 |
| Cyfoeth Naturiol | 63,180 | 25,635 | 88,815 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 9,935 | 1,585 | 11,520 |
| **Cyfanswm y Dyraniad i Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru** | **1,006,539** | **230,360** | **1,236,899** |

## Cronfeydd Wrth Gefn

**4.4** Yn y Gyllideb Ddrafft hon, mae ein Cronfeydd Adnoddau Cyllidol Wrth Gefn ar gyfer 2016-17 wedi eu pennu fel 1.7% o'r DEL Adnoddau Cyllidol. Mae ein Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn ar gyfer 2016-17 wedi eu pennu fel 19.2% o'r Cyfalaf DEL.

## Gwariant a Reolir yn Flynyddol

**4.5** Mae Tabl 4.5 yn rhoi rhagolwg o lefelau cyllidebau Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) Llywodraeth Cymru. Caiff Gwariant a Reolir yn Flynyddol ei ddiffinio fel gwariant na ellir yn rhesymol gosod terfynau pendant, aml-flwyddyn ar ei gyfer yn yr un ffordd â'r DEL. Yn nodweddiadol, mae'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn gyfnewidiol ac yn seiliedig ar y galw. Am ddiffiniad llawn gweler Atodiad 'y' - yr Eirfa.

### Tabl 4.5 - Cyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol Llywodraeth Cymru

| **PRIF GRWPIAU GWARIANT (MEG)** | **£000oedd** | |
|---|---|---|
| | **2016-17** | |
| | **Adnodd** | **Cyfalaf** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 135,400 | 0 |
| Llywodraeth Leol | 1,001,593 | 0 |
| Cymunedau a Threchu Tlodi | 0 | 0 |
| Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | 37,967 | 0 |
| Addysg a Sgiliau | -79,376 | 449,575 |
| Cyfoeth Naturiol | 2,900 | 0 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 2,652 | 0 |
| **Cyfanswm Cyllideb AME Llywodraeth Cymru** | **1,101,136** | **449,575** |
| Comisiwn y Cynulliad | 1,500 | 0 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | -249 | 0 |
| **Cyfanswm Cyllideb AME Cymru** | **1,102,387** | **449,575** |

## Atodiad A – Cysoni'r Gyllideb Weinyddol â Dyraniadau'r Adnoddau yn y Cynigion ar gyfer y Gyllideb Ddrafft

### Tabl 5.1 - Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

| | **£000oedd** |
|---|---|
| **DEL** | **2016-17** |
| Adnoddau | 6,731,238 |
| Cyfalaf | 253,031 |
| **AME** | |
| Adnoddau | 135,400 |
| Cyfalaf | 0 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **7,119,669** |
| **Cysoni ag Adnoddau** | |
| Defnydd Adnoddau gan CNLCau a chyrff y GIG | -235,400 |
| Benthyca â Chymorth | -3,602 |
| Derbyniadau'r Gronfa Yswiriant Gwladol (a chostau casglu) | -1,082,470 |
| **Adnoddau y gwnaed cais amdanynt** | **5,798,197** |

### Tabl 5.2 - Llywodraeth Leol

| | **£000oedd** |
|---|---|
| **DEL** | **2016-17** |
| Adnoddau | 3,344,403 |
| Cyfalaf | 22,920 |
| **AME** | |
| Adnoddau | 1,001,593 |
| Cyfalaf | 0 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **4,368,916** |
| **Cysoni ag Adnoddau** | |
| Ardrethi Annomestig Cenedlaethol sy'n daladwy (a chostau casglu) | -982,172 |
| Defnyddio Adnoddau gan CNLCau | -400 |
| **Adnoddau y gwnaed cais amdanynt** | **3,386,344** |

## Tabl 5.3 - Cymunedau a Threchu Tlodi

| | £000oedd |
|---|---|
| **DEL** | **2016-17** |
| Adnoddau | 333,592 |
| Cyfalaf | 343,731 |
| **AME** | |
| Adnoddau | 0 |
| Cyfalaf | 0 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **677,323** |
| **Cysoni ag Adnoddau** | |
| Benthyca â Chymorth | -31,340 |
| **Adnoddau y gwnaed cais amdanynt** | **645,983** |

## Tabl 5.4 - Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

| | £000oedd |
|---|---|
| **DEL** | **2016-17** |
| Adnoddau | 587,633 |
| Cyfalaf | 351,114 |
| **AME** | |
| Adnoddau | 37,967 |
| Cyfalaf | 0 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **976,714** |
| **Cysoni ag Adnoddau** | |
| Defnyddio Adnoddau gan CNLCau | -6,281 |
| Benthyca â Chymorth | -10,336 |
| Costau Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | -1,655 |
| PFI | -8,244 |
| **Adnoddau y gwnaed cais amdanynt** | **950,198** |

### Tabl 5.5 - Addysg a Sgiliau

| | £000oedd |
|---|---|
| **DEL** | **2016-17** |
| Adnoddau | 1,580,810 |
| Cyfalaf | 165,768 |
| **AME** | |
| Adnoddau | -79,376 |
| Cyfalaf | 449,575 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **2,116,777** |
| **Cysoni ag Adnoddau** | |
| Defnyddio Adnoddau gan CNLCau | -6,082 |
| Benthyca â Chymorth | -33,781 |
| **Adnoddau y gwnaed cais amdanynt** | **2,076,914** |

### Tabl 5.6 - Cyfoeth Naturiol

| | £000oedd |
|---|---|
| **DEL** | **2016-17** |
| Adnoddau | 277,760 |
| Cyfalaf | 88,815 |
| **AME** | |
| Adnoddau | 2,900 |
| Cyfalaf | 0 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **369,475** |
| **Cysoni ag Adnoddau** | |
| Defnyddio Adnoddau gan CNLCau | -5,990 |
| Benthyca â Chymorth | -9,741 |
| **Adnoddau y gwnaed cais amdanynt** | **353,744** |

### Tabl 5.7 - Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

| | £000oedd |
|---|---|
| **DEL** | **2016-17** |
| Adnoddau | 300,377 |
| Cyfalaf | 11,520 |
| **AME** | |
| Adnoddau | 2,652 |
| Cyfalaf | 0 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir** | **314,549** |
| **Cysoni ag Adnoddau** | |
| **Adnoddau y gwnaed cais amdanynt** | **314,549** |

## Atodiad B Newidiadau o flwyddyn i flwyddyn

### Tabl 6.1 – DEL Adnoddau



| Cyllideb DEL Adnoddau | £000s | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2015-16 | 2016-17 | | |
| | Cyllideb Atodol Mehefin 2015 | Cynlluniau y Gyllideb | % y Newid o Flwyddyn i Flwyddyn | % y Newid o Flwyddyn i Flwyddyn (Gwirioneddol) |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 6,472,279 | 6,731,238 | 4.0% | 2.3% |
| Llywodraeth Leol | 3,430,187 | 3,344,403 | -2.5% | -4.1% |
| Cymunedau a Threchu Tlodi | 341,514 | 333,592 | -2.3% | -4.0% |
| Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | 628,474 | 587,633 | -6.5% | -8.1% |
| Addysg a Sgiliau | 1,589,009 | 1,580,810 | -0.5% | -2.2% |
| Cyfoeth Naturiol | 288,558 | 277,760 | -3.7% | -5.4% |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 311,477 | 300,377 | -3.6% | -5.2% |
| **Cyfanswm Dyraniadau MEG Llywodraeth Cymru** | **13,061,498** | **13,155,813** | **0.7%** | **-1.0%** |

### Tabl 6.2 – DEL Cyfalaf

| Cyllideb DEL Cyfalaf | £000s | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2015-16 | 2016-17 | | |
| | Cyllideb Atodol Mehefin 2015 | Cynlluniau y Gyllideb | % y Newid o Flwyddyn i Flwyddyn | % y Newid o Flwyddyn i Flwyddyn (Gwirioneddol) |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 234,550 | 253,031 | 7.9% | 6.1% |
| Llywodraeth Leol | 22,920 | 22,920 | 0.0% | -1.7% |
| Cymunedau a Threchu Tlodi | 395,420 | 343,731 | -13.1% | -14.5% |
| Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | 486,200 | 351,114 | -27.8% | -29.0% |
| Addysg a Sgiliau | 173,834 | 165,768 | -4.6% | -6.2% |
| Cyfoeth Naturiol | 115,680 | 88,815 | -23.2% | -24.5% |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 11,435 | 11,520 | 0.7% | -0.9% |
| **Cyfanswm Dyraniadau MEG Llywodraeth Cymru** | **1,440,039** | **1,236,899** | **-14.1%** | **-15.5%** |

### Tabl 6.3 – AME Adnoddau

| | £000s | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2015-16 | 2016-17 | | |
| **Cyllideb AME Adnoddau** | **Cyllideb Atodol Mehefin 2015** | **Cynlluniau Newydd y Gyllideb** | **% y Newid o Flwyddyn i Flwyddyn** | **% y Newid o Flwyddyn i Flwyddyn (Gwirioneddol)** |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 195,400 | 135,400 | -30.7% | -31.9% |
| Llywodraeth Leol | 980,593 | 1,001,593 | 2.1% | 0.4% |
| Cymunedau a Threchu Tlodi | 0 | 0 | 0.0% | 0.0% |
| Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | 75,331 | 37,967 | -49.6% | -50.4% |
| Addysg a Sgiliau | -82,444 | -79,376 | -3.7% | -5.3% |
| Cyfoeth Naturiol | 2,900 | 2,900 | 0.0% | -1.7% |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 9,494 | 2,652 | -72.1% | -72.5% |
| **Cyfanswm AME Llywodraeth Cymru** | **1,181,274** | **1,101,136** | **-6.8%** | **-8.3%** |

Page 47

## Tabl 6.4 – AME Cyfalaf

| Cyllideb AME Cyfalaf | £000s | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2015-16 | 2016-17 | | |
| | Cyllideb Atodol Mehefin 2015 | Cynlluniau y Gyllideb | % y Newid o Flwyddyn i Flwyddyn | % y Newid o Flwyddyn i Flwyddyn (Gwirioneddol) |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 0 | 0 | 0.0% | 0.0% |
| Llywodraeth Leol | 0 | 0 | 0.0% | 0.0% |
| Cymunedau a Threchu Tlodi | 0 | 0 | 0.0% | 0.0% |
| Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | 0 | 0 | 0.0% | 0.0% |
| Addysg a Sgiliau | 421,248 | 449,575 | 6.7% | 4.9% |
| Cyfoeth Naturiol | 0 | 0 | 0.0% | 0.0% |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 0 | 0 | 0.0% | 0.0% |
| **Cyfanswm AME Llywodraeth Cymru** | **421,248** | **449,575** | **6.7%** | **4.9%** |

## Atodiad C: Cysoni rhwng Dyraniadau'r Gyllideb Atodol Gyntaf 2015-16 a Llinellau Sylfaen 2016-17

### Tabl 7.1 Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

| **DEL** | | **£000oedd** |
|---|---|---|
| **Adnoddau** | | |
| **Cyllideb Atodol Gyntaf 2015-16** | | **6,472,279** |
| | | |
| **Addasiadau i ddileu trosglwyddiadau anghylchol i Gronfeydd Wrth Gefn neu oddi wrthynt** | | |
| Ychwanegwch yn ôl: Trosglwyddiad anghylchol allan i'r Adran Gwaith a Phensiynau mewn perthynas â'r Gronfa Byw'n Annibynnol | | *6,600* |
| Didynnwch : Trosglwyddiad anghylchol i mewn o'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r Gordal Mewnfudwyr | | *-5,900* |
| | | |
| **Addasiad mewn perthynas â'r Gronfa Buddsoddi i Arbed** | | |
| Ychwanegwch yn ôl: Ad-daliad Net i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed yn cael ei adlewyrchu yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2015-16 | | *13,613* |
| | | |
| **Llinell Sylfaen ar gyfer 2016-17** | | **6,486,592** |
| | | |
| | | |
| **Cyfalaf** | | |
| Cyllideb Atodol Gyntaf 2015-16 | | **234,550** |
| | | |
| **Addasiadau i ddileu dyraniadau anghylchol o Gronfeydd Wrth Gefn** | | |
| Didynnwch ddyraniadau anghylchol mewn perthynas â'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru: | | |
| *Datblygu Uned Iechyd Meddwl Oedolion - Ysbyty Prifysgol Llandochau* | *-10,000* | |
| *Ailddatblygu Ysbyty Glan Clwyd* | *- 5,000* | |
| | | *-15,000* |
| | | |
| **Llinell Sylfaen ar gyfer 2016-17** | | **219,550** |
| | | |

### Tabl 7.2 Llywodraeth Leol

| | |
|---|---|
| **<u>DEL</u>** | **£000oedd** |
| **<u>Adnoddau</u>** | |
| **Cyllideb Atodol Gyntaf 2015-16** | **3,430,187** |
| | |
| **Addasiad i adlewyrchu ymrwymiad blaenorol** | |
| Ychwanegwch : codiad 2016-17 i Fenter Benthyca Llywodraeth Leol - Ysgolion yr 21ain Ganrif | *2,000* |
| | |
| **Llinell Sylfaen ar gyfer 2016-17** | **3,432,187** |
| | |
| | |
| **<u>Cyfalaf</u>** | |
| **Cyllideb Atodol Gyntaf 2015-16** | **22,920** |
| | |
| **Addasiadau i ddileu dyraniadau anghylchol o Gronfeydd Wrth Gefn** | |
| Didynnwch ddyraniadau anghylchol mewn perthynas â'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru: | 0 |
| | |
| **Llinell Sylfaen ar gyfer 2016-17** | **22,920** |
| | |

## Tabl 7.3 Cymunedau a Threchu Tlodi

| **DEL** | | **£000oedd** |
|---|---|---|
| **Adnoddau** | | |
| **Cyllideb Atodol Gyntaf 2015-16** | | **341,514** |
| | | |
| **Addasiad i ddileu trosglwyddiadau anghylchol i Gronfeydd Wrth Gefn neu oddi wrthynt** | | |
| Didynnwch : dyraniad anghylchol o Gronfeydd Wrth Gefn i gefnogi rhoi'r Bil Tai ar waith. | | *-4900* |
| | | |
| **Llinell Sylfaen ar gyfer 2016-17** | | **336,614** |
| | | |
| | | |
| **Cyfalaf** | | |
| **Cyllideb Atodol Gyntaf 2015-16** | | **395,420** |
| | | |
| **Addasiadau i ddileu dyraniadau anghylchol o Gronfeydd Wrth Gefn** | | |
| Didynnwch ddyraniadau anghylchol mewn perthynas â'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru: | | |
| *Cynllun Tir Tai Fforddiadwy* | *-12,000* | |
| *Dechrau'n Deg* | *- 2,000* | |
| *Rhaglen Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr* | *- 2,000* | |
| *Cynllun Rhannu Ecwiti Helpu i Brynu Cymru* | *-71,000* | |
| *Benthyciadau Gwella Cartrefi* | *- 3,000* | |
| *Troi Tai'n Gartrefi* | *-10,000* | |
| *Grant Tai Cymdeithasol* | *-15,000* | |
| *Cronfa Benthyciadau Canolfannau Trefi (peilot)* | *- 5,000* | |
| | | -120,000 |
| | | |
| **Llinell Sylfaen ar gyfer 2016-17** | | **275,420** |
| | | |

## Tabl 7.4 yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

| | | |
|---|---|---|
| **DEL** | | **£000oedd** |
| **Adnoddau** | | |
| **Cyllideb Atodol Gyntaf 2015-16** | | **628,474** |
| | | |
| **Addasiadau i ddileu trosglwyddiadau anghylchol i Gronfeydd Wrth Gefn neu oddi wrthynt** | | |
| Didynnwch: | | |
| Dyraniad i gefnogi Cynllun Rhyddhad Manwerthu Cymru 2015-16 | | *-15,000* |
| Dyraniad i gefnogi Cynllun Ardrethi Busnes Ardaloedd Menter yn 2015-16 | | *-1,500* |
| | | |
| **Addasiad mewn perthynas â'r Gronfa Buddsoddi i Arbed** | | |
| Ychwanegwch yn ôl : Ad-daliad net i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed yn cael ei adlewyrchu yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2015-16 | | *1,000* |
| | | |
| **Llinell Sylfaen ar gyfer 2016-17** | | **612,974** |
| | | |
| | | |
| **Cyfalaf** | | |
| **Cyllideb Atodol Gyntaf 2015-16** | | **486,200** |
| | | |
| **Addasiadau i ddileu dyraniadau anghylchol o Gronfeydd Wrth Gefn** | | |
| Didynnwch ddyraniadau anghylchol mewn perthynas â'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru: | | |
| *Deuoli'r A465 Blaenau'r Cymoedd – Adran 2* | *-40,000* | |
| *Gwelliannau Cadernid a Diogelwch Bywyd Twnelau'r A55* | *-12,000* | |
| *Datblygu Llwybrau Maes Awyr Caerdydd* | *- 3,000* | |
| *Ffordd Gyswllt y Bae'r Dwyrainl* | *-30,000* | |
| *Cynllun Ymestyn Rheilffordd a Gorsaf Tref Glynebwy* | *- 2,000* | |
| *Cronfeydd Buddsoddi Cyllid Cymru ar gyfer BBACh* | *-27,500* | |
| *Y Gronfa Gwyddorau Bywyd* | *-15,000* | |
| *Ailadeiladu, Diogelwch a Chadernid Lôn Gerbydau Twnelau Bryn-glas* | *-30,000* | |
| *Band Eang y Genhedlaeth Nesaf* | *-10,000* | |
| *Cynllun Trafnidiaeth Gogledd Cymru* | *-10,000* | |
| *Trafnidiaeth Integredig De Cymru* | *-29,800* | |
| *Llyfrgell Genedlaethol Cymru* | *- 200* | |
| *Cynllun Benthyca Cyfalaf ar gyfer Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden* | *- 5,000* | |
| | | *-214,500* |
| | | |
| **Llinell Sylfaen ar gyfer 2016-17** | | **271,700** |

### Tabl 7.5 Addysg a Sgiliau

| **DEL** | | **£000oedd** |
|---|---|---|
| **Adnoddau** | | |
| **Cyllideb Atodol Gyntaf 2015-16** | | **1,589,009** |
| | | |
| **Addasiad i ddileu trosglwyddiadau anghylchol i Gronfeydd Wrth Gefn neu oddi wrthynt** | | |
| Didynnwch: dyraniad un flwyddyn i gydnabod pwysau ar MEG Addysg a Sgiliau yn 2015-16 | | *-8,400* |
| | | |
| **Addasiad i adlewyrchu ymrwymiad blaenorol** | | |
| Didynnwch : Cynnydd yng nghyfraniad Addysg a Sgiliau i Fenter Benthyca Llywodraeth leol - Ysgolion yr 21ain Ganrif | | *-1,000* |
| | | |
| **Llinell Sylfaen ar gyfer 2016-17** | | **1,579,609** |
| | | |
| | | |
| **Cyfalaf** | | |
| **Cyllideb Atodol Gyntaf 2015-16** | | **173,834** |
| | | |
| **Addasiadau i ddileu dyraniadau anghylchol o Gronfeydd Wrth Gefn** | | |
| Didynnwch ddyraniadau anghylchol mewn perthynas â'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru: | | |
| *Ysgolion yr 21ain ganrif (Menter Benthyca Llywodraeth leol)* | *-30,000* | |
| | | *-30,000* |
| | | |
| **Llinell Sylfaen ar gyfer 2016-17** | | **143,834** |
| | | |

## Tabl 7.6 Cyfoeth Naturiol

| | | |
|---|---|---|
| **DEL** | | **£000oedd** |
| **Adnoddau** | | |
| **Cyllideb Atodol Gyntaf 2015-16** | | **288,558** |
| | | |
| **Addasiad i adlewyrchu newid Peirianwaith Llywodraethu** | | |
| Ychwanegwch : trosglwyddiad Llywodraeth y DU mewn perthynas â Chymdeithas Symud Gwartheg Prydain | | *1,512* |
| | | |
| **Addasiad mewn perthynas â'r Gronfa Buddsoddi i Arbed** | | |
| Ychwanegwch yn ôl: ad-daliad Net i'r Gronfa Buddsoddi i Arbed yn cael ei adlewyrchu yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2015-16 | | *4,013* |
| | | |
| **Llinell Sylfaen ar gyfer 2016-17** | | **294,083** |
| | | |
| | | |
| **Cyfalaf** | | |
| **Cyllideb Atodol Gyntaf 2015-16** | | **115,680** |
| | | |
| **Addasiadau i ddileu dyraniadau anghylchol o Gronfeydd Wrth Gefn** | | |
| Didynnwch ddyraniadau anghylchol mewn perthynas â'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru: | | |
| *Y Gronfa Twf Gwyrdd* | *- 5,000* | |
| *Arbed, Rhwymedigaeth y Cwmnïau Ynni (Eco)* | *-35,000* | |
| *Rhaglen Rheoli'r Perygl o Lifogydd a'r Perygl i'r Arfordir* | *-12,500* | |
| | | *-52,500* |
| | | |
| **Llinell Sylfaen ar gyfer 2016-17** | | **63,180** |
| | | |

## Tabl 7.7 Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

| **DEL** | **£000oedd** |
|---|---:|
| **Adnoddau** | |
| **Cyllideb Atodol Gyntaf 2015-16** | **311,477** |
| | |
| **Addasiad i ddileu trosglwyddiadau anghylchol i Gronfeydd Wrth Gefn neu oddi wrthynt** | |
| Didynnwch: Trosglwyddiad anghylchol o'r Weinyddiaeth Amddiffyn mewn perthynas â'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd | *-58* |
| | |
| **Addasiad mewn perthynas â'r Gronfa Buddsoddi i Arbed** | |
| Didynnwch : Cyllideb Buddsoddi i Arbed yn 2015-16 DS Mae gwerth y Gronfa'n amrywio ym mhob blwyddyn yn ôl yr ad-daliadau wedi'u proffilio o brosiectau blaenorol ac nid yw'n rhan o gyllideb graidd Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. | *-18,626* |
| | |
| **Llinell Sylfaen ar gyfer 2016-17** | **292,793** |
| | |
| | |
| **Cyfalaf** | |
| **Cyllideb Atodol Gyntaf 2015-16** | **11,435** |
| | |
| **Addasiadau i ddileu dyraniadau anghylchol o Gronfeydd Wrth Gefn** | |
| Didynnwch ddyraniadau anghylchol mewn perthynas â'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru: | |
| *Rhaglen Gwasanaethau e-Gaffael* *- 1,500* | |
| | *-1,500* |
| | |
| **Llinell Sylfaen ar gyfer 2016-17** | **9,935** |
| | |

## Atodiad D - Costau Deddfwriaeth yn 2016-17

| Prif Grŵp Gwariant | Teitl y Ddeddf neu'r Bil | | Teitl Cam Gweithredu y Gyllideb | Costau i Lywodraeth Cymru yn 2016-17<br><br>Cam Cyhoeddi Asesiad Effaith Rheoleiddiol neu Ddeddfu |
|---|---|---|---|---|
| | Bil wedi'i gyflwyno i'r Cynulliad ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gyhoeddi | Deddfau | | |
| **Iechyd a Gwasanaeth Cymdeithasol** | | Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 | Cyflenwi Gwasanaethau'r GIG wedi'u Targedu | £617,000 |
| **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol | £4.3m |
| **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | | Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 | Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd | £25,000 |
| **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) | | Hybu Gwella Iechyd a Gweithio Iach | £720,000 |
| **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) | | Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol | £1.471m |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Leol** | | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2013 | Cymorth Cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol | £2,500 |
| **Llywodraeth Leol** | | Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 | Cymorth Cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol | £125,000 |
| **Llywodraeth Leol** | | Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 | Gweithredu yn erbyn Cam-drin Domestig | £468,700 |
| **Cymunedau a Threchu Tlodi** | | Deddf Tai (Cymru) 2014 | Byw'n Annibynnol | £10,000 |
| | | | Atal Digartrefedd | £3.2m |
| | | | Cymunedau a Threchu Tlodi | £1.54m |
| | | | Sicrhau Tai o Ansawdd Uchel | £15,000 |
| | | | Cyllid Refeniw Tai | £15,000 |
| **Cymunedau a Threchu Tlodi** | Bil Rhentu Cartrefi (Cymru) | | Byw'n Annibynnol | £140,000 |
| **Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth** | Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) | | Gwarchod yr Amgylchedd Hanesyddol | £230,000 |
| **Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth** | | Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 | Darparu cyllid i awdurdodau lleol er mwyn cyflawni dyletswyddau mapio | £200,000 |
| **Addysg a Sgiliau** | | Deddf Cymwysterau Cymru 2015 | Cymwysterau | £8.169m |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Adnoddau Naturiol** | | Bil Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 | Gweithredu'r Ddeddf a sefydlu a gweithredu'r Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru | £163,000 |

### Atodiad E – Geirfa

| | |
|---|---|
| **Cam Gweithredu** | O fewn pob Maes Rhaglen Wariant, dyrennir cyllidebau i nifer o is-raglenni a elwir yn Gamau Gweithredu. Mae tablau sy'n dangos cyllidebau ar lefel y Camau Gweithredu ar gael yn: www.cymru.gov.uk/cyllideb |
| **Cwmpasoedd** | Disgrifiadau o'r dibenion penodol y mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wario adnoddau arnynt. Mae Disgrifiadau o'r Cwmpasoedd a'r terfynau o ran adnoddau wedi'u cynnwys yng Nghynnig y Gyllideb Flynyddol. Mae'r cwmpasoedd yn cyfateb i'r Prif Grwpiau Gwariant. |
| **Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)** | Gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, amlflwyddyn yn yr un ffordd â DEL, ac sydd felly'n cael ei adolygu ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Cyllideb ac Adroddiad Rhag-gyllidebol Trysorlys EM. Mae Gwariant a Reolir yn Flynyddol, fel rheol, yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn ansicr neu'n ymateb i'r galw, er enghraifft benthyciadau i fyfyrwyr. |
| **System Cyfnewid Cyllidebol** | Y system y gall Llywodraeth Cymru dynnu tanwariant ymlaen oddi tani, hyd at gap y cytunir arno. Y cap y cytunwyd arno yw 0.6% o'n cyllideb DEL Adnoddau ac 1.5% o'n cyllideb DEL Cyfalaf. |
| **Cynnig y Gyllideb** | Y dull a ddefnyddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i roi awdurdod i Weinidogion Cymru wario adnoddau hyd at lefel benodol ar ddibenion penodedig ac i dynnu arian parod hyd at derfyn penodol o Gronfa Gyfunol Cymru. |
| **Cyfalaf** | Gwariant sy'n arwain yn bennaf at ased ffisegol, er enghraifft adeilad newydd. Mae gan gyllidebau DEL a Gwariant a Reolir yn Flynyddol Llywodraeth Cymru derfynau gwahanol ar gyfer cyfalaf a refeniw. |
| **Terfyn Gwariant Adrannol (DEL)** | Terfyn y gyllideb amlflwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru a bennwyd gan Drysorlys EM. Caiff y DEL ei gynllunio a'i reoli ar sail tair blynedd mewn Adolygiadau o Wariant. |
| **Dibrisiant** | Y gostyngiad yng ngwerth ased yn sgil traul, oed a'r ffaith ei fod wedi darfod. O ran cyllidebu adnoddau, mae dibrisiant yn rhan o DEL Llywodraeth Cymru ond mae'n eitem DEL adnoddau anghyllidol. |
| **Costau Uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru** | Gwariant y mae'n ofynnol yn gyfreithiol gofyn i Gronfa Gyfunol Cymru ei dalu'n uniongyrchol ac felly nad yw'n sgorio yn erbyn cyllidebau Llywodraeth Cymru nac unrhyw gorff arall. Ymhlith y Costau Uniongyrchol mae cyflog y Llywydd a'r Archwilydd Cyffredinol. |

| | |
|---|---|
| **Trafodiadau Ariannol** | Nid yw trafodiadau ariannol yn grantiau cyfalaf traddodiadol, a dim ond at ddibenion benthyciadau ac ecwiti y gellir eu defnyddio. Hefyd mae'n rhaid ad-dalu cyfran o'r cyllid i'r Trysorlys. |
| **Adnoddau DEL Ariannol** (arferid cyfeirio atynt fel 'adnoddau sydd bron yn arian parod') | Mesurau croniadau sydd fel rheol yn troi'n ffrwd arian parod yn fuan, er enghraifft cyflog, caffael cyfredol, grantiau adnoddau a chymorthdaliadau. |
| **Prif Grŵp Gwariant (MEG)** | Caiff DEL Llywodraeth Cymru ei rannu'n nifer o Brif Grwpiau Gwariant. Ceir 7 Prif Grwpiau Gwariant ar hyn o bryd: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth; yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth; Addysg a Sgiliau; Cyfoeth Naturiol; a Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu. |
| **DEL Adnoddau Anghyllidol** (arferid cyfeirio atynt fel 'adnoddau nad ydynt yn arian parod') | Mesurau croniadau a gynhwysir mewn cyllidebau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu cost economaidd lawn gweithgareddau er nad oes cysylltiad uniongyrchol â ffrydiau arian parod yn y cyfnod dan sylw – er enghraifft, dibrisiant a darpariaethau. Ni ellir defnyddio DEL adnoddau anghyllidol i gyllido gwario DEL adnoddau cyllidol. |
| **Derbyniadau** | Mae rhai rhannau o weithgarwch Llywodraeth Cymru yn creu incwm, er enghraifft, drwy werthu neu rentu asedau. Caiff y rhain eu cynrychioli yn y gyllideb fel ffigurau negyddol. |
| **Cyllidebu adnoddau** | Mae cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'i phennu ar sail adnoddau sy'n deillio o wybodaeth am groniadau. Mae'r wybodaeth am groniadau yn mesur adnoddau wrth iddynt gael eu defnyddio yn hytrach na phan delir yr arian parod. Felly, er enghraifft, mae cyllideb adnoddau yn cynnwys ffi am ddibrisiant, ffordd o fesur yr asedau cyfalaf a ddefnyddiwyd neu a dreuliwyd. |
| **Adnoddau** (arferid cyfeirio atynt fel 'refeniw') | Gwariant cyfredol, er enghraifft arian i dalu cyflog gweithwyr y sector cyhoeddus ac i brynu nwyddau a gwasanaethau traul. |

| | |
|---|---|
| **Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau** | Methodoleg gynllunio yn seiliedig ar ganlyniadau yw Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau. Canolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na gweithgarwch yw ei fwriad. Defnyddir Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau yn aml i ddatblygu dangosyddion canlyniadau a mesurau perfformiad ar gyfer maes ac mae'n ceisio egluro strwythurau atebolrwydd. |
| **Maes Rhaglen Wariant (SPA)** | O fewn pob MEG, caiff cyllidebau eu dyrannu i Feysydd Rhaglenni Gwariant yn ôl y math o wasanaethau y byddant yn eu darparu. |
| **Adolygiad o Wariant** | Bob dwy neu dair blynedd mae Trysorlys ei Mawrhydi yn adolygu gwariant pob un o Adrannau Llywodraeth y DU ac yn pennu cyllidebau ar gyfer y tair blynedd ganlynol. Mae cyllidebau ar gyfer y gweinyddiaethau datganoledig yn deillio o'r cyllidebau hyn drwy gyfrwng Fformiwla Barnett. |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (TME)** | Cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol yn ogystal â'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol. |
| **Cronfa Gyfunol Cymru** | Y cyfrif sy'n derbyn yr arian sydd i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, yr Archwilydd Cyffredinol ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn unol â phleidlais Senedd y DU. |

# Cynigion ynghylch y Gyllideb Ddrafft 2016-17

***Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth***

***Rhagfyr 2015***

**Cynigion ynghylch y Gyllideb Ddrafft**

1. Bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 20.12, yn nodi'r gyllideb ddrafft ar gyfer y Llywodraeth a osodwyd ar 8 Rhagfyr, yn unol â Rheol Sefydlog 20.7.

Gweinidogion Cymru

2. Mae Gweinidogion Cymru'n cynnig

(a) defnyddio adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2017 ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1, hyd at uchafswm y symiau cyfatebol a nodir yng Ngholofn 2 o'r Atodlen honno;

(b) yn ogystal, cadw incwm, yn y categorïau adnoddau cronnus a nodir yng Ngholofn 1 o bob Rhan o Atodlen 2, yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2017, i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn y mannau cyfatebol yng Ngholofn 2 o bob Rhan o'r Atodlen honno, hyd at y terfyn a nodir ar gyfer pob Rhan o'r Atodlen honno; ac

(c) cymryd arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru i'w ddefnyddio ar y gwasanaethau a'r dibenion a nodir yn Atodlen 1, hyd at derfyn y gofyniad net am arian parod a nodir yn Atodlen 5.

3. Er gwaethaf paragraffau 2(a) a (b), caiff yr adnoddau y gellir eu defnyddio ar gyfer y gwasanaethau a'r dibenion a bennir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1 (neu, fel y bo'n briodol, yng Ngholofn 2 o bob Rhan o Atodlen 2), fod yn uwch na'r swm a bennir yn y cofnod cyfatebol yng Ngholofn 2 o Atodlen 1 (neu, fel y bo'n briodol, ym mhob rhan o Atodlen 2)-

(a) os bodlonir yr amod cyntaf, yn achos adnoddau heb gynnwys adnoddau cronnus, neu

(b) os bodlonir yr ail amod, yn achos adnoddau cronnus.

4. Yr amod cyntaf yw nad yw cyfanswm yr adnoddau (heb gynnwys adnoddau cronnus) a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2017 ar gyfer yr holl wasanaethau a dibenion a bennir yng Ngholofn 1 o Atodlen 1 yn uwch na chyfanswm y symiau a bennir yng Ngholofn 2 o'r Atodlen honno.

5. Yr ail amod yw nad yw cyfanswm yr adnoddau cronnus a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i ben 31 Mawrth 2017 ar gyfer yr holl wasanaethau a dibenion a bennir yng Ngholofn 2 o Atodlen 2 yn uwch na chyfanswm y symiau a bennir ar gyfer pob rhan o'r Atodlen honno.

6. Mae'r cynigion hyn ar gyfer y gyllideb ddrafft yn rhoi manylion y symiau o adnoddau ac arian parod y mae'r llywodraeth yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer 2016-17 yn unig.

Er gwybodaeth – Comisiwn y Cynulliad, yr Archwilydd Cyffredinol a'r Ombwdsmon

7. Mae'r gweithdrefnau cyllideb ar gyfer Comisiwn y Cynulliad, Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("y cyrff a ariennir yn uniongyrchol") yn cael eu rheoli gan Reolau Sefydlog 20.13 i 20.24. Caiff y cyllidebau ar gyfer cyrff a ariennir yn uniongyrchol eu cynnwys fel rhan o gynnig y gyllideb flynyddol a gyflwynwyd gan y Gweinidog Cyllid ar 1 Mawrth 2016 neu cyn hynny.

8. Mae symiau'r adnoddau (heblaw adnoddau cronnus) y mae'r cyrff a ariennir yn uniongyrchol yn cynnig eu defnyddio yn 2015-16 wedi eu cynnwys yn Atodlen 3; mae symiau'r adnoddau cronnus y mae'r cyrff hynny yn cynnig eu cadw a'u defnyddio ar wasanaethau a dibenion penodedig wedi eu cynnwys yn Atodlen 4; ac mae'r symiau o arian parod y cynigir eu dyrannu o Gronfa Gyfunol Cymru i'r cyrff a ariennir yn uniongyrchol wedi eu cynnwys yn Atodlen 5.

9. Nid yw'r symiau hyn yn rhan o Gyllideb Llywodraeth Cymru. Maent yn cael eu cynnwys yn Atodlenni 3, 4 a 5 er gwybodaeth ac at ddiben cysoni'r adnoddau a ddyrennir i gyllideb bloc Cymru, a'r amcangyfrif o'r swm o arian parod a delir i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru, â'r adnoddau a'r arian parod a fydd yn cael eu hawdurdodi i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru a'r cyrff a ariennir yn uniongyrchol. Gyda'i gilydd mae'n bosibl gweld cyfanswm Cyllideb ddrafft Cymru.

10. Mae'r symiau ar gyfer y cyrff a ariennir yn uniongyrchol yn deillio o'r ffynonellau canlynol:

(a) mae ffigurau Comisiwn y Cynulliad wedi'u cymryd o'r amcangyfrifon fel y'u gosodwyd gerbron y Cynulliad ar 25 Medi 2015.
(b) mae ffigurau Archwilydd Cyffredinol Cymru yn deillio o'r amcangyfrif ar gyfer yr Archwilydd Cyffredinol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cyllid ar 23 Hydref 2015.
(c) mae ffigurau'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'u cymryd o'r amcangyfrif a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cyllid i'w ystyried ar 22 Medi 2015.

## Crynodeb o'r Gofynion Adnoddau a Chyfalaf

***Gweinidogion Cymru***

| **Cwmpas** | **Adnoddau (£000)** | **Adnoddau Cronnus (£000)** |
|---|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 5,798,197 | 1,150,408 |
| Llywodraeth Leol | 3,386,344 | 300 |
| Cymunedau a Threchu Tlodi | 645,983 | 0 |
| Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | 950,198 | 80,659 |
| Addysg a Sgiliau | 2,076,914 | 170,947 |
| Cyfoeth Naturiol | 353,744 | 295,774 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 314,549 | 561,113 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau y Gofynnir Amdanynt a'r Incwm Cronnus mewn perthynas â Gweinidogion Cymru** | **13,525,929** | **2,259,201** |

***Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol***

| **Cwmpas** | **Adnoddau (£000)** | **Adnoddau Cronnus (£000)** |
|---|---|---|
| Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 55,938 | 400 |
| Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | 4,090 | 0 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | 6,928 | 16,715 |
| **Cyfanswm yr Adnoddau a'r Incwm Cronnus ar gyfer Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol** | **66,956** | **17,115** |

## Atodlen 1 – Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gan gynnwys hybu neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol.<br><br>Cyllid adnoddau a chyfalaf i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru a darparwyr gofal iechyd cysylltiedig; Cyfalaf Difidend Cyhoeddus i Ymddiriedolaethau'r GIG; benthyciadau i Ymddiriedolaethau'r GIG; taliadau am wasanaethau o dan gontract gan gynnwys gwasanaethau deintyddol, offthalmig a fferyllol; gwasanaethau meddygol cyffredinol; cymorth ar gyfer addysg a hyfforddiant; ymchwil a datblygu; gwasanaethau iechyd meddwl; triniaeth ar gyfer clefydau cronig; a mesurau i fynd i'r afael ag Anghydraddoldebau Iechyd; cyllid ar gyfer Cronfa Risg Cymru; cyllid i gefnogi plant a'u teuluoedd, gan gynnwys sefydliadau plant a theuluoedd ac eiriolaeth; Grantiau i gyflenwi'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau a chymorth i'r Asiantaeth Safonau Bwyd; cymorth i wasanaethau ar gyfer pobl hŷn ac i wasanaethau cymdeithasol a gofalwyr; gwella gwasanaethau cymdeithasol gan gynnwys ariannu Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru a'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE); i Gyngor Gofal Cymru; y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE); y Comisiynydd Pobl Hŷn; a chyfraniadau i gyrff iechyd a gofal cymdeithasol y DU.<br><br>Cyllid ar gyfer y Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS) Cymru; cyllid ar gyfer gwasanaethau a ddarperir i Lywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon a'r Adran Iechyd neu ar eu rhan; gwasanaethau ar gyfer gwella iechyd ac ar gyfer atal salwch, gwneud diagnosis ohono a'i drin; ac unrhyw wariant cysylltiedig, a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod. | **5,798,197** |

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Llywodraeth Leol**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ym meysydd llywodraeth leol a chyflenwi gwasanaeth cyhoeddus a hyrwyddo diogelwch cymunedol. Arian wedi'i neilltuo a heb ei neilltuo ar gyfer awdurdodau unedol llywodraeth leol; comisiynwyr yr heddlu a throseddu ac awdurdodau'r gwasanaeth tân ac achub, drwy gyllid grant heb ei neilltuo drwy gyfrwng grant cynnal refeniw, ardrethi annomestig cenedlaethol (NNDR) wedi'u hailddosbarthu a chyllid cyfalaf cyffredinol neu ddull ar wahân o ddarparu adnoddau a chyllid grant cyfalaf at ddiben polisi penodedig sy'n berthnasol i'r meysydd uchod o weithgarwch. Cyllido a noddi cyrff cyhoeddus a sefydliadau anstatudol sydd â swyddogaethau'n ymwneud ag archwilio, rheoleiddio ac arolygu; hyrwyddo a chynrychioli democratiaeth; datblygu perfformiad a rheoli newid; hybu a chynnal safonau ac atebolrwydd (gan gynnwys swyddogaethau llys apêl); darparu canlyniadau; a gwella perfformiad mewn perthynas â llywodraeth leol. Cyllid ar gyfer costau rhaglen, costau staffio a chostau gweinyddol cyffredinol (gan gynnwys costau prydlesu) yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, noddi Estyn gan gynnwys costau staff a gwariant gweinyddol cyffredinol a dibrisiant ac unrhyw wariant cysylltiedig, a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod. Ariannu Academi Wales, ariannu Partneriaethau Diogelwch Cymunedol mewn perthynas â diogelwch a datblygu cymunedol; gwaith i gefnogi'r lluoedd arfog, cyn-filwyr a'u teuluoedd; gwrthsefyll camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol; atal pobl ifanc rhag troseddu, a gwariant cysylltiedig, a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod; cymorth i Asiantaeth y Swyddfa Brisio. | **3,386,344** |

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Cymunedau a Threchu Tlodi**<br><br>I’w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar hyrwyddo a gwerthuso lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ym maes Cefnogi Cymunedau a Phobl gan gynnwys adfywio a datblygu cymunedau, ariannu cyrff y Trydydd Sector; mentrau Trechu Tlodi; cefnogi Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf; datblygu cymunedol; datblygu cyrff gwirfoddol a gwirfoddoli; cynhwysiant ariannol, gan gynnwys undebau credyd; cynhwysiant digidol; swyddfeydd post; gwiriadau’r Swyddfa Cofnodion Troseddol; ac ariannu a gweinyddu prosiectau diwygio lles.<br><br>Arian ar gyfer cymorth i blant a’u teuluoedd a’u gwerthuso, gan gynnwys arian ar gyfer Dechrau’n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Comisiynydd Plant<br>Cymru, strategaethau tlodi plant, gofal plant, chwarae, hawliau plant a phobl ifanc, cyfranogi, cyrff plant a theuluoedd, cymorth i awdurdodau lleol, y trydydd sector a’r sector preifat at ddibenion gofal plant a chymorth i ofal plant y tu allan i’r ysgol a gofal cofleidiol.<br><br>Arian ar gyfer cefnogi a hyrwyddo Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gan gynnwys materion sy’n ymwneud ag ariannu rhaglenni ar gyfer cydraddoldeb a chyfle cyfartal; ar gyfer gwella cyfiawnder cymdeithasol a chynhwysiant cymdeithasol a chydlyniant cymunedol; ac unrhyw wariant cysylltiedig.<br><br>Arian ar gyfer Tai ac Adfywio, gan gynnwys hybu neu wella diwylliant a lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol, rhoi cyllid, cyngor a chymorth gweinyddol i awdurdodau lleol, asiantaethau a chyrff eraill er mwyn hybu, hwyluso a darparu ystod o gynlluniau a gwasanaethau mewn perthynas â Thai ac Adfywio; gwella cyflenwad ac ansawdd y tai sydd ar gael ledled Cymru, gan gynnwys safon tai'r awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, a gwella’r gwasanaethau sy’n gysylltiedig â thai; caffael, lesio, datblygu a chynnal a chadw tir ac adeiladau; trosglwyddo stoc tai; cymorth ar gyfer modelau cymunedol cydfuddiannol ac er mwyn meithrin gallu; tai cymdeithasol; cymorth ar gyfer gwaith adfywio ffisegol gan gynnwys ardaloedd adnewyddu tai a thrwyddedu tai amlfeddiannaeth; cefnogi pobl; atal a mynd i’r afael â digartrefedd; darparu arian ar gyfer gwaith addasu a chyfleusterau er mwyn i bobl fedru aros yn eu cartrefi eu hunain; rheoleiddio ac arolygu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig; polisi adfywio a gweinyddu polisïau ac arian gan gynnwys hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i fusnesau, unigolion, cymunedau a lleoedd yng Nghymru; trosi a | **645,983** |

| | |
|---|---|
| gweithredu deddfwriaeth a rhwymedigaethau'r DU a deddfwriaeth a rhwymedigaethau Ewropeaidd a rhyngwladol; gweinyddu a chyflawni prosiectau a ariennir gan gronfeydd strwythurol y Comisiwn Ewropeaidd; cynnal ymchwiliadau, ymchwil a gwerthuso; hybu a chyhoeddusrwydd a gwasanaethau; ac unrhyw wariant cysylltiedig, a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod. | |

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth gan gynnwys hybu lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol ar gyfer busnesau, unigolion, cymunedau a lleoedd yng Nghymru.<br><br>Ar gyfer darparu arian adnoddau a chyfalaf i helpu sefydlu, twf, datblygiad a chynaliadwyedd busnes a thwristiaeth yng Nghymru.<br><br>Gwariant yn ymwneud â chefnogi diwylliant, chwaraeon, y cyfryngau, cyhoeddi, a'r amgylchedd hanesyddol a naturiol gan gynnwys arian i Amgueddfa Cymru; Llyfrgell Genedlaethol Cymru; Cyngor Celfyddydau Cymru; Grdd Fotaneg Genedlaethol Cymru; Chwaraeon Cymru a sefydliadau eraill sy'n hybu chwaraeon a ffyrdd egnïol o fyw ledled Cymru; Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru a sefydliadau eraill sy'n ceisio hybu ac ehangu mynediad i drysorau diwylliannol, adeiladau a lleoedd sydd o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol yng Nghymru; a'u gwarchod, eu diogelu, eu cynnal a'u cyflwyno, ac unrhyw wariant cysylltiedig arall a defnydd heb fod yn arian parod.<br><br>Cyllid adnoddau a chyfalaf ar gyfer trafnidiaeth a seilwaith ffyrdd, gan gynnwys adeiladu, gweithredu, cynnal a chadw a gwella cefnffyrdd yng Nghymru; darparu gwasanaethau teithio ar y rheilffyrdd a theithio awyr; diogelwch ar y ffyrdd; rheoleiddio croesfannau i gerddwyr a pharcio ar y stryd; ariannu a gweinyddu rhaglenni i awdurdodau lleol a chyrff eraill er mwyn darparu ystod o gynlluniau a gwasanaethau trafnidiaeth gan gynnwys tocynnau teithio rhatach; cymorth i hyrwyddo a datblygu cerdded a beicio; ac unrhyw wariant cysylltiedig arall, a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod sy'n rhoi budd economaidd ehangach i Gymru.<br><br>Ad-daliadau cyfalaf i'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol. | **950,198** |

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Addysg a Sgiliau**<br><br>I'w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Addysg a Sgiliau er mwyn ariannu: gwella llythrennedd a rhifedd; ymestyn hawliau a llwybrau dysgu 14-19; y Cyfnod Sylfaen; gwelliannau i'r cwricwlwm; cefnogaeth i Techniquest; hyfforddi, datblygu a chefnogi athrawon; datblygu a rheoleiddio cymwysterau; arian cyfalaf ac adnoddau i Gymwysterau Cymru, darpariaeth adnoddau ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16 gan gynnwys addysg bellach, prentisiaethau a dysgu seiliedig ar waith; arian cyfalaf ac adnoddau ar gyfer Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru; cefnogi addysg feddygol i israddedigion; gwella perfformiad ysgolion; ariannu arolygiadau; cymorth i godi safonau a gwella effeithiolrwydd ysgolion; y grant amddifadedd disgyblion; datblygu TG ym maes dysgu; cyfalaf i gefnogi'r seilwaith ysgolion a'r seilwaith ôl-16; datblygu sgiliau a dysgu yn y gweithle; gwasanaethau cyngor ar yrfaoedd; cefnogi'r Gwasanaeth Ieuenctid; cymorth i bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant; cynhwysiant ac anghenion dysgu ychwanegol, darparu llaeth mewn ysgolion; cyllid i ddysgwyr a myfyrwyr gan gynnwys costau'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr a'r Lwfansau Cynhaliaeth Addysg; trechu dadrithiad; dysgu dwyieithog; cymorth i Gomisiynydd y Gymraeg, a grantiau a phrosiectau sy'n hybu'r Gymraeg; cymorth i fentrau addysg ryngwladol; ymchwil addysgol a gwerthuso addysg; hybu addysg a sgiliau; eitemau cysylltiedig heb fod yn arian parod ac unrhyw wariant cysylltiedig, a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod. | **2,076,914** |

| Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus) | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Cyfoeth Naturiol**<br><br>I’w ddefnyddio gan Weinidogion Cymru ar Gyfoeth Naturiol, gan gynnwys hybu a gwella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol gan gynnwys yr amgylchedd ac ynni ac ynni adnewyddadwy; darparu arian, cyngor a chymorth gweinyddol i awdurdodau lleol; asiantaethau a chyrff eraill i hybu, hwyluso a chyflenwi ystod o gynlluniau a gwasanaethau mewn cysylltiad â Chyfoeth Naturiol, tirwedd a hamdden awyr agored; rhoi cyllid i gynorthwyo a noddi gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu rheoli, eu gwella a’u defnyddio yn sylweddol; hybu a chyflawni cynaliadwyedd, newid yn yr hinsawdd ac ansawdd yr amgylchedd; cynorthwyo a hybu cynhyrchu ynni drwy ddulliau carbon isel; effeithlonrwydd ynni, rheoli adnoddau dŵr mewn modd cynaliadwy a gwella ansawdd dŵr; darparu ac ariannu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth, atal llifogydd ac amddiffyn yr arfordir a mesurau rheoli risg; darparu cyllid a chymorth ar ffurf benthyciad a chyngor sy’n ymwneud â newid yn yr hinsawdd, effeithlonrwydd ynni, tlodi tanwydd, rheoli dŵr a rheoli risgiau llifogydd ac erydu arfordirol; darparu cyllid, iawndal, cymorth a chyngor sy’n ymwneud â rheoli gwastraff ac adnoddau mewn ffordd gynaliadwy; atal, gwaredu, casglu a rheoli gwastraff, cynlluniau ailgylchu, glanhau strydoedd a chredydau treth tirlenwi; rheoli ymbelydredd, llygredd amgylcheddol, ansawdd yr aer, ansawdd yr amgylchedd a llygredd sŵn; hybu bioamrywiaeth, rheoli adnoddau naturiol a gwasanaethau ecosystem; cadwraeth; iechyd anifeiliaid, planhigion a gwenyn; hadau, plaladdwyr a chnydau GM; iechyd y cyhoedd; mesurau i liniaru allyriadau nwyon tŷ gwydr o sector diwydiannau’r tir; gweinyddu polisïau a grantiau gan gynnwys hybu lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i fusnesau, unigolion, cymunedau a lleoedd yng Nghymru; trosi a gweithredu deddfwriaeth a rhwymedigaethau’r DU, Ewrop ac yn rhyngwladol; gweinyddu a chyflenwi prosiectau a ariennir gan gronfeydd strwythurol y Comisiwn Ewropeaidd; arian Ewropeaidd i gynorthwyo ffermwyr yng Nghymru, gan gynnwys Taliadau Uniongyrchol; gweinyddu arian Ewropeaidd i ffermwyr yng Nghymru; cynnal ymchwiliadau, ymchwil a gwerthuso; hyrwyddo, cyhoeddusrwydd a gwasanaethau; rhoi cymorth ariannol i gefnogi’r dirwedd a datblygu cyfleusterau ar gyfer hamdden agored a mannau gwyrdd a’u hyrwyddo; arian i’r Parciau Cenedlaethol; prosiectau sy’n ymwneud â Pharciau Cenedlaethol Cymru ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol; datblygu a monitro rheoliadau, deddfwriaeth, polisi, gweithdrefnau, cyngor technegol a safonau ym maes cynllunio ac adeiladu; comisiynu ymchwil, cyhoeddi adroddiadau a chanllawiau; penderfynu ar | **353,744** |

| | |
|---|---|
| apelau a gwaith achos arall, a noddi'r Arolygiaeth Gynllunio; rhoi cyllid a chymorth grant, gan gynnwys y Gronfa Ardoll Agregau; arian i gefnogi a hybu prosiectau a mentrau Cynllun Polisi Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru a gwariant siarter yn ymwneud ag Amaethyddiaeth, Datblygu Gwledig, gweithgareddau Pysgodfeydd a'r Môr, Lles ac Olrhain Anifeiliaid, Rheoli Tir a Choetiroedd; gweithgareddau goruchwylio clefydau ac unrhyw wariant cysylltiedig arall a defnydd heb fod yn arian parod. | |

| **Cwmpas gwariant Gweinidogion Cymru (ac eithrio adnoddau cronnus)** | |
|---|---|
| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
| **Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu**<br><br>I'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru ar wariant sy'n gysylltiedig â gweinyddu a chostau rhedeg gan gynnwys: costau a threuliau staff; costau rhedeg yr ystad sifil a buddsoddi ynddi; gwariant gweinyddol cyffredinol; gwariant ar TG a chyfathrebu; gwariant ar raglenni gwella busnes; gwariant adnoddau a chyfalaf gweinyddol arall; penodiadau cyhoeddus; galluogi a hybu llywodraeth agored; cefnogi gwaith ymchwil a gwerthuso; hybu lles economaidd, ffisegol, cymdeithasol neu amgylcheddol; rheoli digwyddiadau cyfathrebu corfforaethol mewnol, ynghyd â'r gwaith o gyfathrebu polisïau a chamau gweithredu'r Llywodraeth yn allanol; cyllid ar gyfer cysylltiadau rhynglywodraethol, gan gynnwys y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, ac ar gyfer datblygu cyfansoddiadol, gan gynnwys costau unrhyw refferendwm; cynnal digwyddiadau o bwys cenedlaethol; costau ymchwiliadau cyhoeddus; cost tribiwnlysoedd; cyllid i gyrff y sector cyhoeddus ar gyfer sicrhau arbedion effeithlonrwydd; ariannu Gwerth Cymru a cyfnewidcymru; taliadau i gefnogi datblygu tramor a chysylltiadau tramor; grantiau a chymorth ariannol i sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus; cefnogi prosiectau a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd; gweinyddu a chyflenwi prosiectau a ariennir gan gronfeydd strwythurol y Comisiwn Ewropeaidd; ac unrhyw wariant cysylltiedig, a defnydd o adnoddau heb fod yn arian parod. | **314,549** |

## Atodlen 2 – Defnydd o adnoddau cronnus gan Weinidogion Cymru

### Rhan 1: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y ceir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae adnoddau cronnus yn cynnwys incwm o dan y Cynllun Rheoleiddio Prisiau Fferyllol; incwm mewn perthynas â setliadau hawliadau cyfreithiol; tâl am lety, nwyddau a gwasanaethau i gleifion preifat, cleifion y GIG, awdurdodau lleol ac eraill; ad-daliadau cyllid Buddsoddi i Arbed gan Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru; incwm oddi wrth Lywodraeth yr Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, yr Adran Iechyd, adrannau llywodraeth eraill a'r Undeb Ewropeaidd; incwm o hysbysiadau cosb benodedig a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013: cynlluniau creu incwm; Incwm Yswiriant Gwladol gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi; incwm anweithredol drwy werthu tir, adeiladau, cerbydau, offer ac eiddo; ac adennill TAW; incwm o gynlluniau a chytundebau ad-daliadau. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys gwariant ar wasanaethau iechyd sylfaenol a chymunedol; gwariant gan Ymddiriedolaethau GIG Cymru, Byrddau Iechyd Lleol a darparwyr gofal iechyd cysylltiedig yn prynu neu'n caffael asedau sefydlog; cefnogaeth i ddarparu a gweinyddu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **1,150,408** |

**Rhan 2: Llywodraeth Leol**

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae’r adnoddau cronnus yn cynnwys arian grant oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd; ad-dalu ac adennill taliadau grant ac adennill TAW; ffioedd a thaliadau am gynnal arolygiadau a gwasanaethau rheoleiddio;<br>darparu digwyddiadau hyfforddi a datblygu; ad-dalu darparwyr hyfforddiant; taliadau am gofrestriadau deintyddol; incwm o secondiadau staff; ad-daliadau benthyciadau staff; incwm o rentu eiddo; iawndal o dan setliadau masnachol a sifil a chodi ffioedd hwyluso; incwm o werthiant asedau cyfalaf. | Mae’r gwasanaethau a’r dibenion yn cynnwys costau rhedeg, costau gweinyddu cyffredinol a gwariant adnoddau’r Arolygiaethau a’r Tribiwnlys Prisio; darparu ymyriadau hyfforddiant i Wasanaeth Cyhoeddus Cymru; gwariant ategol ar gymunedau mwy diogel ac adfywio; talu grantiau i awdurdodau lleol a chyrff y Trydydd Sector; pob prosiect sy’n cael arian Ewropeaidd; ac i gefnogi’r holl wariant sydd wedi’i nodi yn y Cwmpas gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **300** |

## Rhan 3: Cymunedau a Threchu Tlodi

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Adnoddau cronnus gan gynnwys ad-dalu ac adennill taliadau grant ac adennill TAW; ffioedd a chostau gwasanaethau arolygu a rheoleiddio; darparu digwyddiadau hyfforddi a datblygu; incwm o secondiadau staff; ad-dalu benthyciadau staff; incwm o werthu asedau cyfalaf; incwm a ddaw o ad-daliadau’r Grant Tai Cymdeithasol; adennill grantiau gan awdurdodau lleol, sefydliadau’r trydydd sector a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a phreifat; incwm rhenti; derbyniadau o werthu asedau, cyllid gan adrannau llywodraeth eraill ac adennill TAW; arian drwy gynlluniau cyllido Ewropeaidd a chynlluniau cyllido eraill; adennill grantiau neu setliadau mewn perthynas â thaliadau grant; grantiau ad hoc o ffynonellau eraill; ac adennill TAW. | Talu grantiau i awdurdodau lleol a chyff y Trydydd Sector; pob prosiect sy’n cael arian Ewropeaidd; gwariant, taliadau grant a chynlluniau Tai Cymdeithasol a gefnogir yn rhannol gan adrannau llywodraeth eraill; gwariant a chynlluniau tai’r farchnad; gwariant ar gynlluniau Adfywio; a phob prosiect a noddir gan Ewrop, ac i gefnogi'r holl wariant sydd wedi’i nodi yn y Cwmpas gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **0** |

**Rhan 4: Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Adnoddau cronnus ac arian naill ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y Comisiwn Ewropeaidd; rhentu eiddo ac incwm cysylltiedig arall; taliadau gwasanaethau busnes; cyfraniadau prosiect gan gyrff eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat; incwm o fuddsoddiadau; ad-daliadau grant a chyllid busnes ad-daladwy; incwm o werthu asedau cyfalaf; incwm yn gysylltiedig â gweithgarwch twristiaeth; derbyniadau o astudiaethau trafnidiaeth; iawndal o dan setliadau masnachol a sifil a chodi ffioedd hwyluso; incwm Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru o godi tâl mynediad ar eu safleoedd a gwariant gweithredol arall, ac adennill TAW. | Pob prosiect sy'n cael arian Ewropeaidd ac i gefnogi'r holl wariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **80,659** |

**Rhan 5: Addysg a Sgiliau**

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys incwm o brosiectau Ewropeaidd, ymchwil a gwerthuso a datblygu sgiliau busnes; breindaliadau cwricwlwm; adennill Benthyciadau Myfyrwyr; arian o gronfa Cyfalaf Ymchwil Addysg Uwch; gwerthu cyhoeddiadau ac adennill TAW. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys cefnogi prosiectau Ewropeaidd, CQFW, datblygu rhaglenni, datblygu sgiliau busnes, a gwariant cyfredol ar ymchwil a gwerthuso; cefnogi gwariant cyfredol ar y cwricwlwm a chefnogi pob gwariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **170,947** |

**Rhan 6: Cyfoeth Naturiol**

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys arian naill ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y Comisiwn Ewropeaidd; gan gynnwys incwm o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd; incwm oddi wrth yr UE i gynorthwyo ffermwyr a chymunedau gwledig yng Nghymru; incwm o brosiectau ffermydd gwynt; incwm o Fferm Pwllpeiran neu werthu asedau cyfalaf; incwm o adennill grant o'r awdurdodau lleol, cyrff y trydydd sector a chyrff eraill y sector preifat; dirwyon cosb sifil yn gysylltiedig â chynlluniau masnachu allyriadau; incwm o drwyddedau morol; incwm o achub carcasau o anifeiliaid sydd wedi'u lladd ar gyfer rheoli clefydau; grantiau ad hoc o ffynonellau eraill ac adennill TAW; derbyniadau o werthu asedau gan gynnwys adeiladau, arian o adrannau eraill y llywodraeth ganolog ac incwm sy'n gysylltiedig â Chyfoeth Naturiol. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys gwariant sy'n ymwneud â Fferm Pwllpeiran, taliadau grant, cynlluniau a ariennir yn rhannol gan adrannau eraill o'r llywodraeth; gwariant ar bob prosiect sy'n cael arian Ewropeaidd; ac i gefnogi pob gwariant sydd wedi'i nodi yn y Cwmpas gwariant. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **295,774** |

## Rhan 7: Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Mae'r adnoddau cronnus yn cynnwys incwm o secondio staff a ffioedd staff; ad-dalu benthyciadau staff; ad-dalu didyniadau statudol o dan PAYE; adennill TAW; gwerthu tir ac adeiladau; is-osod eiddo; gwerthu asedau gweinyddol; gwerthu nwyddau a gwasanaethau; incwm gweinyddol; incwm o wasanaethau TGCh a ddarperir; ad-daliadau darparwyr hyfforddiant; adennill y costau a rennir â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus; derbyniadau o grantiau adenilladwy gan gynnwys derbyniadau Buddsoddi i Arbed; a chyllid (boed uniongyrchol neu anuniongyrchol) oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd. | Mae'r gwasanaethau a'r dibenion yn cynnwys ariannu costau rhedeg a gwariant gweinyddol cyffredinol; cefnogi gwariant cyfalaf ar sylfaen ystadau ac asedau Llywodraeth Cymru; a phob prosiect sy'n cael arian Ewropeaidd. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **561,113** |

## Atodlen 3 – Gwariant Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol (heb gynnwys adnoddau cronnus)

### Rhan 1 – Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
|---|---|
| Adnoddau heblaw adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu Gwasanaethau'r Cynulliad i gefnogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru ('y Cynulliad'); hyrwyddo'r Cynulliad gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau i'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Cydnabyddiaethau Ariannol; unrhyw daliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Cynulliad neu swyddogaethau Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Adnoddau heblaw adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Cydnabyddiaethau Ariannol a gwariant yn ymwneud â darpariaeth pensiynau Aelodau'r Cynulliad. | **55,938** |

### Rhan 2 - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
|---|---|
| Adnoddau heblaw adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ('yr Ombwdsmon') ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu swyddfa'r Ombwdsmon; taliadau i gymdeithas Ombwdsmyn Prydain ac Iwerddon; taliadau i'r Sefydliad Ombwdsmyn Rhyngwladol; ac eitemau cysylltiedig nad ydynt yn arian parod. | **4,090** |

## Rhan 3 – Archwilydd Cyffredinol Cymru

| ***Colofn 1***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion* | ***Colofn 2***<br><br>*Swm £000* |
|---|---|
| Adnoddau heblaw adnoddau cronnus i'w defnyddio gan yr Archwilydd Cyffredinol ar gyflawni swyddogaethau statudol yr Archwilydd Cyffredinol ac archwilwyr sydd wedi'u penodi gan lywodraeth leol, ac ar weinyddu Swyddfa Archwilio Cymru. | **6,928** |

## Atodlen 4 – Defnydd o Adnoddau Cronnus gan Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol

### Rhan 1 – Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Adnoddau cronnus i'w cadw yn unol ag adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac i'w defnyddio gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, o werthu asedau sefydlog ac incwm cyfalaf arall; incwm rhenti; rhoddion; cymorth grant; ailgodi tâl; incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd ac eraill. | I'w defnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog ac i'w defnyddio i dalu costau gweinyddol y Cynulliad. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **400** |

### Rhan 2 – Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd ac eraill. | I'w defnyddio ar wasanaethau cysylltiedig ac ar weinyddu gwasanaeth yr Ombwdsmon. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **0** |

**Rhan 3 – Archwilydd Cyffredinol Cymru**

| ***Colofn 1***<br><br>*Categori adnoddau cronnus* | ***Colofn 2***<br><br>*Gwasanaethau a dibenion y gellir cadw'r incwm ar eu cyfer* |
|---|---|
| Adnoddau cronnus o ffioedd a thaliadau am wasanaethau archwilio a gwasanaethau cysylltiedig (heb gynnwys gwaith archwilio, asesu ac arolygu llywodraeth leol); adennill costau eraill sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol; amryfal incwm o gyhoeddiadau, cynadleddau, darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol a thechnegol; adennill costau staff wedi'u secondio; ad-daliadau benthyciadau i staff; adennill taliadau lesio ceir; a llog a dderbynnir ar ffioedd y fantolen waith. | I'w defnyddio gan yr Archwilydd Cyffredinol ar wasanaethau cysylltiedig a gweinyddu Swyddfa Archwilio Cymru. |
| **Cyfanswm yr incwm (£000)** | **16,715** |

## Atodlen 5: Cysoni Adnoddau ag Arian Parod 2016-17 (£000)

| | Gweinidogion Cymru | Comisiwn y Cynulliad | Ombwdsmon Gwasanaethau Cymru | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
|---|---|---|---|---|
| **Gofyniad Adnoddau Net** | 12,829,953 | 55,688 | 4,065 | 6,678 |
| **Gofyniad Cyfalaf Net** | 695,976 | 250 | 25 | 250 |
| Addasiadau: | | | | |
| Taliadau cyfalaf | -121,415 | -3,000 | -80 | -200 |
| Amhariadau | -56,427 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau yn y darpariaethau | -72,652 | -1,500 | 249 | 0 |
| Elw/Colled wrth werthu asedau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau mewn stociau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Symudiadau yn y dyledwyr/credydwyr | 0 | 600 | 20 | 0 |
| Defnyddio darpariaethau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arall | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Gofyniad Arian Parod Net i ddod o Gronfa Gyfunol Cymru** | **13,275,435** | **52,038** | **4,279** | **6,728** |

### Nodiadau:

1. Mae cynnwys a fformat y tabl hwn yn cydymffurfio â Rheol Sefydlog 20.7 sy’n datgan bod yn rhaid i’r gyllideb ddrafft nodi’r symiau o adnoddau ac arian parod y mae’r llywodraeth yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol.

2. Mae’r tablau canlynol a ddarperir yn Atodlenni 6 a 7 yno er gwybodaeth ac maent yn dilyn fformat cynnig y gyllideb flynyddol.

## Atodlen 6: Cysoni'r adnoddau y gofynnir amdanynt yn y cynnig am y gyllideb â'r adnoddau a ddarperir gan y Trysorlys ar gyfer Bloc Cymru ar gyfer 2016-17

| | 2016-17 (£000) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | DEL Refeniw | DEL Cyfalaf | AME Refeniw | AME Cyfalaf | Cyfanswm |
| *Adnoddau y gofynnir amdanynt yng nghynnig y gyllideb:* | | | | | |
| - Gweinidogion Cymru | 12,783,130 | 246,401 | 46,823 | 449,575 | 13,525,929 |
| - Comisiwn y Cynulliad | 54,188 | 250 | 1,500 | 0 | 55,938 |
| - Ombwdsmon | 4,314 | 25 | -249 | 0 | 4,090 |
| - Archwilydd Cyffredinol | 6,678 | 250 | 0 | 0 | 6,928 |
| **Cyfanswm yr adnoddau y gofynnir amdanynt yn y Gyllideb Ddrafft** | **12,848,310** | **246,926** | **48,074** | **449,575** | **13,592,885** |
| *Addasiadau:* | | | | | |
| (i) Defnydd adnoddau gan Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd Lleol | 176,840 | 0 | 77,313 | 0 | 254,153 |
| (ii) Grantiau | -901,698 | 901,698 | 0 | 0 | 0 |
| (iii) Benthyca â chymorth | 0 | 88,800 | 0 | 0 | 88,800 |
| (iv) Arall | 1,095,886 | 0 | 977,000 | 0 | 2,072,886 |
| **Cyfanswm yr addasiadau yn y Gyllideb Ddrafft** | **371,028** | **990,498** | **1,054,313** | **0** | **2,415,839** |
| - Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | 2,362 | 0 | 0 | 0 | 2,362 |
| - Swyddfa Cymru | 4,410 | 30 | 0 | 0 | 4,440 |
| - Cronfa wrth gefn heb ei chlustnodi | 430,888 | 293,747 | 0 | 0 | 724,635 |
| **Cyfanswm y Gwariant a Reolir (Bloc)** | **13,656,998** | **1,531,201** | **1,102,387** | **449,575** | **16,740,161** |

**Nodiadau:**

1. Mae cyfanswm gofyniad Llywodraeth Cymru am adnoddau yn gyfwerth â chyfanswm y dyraniadau a gynhwyswyd yn y Cwmpasau yn Atodlen 1.

2. Dywed Rheol Sefydlog 20.28 (ii) y dylai cynnig y gyllideb flynyddol gynnwys yr adnoddau y mae'r Trysorlys yn cytuno arnynt ar gyfer cyllideb bloc Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymdrin â hi. Mae Atodlen 6 yn bodloni'r gofyniad hwn.

3. Dywed Rheol Sefydlog 20.28 (iii) fod yn rhaid i gynnig y gyllideb flynyddol gynnwys cysoniad rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd i gyllideb bloc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau sydd i'w hawdurdodi i'w defnyddio yn y cynnig am y gyllideb. Mae Atodlen 6 yn bodloni'r gofyniad hwn.

4. Dyma'r taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru:

| **Eitem** | **2016-17**<br>**£000** |
|---|---|
| Taliadau i'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol | 1,655 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd | 259 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig yr Ombwdsmon | 197 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig yr Archwilydd Cyffredinol | 204 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru | 28 |
| Cyflogau a chostau pensiwn cysylltiedig y Comisiynydd Safonau | 19 |
| Incwm Ardrethi Annomestig Cenedlaethol | -977,000 |
| Ardrethi Annomestig Cenedlaethol sy'n Daladwy | 977,000 |
| **Cyfanswm** | **2,362** |

## Atodlen 7: Cysoni'r llif arian parod i Gronfa Gyfunol Cymru â'r arian parod y gofynnir amdano yn y cynnig am y gyllideb (£000)

| | 2016-17 |
|---|---|
| Amcangyfrif o'r symiau net i'w talu i Weinidogion Cymru: | |
| Grant i'w dalu gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru i Gronfa Gyfunol Cymru o dan Adran 118 (1) | 13,855,606 |
| Taliadau gan Adrannau Llywodraeth eraill | 1,081,564 |
| Taliadau o ffynonellau eraill | 2,154,637 |
| **Amcangyfrif o'r Symiau i'w Talu i Weinidogion Cymru** | **17,091,807** |
| Llai'r symiau a awdurdodwyd i'w cadw gan Weinidogion Cymru | -2,259,201 |
| Llai'r symiau i'w cadw yng Nghronfa Gyfunol Cymru | -977,000 |
| **Symiau Sydd ar Gael i'w Dyrannu o Gronfa Gyfunol Cymru** | **13,855,606** |
| Dosbarthwyd fel a ganlyn: | |
| - Gweinidogion Cymru | 13,275,435 |
| - Comisiwn y Cynulliad | 52,038 |
| - Ombwdsmon | 4,279 |
| - Archwilydd Cyffredinol | 6,728 |
| **Arian a Ryddheir o Gronfa Gyfunol Cymru yn y Cynnig** | **13,338,480** |
| *Plws:* | |
| Taliadau a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru | 2,362 |
| Cronfeydd heb eu clustnodi | 514,764 |
| **Amcangyfrif o Gyfanswm y Taliadau** | **13,855,606** |

**Nodiadau:**

1. Mae Adran 125(3) o'r Ddeddf yn datgan bod yn rhaid i gynnig y gyllideb flynyddol gael ei ategu gan ddatganiad ysgrifenedig gan y Gweinidogion, yn dangos:

    i. cyfanswm y taliadau y maent yn amcangyfrif a wneir ar gyfer y flwyddyn ariannol o dan Adran 118(1);
    ii. cyfanswm y taliadau y maent yn amcangyfrif a wneir i Weinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn ariannol gan Weinidogion y Goron ac adrannau'r llywodraeth; a
    iii. cyfanswm y taliadau y maent yn amcangyfrif a wneir i Weinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn ariannol heblaw gan Weinidogion y Goron neu adrannau'r llywodraeth.

2. Mae'r atodlen uchod yn dangos amrywiadau yn y symiau hyn fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 20.31

## PRIF GRŴPIAU GWARIANT Y GYLLIDEB DDRAFFT (MEG)

| Cydrannau o Gyllideb Cymru | | | £000s |
|---|---|---|---|
| **PRIF GRŴP GWARIANT** | **2016-17** | | |
| **Terfynau Gwariant Adrannol** | **Adnoddau** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| | | | |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 6,731,238 | 253,031 | 6,984,269 |
| Llywodraeth Leol | 3,344,403 | 22,920 | 3,367,323 |
| Cymunedau a Threchu Tlodi | 333,592 | 343,731 | 677,323 |
| Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | 587,633 | 351,114 | 938,747 |
| Addysg a Sgiliau | 1,580,810 | 165,768 | 1,746,578 |
| Cyfoeth Naturiol | 277,760 | 88,815 | 366,575 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 300,377 | 11,520 | 311,897 |
| | | | |
| **Cyfanswm Dyraniadau MEG Llywodraeth Cymru** | **13,155,813** | **1,236,899** | **14,392,712** |
| | | | |
| **PRIF GRŴP GWARIANT** | **2016-17** | | |
| **Gwariant a reolir yn flynyddol (1)** | **Adnoddau** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| | | | |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 135,400 | 0 | 135,400 |
| Llywodraeth Leol | 1,001,593 | 0 | 1,001,593 |
| Cymunedau a Threchu Tlodi | 0 | 0 | 0 |
| Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | 37,967 | 0 | 37,967 |
| Addysg a Sgiliau | -79,376 | 449,575 | 370,199 |
| Cyfoeth Naturiol | 2,900 | 0 | 2,900 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 2,652 | 0 | 2,652 |
| | | | |
| **Cyfanswm AME Llywodraeth Cymru** | **1,101,136** | **449,575** | **1,550,711** |
| | | | |
| **Cyfanswm Gwariant Llywodraeth Cymru a Reolir** | **14,256,949** | **1,686,474** | **15,943,423** |

(1) Nid yw Terfyn Gwariant Adrannol Llywodraeth Cymru yn cynnwys y cyllidebau hyn.  Eu diben yw ariannu eitemau yn ôl y galw ac nid ydynt felly yn cael eu pennu yn ôl disgresiwn Llywodraeth Cymru. Mae'r cyllidebau hyn yn adlewyrchu'r rhagolygon diweddaraf.

## IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL - PRIF GRŴP GWARIANT (MEG)

| | **CYLLIDEB ADNODDAU - Terfyn Gwariant Adrannol** | | | | **£000s** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Rhaglenni Gwariant** | **Gweithredu** | **2015-16 Llinell syflaen** | **Dyraniadau i Feysydd Blaenoriaethol** | **Newidiadau Cyllideb** | **2016-17 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| **Cyflenwi'r GIG** | Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd | 5,769,119 | 260,000 | -1,074 | 6,028,045 |
| | Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu | 249,110 | 0 | -14,075 | 235,035 |
| | **Cyfanswm Cyflenwi'r GIG** | **6,018,229** | **260,000** | **-15,149** | **6,263,080** |
| **Cyfanswm Cyllidebau Canolog Iechyd** | Cefnogi Addysg a Hyforddiant yng Ngweithlu'r GIG | 184,150 | 0 | -101 | 184,049 |
| | Cefnogi Polisiau a Deddfwriaeth Iechyd Meddwl | 18,411 | 0 | 0 | 18,411 |
| | Cymorth Hosbis | 1,619 | 0 | -363 | 1,256 |
| | Cyflawni Cyllun Gweithredu'r Strategaeth Camddefynddio Sylweddau | 26,975 | 0 | 0 | 26,975 |
| | **Cyfanswm Cyllidebau Canolog Iechyd** | **231,155** | **0** | **-464** | **230,691** |
| **Iechyd y Cyhoedd ac Atal Problemau** | Noddi Cyrff Iechyd Cyhoeddus | 85,694 | 0 | 784 | 86,478 |
| | Yr Asiantaeth Safonau Bwyd | 3,516 | 0 | 0 | 3,516 |
| | Cyflawni Gweithgareddau Diogelu Iechyd ac Imiwneiddio Pwrpasol | 4,421 | 0 | 0 | 4,421 |
| | Hybu Gwella Iechyd a Gweithio Iach | 5,187 | 0 | -450 | 4,737 |
| | Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau Iechyd a Datblygu Gweithio mewn Partneriaeth | 9,681 | 0 | 0 | 9,681 |
| | Trefniadau Effeithiol ar gyfer Parodrwydd am Argyfyngau Iechyd | 6,712 | 0 | 0 | 6,712 |
| | Datblygu a Gweithredu Ymchwil a Datblygu er budd Cleifion a'r Cyhoedd | 43,365 | 0 | 0 | 43,365 |
| | **Cyfanswm Iechyd y Cyhoedd ac Atal Problemau** | **158,576** | **0** | **334** | **158,910** |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol** | Awdurdodau Cymdeithasol i Blant | 6,648 | 0 | 0 | 6,648 |
| | Oedolion a Phobl Hŷn | 33,752 | 0 | 170 | 33,922 |
| | Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol | 16,321 | 0 | -75 | 16,246 |
| | Cyngor Gofal Cymru | 10,034 | 0 | 0 | 10,034 |
| | Comisiynydd Pobl Hŷn | 1,715 | 0 | -170 | 1,545 |
| | **Cyfanswm Gwasanethau Cymdeithasol** | **68,470** | **0** | **-75** | **68,395** |
| **CAFCASS Cymru** | Darparu Rhaglenni CAFCASS | 10,162 | 0 | 0 | 10,162 |
| | **Cyfanswm CAFCASS Cymru** | **10,162** | **0** | **0** | **10,162** |
| | | | | | |
| | **Cyfanswm Adnoddau - Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | **6,486,592** | **260,000** | **-15,354** | **6,731,238** |

| | CYLLIDEB CYFALAF - Terfyn Gwariant Adrannol | | | | £000s |
|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Rhaglenni Gwariant** | **Gweithredu** | **2015-16 Llinell syflaen** | **Dyraniadau i Feysydd Blaenoriaethol** | **Newidiadau Cyllideb** | **2016-17 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| **Cyflenwi'r GIG** | Cyflenwi'r GIG | 205,275 | 33,481 | 0 | 238,756 |
| | **Cyfanswm Cyflenwi'r GIG** | **205,275** | **33,481** | **0** | **238,756** |
| **Cyllidebau Canolog Iechyd** | Cyflawni Cyllun Gweithredu'r Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau | 5,072 | 0 | 0 | 5,072 |
| | **Cyfanswm Cyllidebau Canolog Iechyd** | **5,072** | **0** | **0** | **5,072** |
| **Iechyd y Cyhoedd ac Atal Problemau** | Trefniadau Effeithiol ar gyfer Parodrwydd am Argyfyngau iechyd | 4,492 | 0 | 0 | 4,492 |
| | **Cyfanswm Iechyd y Cyhoedd ac Atal Problemau** | **4,492** | **0** | **0** | **4,492** |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol** | Cyllid Cyfalaf Cyffredinol | 4,691 | 0 | 0 | 4,691 |
| | Cyngor Gofal Cymru | 20 | 0 | 0 | 20 |
| | **Cyfanswm Gwasanaethau Cymdeithasol** | **4,711** | **0** | **0** | **4,711** |
| | | | | | |
| | **Cyfanswm Cyfalaf - Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | **219,550** | **33,481** | **0** | **253,031** |

Page 91

| | CYLLIDEB ADNODDAU - Gwariant a reolir yn flynyddol | | | | £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Rhaglenni Gwariant** | **Gweithredu** | **2015-16 Llinell syflaen** | **Dyraniadau i Feysydd Blaenoriaethol** | **Newidiadau Cyllideb** | **2016-17 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| **Amhariadau'r GIG** | Amhariadau ac Adnoddau'r GIG | 135,400 | 0 | 0 | 135,400 |
| | **Cyfanswm Amhariadau'r GIG** | **135,400** | **0** | **0** | **135,400** |
| | | | | | |
| | **Cyfanswm AME - Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | **135,400** | **0** | **0** | **135,400** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **£000s** |
| | **Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - Crynodeb** | **2015-16 Llinell syflaen** | **Dyraniadau i Feysydd Blaenoriaethol** | **Newidiadau Cyllideb** | **2016-17 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| | | | | | |
| | DEL Adnoddau | 6,486,592 | 260,000 | -15,354 | 6,731,238 |
| | DEL Cyfalaf | 219,550 | 33,481 | 0 | 253,031 |
| | **Cyfanswm DEL** | **6,706,142** | **293,481** | **-15,354** | **6,984,269** |
| | | | | | |
| | **Cyfanswm Gwariant a reolir yn flynyddol** | **135,400** | **0** | **0** | **135,400** |
| | | | | | |
| | **Cyfanswm - Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | **6,841,542** | **293,481** | **-15,354** | **7,119,669** |

## LLYWODRAETH LEOL - PRIF GRŴP GWARIANT (MEG)

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **CYLLIDEB ADNODDAU - Terfyn Gwariant Adrannol** | | | | **£000s** |
| **Maes Rhaglenni Gwariant** | **Gweithredu** | **2015-16 Llinell syflaen** | **Dyraniadau i Feysydd Blaenoriaethol** | **Newidiadau Cyllideb** | **2016-17 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| **Cymorth Cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol** | Cymorth Cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol | 3,343,157 | 60,366 | -114,915 | 3,288,608 |
| | Gwasanaethau Prisio | 9,911 | 0 | -176 | 9,735 |
| | **Cyfanswm Cyllid Llywodraeth Leol** | **3,353,068** | **60,366** | **-115,091** | **3,298,343** |
| **Cymunedau Diogelach** | Gwasanaethau Tân ac Achub | 4,777 | 0 | 370 | 5,147 |
| | Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub | 1,030 | 0 | -1,030 | 0 |
| | Cam-drin Domestig | 4,100 | 0 | 400 | 4,500 |
| | Hybu ymgysylltiad cadarnhaol i bobl ifanc | 5,200 | 0 | -780 | 4,420 |
| | **Cyfanswm Cymunedau Diogelach** | **15,107** | **0** | **-1,040** | **14,067** |
| **Gwella Gwasanaethau, Cydweithredu a Democratiaeth** | Adeiladu Democratiaeth Leol | 821 | 0 | -123 | 698 |
| | Gwella Llywodraeth Leol | 32,641 | 0 | -32,181 | 460 |
| | Academi Wales | 0 | 0 | 1,109 | 1,109 |
| | Cefnogi Cydweithredu a Diwygio | 1,369 | 0 | -495 | 874 |
| | **Cyfanswm Gwella Gwasanaethau, Cydweithredu a Democratiaeth** | **34,831** | **0** | **-31,690** | **3,141** |
| **Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol** | Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol | 14,461 | 0 | -508 | 13,953 |
| | **Cyfanswm Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol** | **14,461** | **0** | **-508** | **13,953** |
| **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru** | Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | 3,056 | 0 | 530 | 3,586 |
| | **Cyfanswm Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru** | **3,056** | **0** | **530** | **3,586** |
| **Estyn** | Estyn | 11,664 | 0 | -351 | 11,313 |
| | **Cyfanswm Estyn** | **11,664** | **0** | **-351** | **11,313** |
| | | | | | |
| | **Cyfanswm Adnoddau - Llywodraeth Leol** | **3,432,187** | **60,366** | **-148,150** | **3,344,403** |

| | CYLLIDEB CYFALAF - Terfyn Gwariant Adrannol | | | | £000s |
|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Rhaglenni Gwariant** | **Gweithredu** | **2015-16 Llinell syflaen** | **Dyraniadau i Feysydd Blaenoriaethol** | **Newidiadau Cyllideb** | **2016-17 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| **Cyllid Llywodraeth Leol** | Cymorth Cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol | 20,000 | 0 | 0 | 20,000 |
| | **Cyfanswm Cyllid Llywodraeth Leol** | **20,000** | **0** | **0** | **20,000** |
| **Cymunedau Diogelach** | Gwasanaethau Tân ac Achub | 1,000 | 0 | 670 | 1,670 |
| | Fframwaith Cenedlaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub | 670 | 0 | -670 | 0 |
| | Cam-drin Domestig | 969 | 0 | 0 | 969 |
| | **Cyfanswm Cymunedau Diogelach** | **2,639** | **0** | **0** | **2,639** |
| **Estyn** | Estyn | 281 | 0 | 0 | 281 |
| | **Cyfanswn Estyn** | **281** | **0** | **0** | **281** |
| | | | | | |
| | **Cyfanswm Cyfalaf - Llywodraeth Leol** | **22,920** | **0** | **0** | **22,920** |

Page 94

| | CYLLIDEB ADNODDAU - Gwariant a reolir yn flynyddol | | | | £000s |
|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Rhaglenni Gwariant** | **Gweithredu** | **2015-16 Llinell syflaen** | **Dyraniadau i Feysydd Blaenoriaethol** | **Newidiadau Cyllideb** | **2016-17 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| **Cyllid Llywodraeth Leol** | Cymorth Cyllid ar gyfer Llywodraeth Leol | 1,001,593 | 0 | 0 | 1,001,593 |
| | **Cyfanswm Cyllid Llywodraeth Leol** | **1,001,593** | **0** | **0** | **1,001,593** |
| | | | | | |
| | **Cyfanswm Adnoddau - Llywodraeth Leol** | **1,001,593** | **0** | **0** | **1,001,593** |

| | | | | | £000s |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Llywodraeth Leol - Crynodeb** | **2015-16 Llinell syflaen** | **Dyraniadau i Feysydd Blaenoriaethol** | **Newidiadau Cyllideb** | **2016-17 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| | | | | | |
| | DEL Adnoddau | 3,432,187 | 60,366 | -148,150 | 3,344,403 |
| | DEL Cyfalaf | 22,920 | 0 | 0 | 22,920 |
| | **Cyfanswm DEL** | **3,455,107** | **60,366** | **-148,150** | **3,367,323** |
| | | | | | |
| | **Cyfanswm Gwariant a reolir yn flynyddol** | **1,001,593** | **0** | **0** | **1,001,593** |
| | | | | | |
| | **Cyfanswm - Llywodraeth Leol** | **4,456,700** | **60,366** | **-148,150** | **4,368,916** |

| CYMUNEDAU A THRECHU TLODI - PRIF GRŴP GWARIANT (MEG) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | £000s |
| **Maes Rhaglenni Gwariant** | **Gweithredu** | **2015-16 Llinell syflaen** | **Dyraniadau i Feysydd Blaenoriaethol** | **Newidiadau Cyllideb** | **2016-17 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| **Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd** | Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd | 125,384 | 300 | -1,246 | 124,438 |
| | **Cyfanswm Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd** | **125,384** | **300** | **-1,246** | **124,438** |
| **Cefnogi Cymunedau a Phobl** | Y Trydydd Sector | 6,805 | 0 | -680 | 6,125 |
| | Trechu Tlodi | 51,628 | 0 | -172 | 51,456 |
| | **Cyfanswm Cefnogi Cymunedau a Phobl** | **58,433** | **0** | **-852** | **57,581** |
| **Cydraddoldeb a Chynhwysiant** | Cydraddoldeb a Chynhwysiant | 2,016 | 0 | 0 | 2,016 |
| | **Cyfanswm Cydraddoldeb a Chynhwysiant** | **2,016** | **0** | **0** | **2,016** |
| **Polisi Tai** | Cefnogi Pobl | 124,488 | 0 | 0 | 124,488 |
| | Atal Digartrefedd | 6,431 | 0 | -524 | 5,907 |
| | Byw'n Annibynnol | 4,488 | 0 | 671 | 5,159 |
| | Datblygu a Gweithredu Polisi | 1,252 | 0 | -1,252 | 0 |
| | **Cyfanswm Polisi Tai** | **136,659** | **0** | **-1,105** | **135,554** |
| **Cartrefi a Lleoedd** | Sicrhau Tai o Ansawdd Uchel | 100 | 0 | -100 | 0 |
| | Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy | 4,195 | 0 | -95 | 4,100 |
| | Cyllid Refeniw Tai | 1,062 | 0 | 11 | 1,073 |
| | Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai'r Farchnad | 30 | 0 | -30 | 0 |
| | Adfywio | 8,735 | 0 | 95 | 8,830 |
| | **Cyfanswm Cartrefi a Lleoedd** | **14,122** | **0** | **-119** | **14,003** |
| | | | | | |
| | **Cyfanswm Adnoddau - Cymunedau a Threchu Tlodi** | **336,614** | **300** | **-3,322** | **333,592** |

Page 96

| | CYLLIDEB CYFALAF - Terfyn Gwariant Adrannol | | | | £000s |
|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Rhaglenni Gwariant** | **Gweithredu** | **2015-16 Llinell syflaen** | **Dyraniadau i Feysydd Blaenoriaethol** | **Newidiadau Cyllideb** | **2016-17 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| **Cymunedau a Threchu Tlodi** | Cymunedau a Threchu Tlodi | 12,450 | 3,500 | 0 | 15,950 |
| | **Cyfanswm Cymunedau a Threchu Tlodi** | **12,450** | **3,500** | **0** | **15,950** |
| **Polisi Tai** | Byw'n Annibynnol | 1,641 | 4,000 | 0 | 5,641 |
| | **Cyfanswm Polisi Tai** | **1,641** | **4,000** | **0** | **5,641** |
| **Cartrefi a Lleoedd** | Sicrhau Tai o Ansawdd Uchel | 153,499 | 0 | 0 | 153,499 |
| | Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai Fforddiadwy | 47,134 | 21,701 | 0 | 68,835 |
| | Cynyddu'r Cyflenwad a'r Dewis o Dai'r Farchnad | 0 | 26,310 | 0 | 26,310 |
| | Adfywio | 60,696 | 12,800 | 0 | 73,496 |
| | Rhaglen Eiddo Gwag | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | **Cyfanswm Cartrefi a Lleoedd** | **261,329** | **60,811** | **0** | **322,140** |
| | | | | | |
| | **Cyfanswm Cyfalaf - Cymunedau a Threchu Tlodi** | **275,420** | **68,311** | **0** | **343,731** |

Page 97

| | | | | | £000s |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Cymunedau a Threchu Tlodi - Crynodeb** | **2015-16 Llinell syflaen** | **Dyraniadau i Feysydd Blaenoriaethol** | **Newidiadau Cyllideb** | **2016-17 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| | | | | | |
| | DEL Adnoddau | 336,614 | 300 | -3,322 | 333,592 |
| | DEL Cyfalaf | 275,420 | 68,311 | 0 | 343,731 |
| | **Cyfanswm DEL** | **612,034** | **68,611** | **-3,322** | **677,323** |
| | | | | | |
| | **Cyfanswm Gwariant a reolir yn flynyddol** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | |
| | **Cyfanswm - Cymunedau a Threchu Tlodi** | **612,034** | **68,611** | **-3,322** | **677,323** |

## YR ECONOMI, GWYDDONIAETH A THRAFNIDIAETH - PRIF GRŴP GWARIANT (MEG)

| | CYLLIDEB ADNODDAU | | | | £000s |
|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Rhaglenni Gwariant** | **Gweithredu** | **2015-16 Llinell syflaen** | **Dyraniadau i Feysydd Blaenoriaethol** | **Newidiadau Cyllideb** | **2016-17 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| **Sectorau a Busnes** | SIF Etifeddol | 1,203 | 0 | 357 | 1,560 |
| | Sectorau | 37,692 | 0 | -6,378 | 31,314 |
| | Entrepreneuriaeth a Gwybodaeth Fusnes | 10,320 | 0 | -6,089 | 4,231 |
| | **Cyfanswm Sectorau a Busnes** | **49,215** | **0** | **-12,110** | **37,105** |
| **Gwyddoniaeth ac Arloesi** | Arloesi | 4,377 | 0 | 1,342 | 5,719 |
| | Gwyddoniaeth | 5,569 | 0 | -774 | 4,795 |
| | **Cyfanswm Gwyddoniaeth ac Arloesi** | **9,946** | **0** | **568** | **10,514** |
| **Digwyddiadau Mawr** | Digwyddiadau Mawr | 3,918 | 0 | 0 | 3,918 |
| | **Cyfanswm Digwyddiadau Mawr** | **3,918** | **0** | **0** | **3,918** |
| **Seilwaith** | Darparu Seilwaith TGCh | 8,286 | 0 | -1,495 | 6,791 |
| | Darparu Seilwaith TGCh - Adnoddau nad ydynt yn arian parod | 1,309 | 0 | 0 | 1,309 |
| | Darparu Seilwaith yn Gysylltiedig ag Eiddo | 10,076 | 0 | 12,753 | 22,829 |
| | Darparu Seilwaith yn Gysylltiedig ag Eiddo (Incwm) | 0 | 0 | -18,803 | -18,803 |
| | **Cyfanswm Seilwaith** | **19,671** | **0** | **-7,545** | **12,126** |
| **Rhaglenni Strategaeth a Corfforaethol** | Rhaglenni Corfforaethol | 3,033 | 0 | 533 | 3,566 |
| | Cyllid Cymru | 2,400 | 0 | -240 | 2,160 |
| | Rhaglenni Strategol | 551 | 0 | 0 | 551 |
| | **Cyfanswm Rhaglenni Strategaeth a Corfforaethol** | **5,984** | **0** | **293** | **6,277** |
| **Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd** | Gweithrediadau Traffyrdd a Chefnffyrdd | 57,789 | 0 | -6,000 | 51,789 |
| | Gwella a Chynnal y Rhwydwaith Cefnffyrdd (Ffyrdd Domestig) - Adnoddau nad ydynt yn Arian Parod | 108,691 | 0 | 0 | 108,691 |
| | **Cyfanswm Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd** | **166,480** | **0** | **-6,000** | **160,480** |
| **Gwasanaethau Rheilffyrdd ac Awyr** | Gwasanaethau Rheilffyrdd ac Awyr | 185,679 | 0 | 0 | 185,679 |
| | **Cyfanswm Gwasanaethau Rheilffyrdd ac Awyr** | **185,679** | **0** | **0** | **185,679** |
| **Teithio Cynaliadwy** | Teithio Cynaliadwy | 52,209 | 1,098 | 0 | 53,307 |
| | Tocynnau Teithio Rhatach i Bobl Ifanc | 5,000 | 4,750 | 0 | 9,750 |
| | **Cyfanswm Teithio Cynaliadwy** | **57,209** | **5,848** | **0** | **63,057** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd** | Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd | 4,764 | 0 | 0 | 4,764 |
| | **Cyfanswm Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd** | **4,764** | **0** | **0** | **4,764** |
| **Cefnogi a chynnal sector celfyddydau cryf trwy Gyngor y Celfyddydau ac eraill** | Cefnogi a chynnal sector celfyddydau cryf trwy'r Cyngor Celfyddydau ac eraill | 31,835 | 0 | -1,500 | 30,335 |
| | **Cyfanswm Cefnogi a chynnal sector celfyddydau cryf trwy Gyngor y Celfyddydau ac eraill** | **31,835** | **0** | **-1,500** | **30,335** |
| **Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd** | Mabwysiadu Defnyddio a Dysgu Gydol Oes trwy Wasanaethau Amgueddfeydd | 23,006 | 0 | -883 | 22,123 |
| | Mabwysiadu Defnyddio a Dysgu Gydol Oes trwy Wasanaethau Llyfrgelloedd | 10,971 | 0 | -460 | 10,511 |
| | Arweinyddiaeth Strategol ar gyfer gwasanaethau amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd | 2,193 | 0 | -439 | 1,754 |
| | **Cyfanswm Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd** | **36,170** | **0** | **-1,782** | **34,388** |
| **Darparu rhaglenni chwaraeon a gweithgarwch corfforol effeithiol** | Gweithredu rhaglenni chwaraeon a gweithgarwch corfforol effeithiol | 23,891 | 68 | -1,354 | 22,605 |
| | **Cyfanswm Darparu rhaglenni chwaraeon a gweithgarwch corfforol effeithiol** | **23,891** | **68** | **-1,354** | **22,605** |
| **Y Cyfryngau a Chyhoeddi** | Y Cyfryngau a Chyhoeddi | 3,526 | 0 | -374 | 3,152 |
| | **Cyfanswm Y Cyfryngau a Chyhoeddi** | **3,526** | **0** | **-374** | **3,152** |
| **Cadw, gwarchod, cynnal a hyrwyddo mynediad i'r amgylchedd hanesyddol a naturiol** | Cadw, gwarchod, cynnal a hyrwyddo mynediad i'r amgylchedd hanesyddol a naturiol | 14,686 | 0 | -1,453 | 13,233 |
| | **Cyfanswm Cadw, gwarchod, cynnal a hyrwyddo mynediad i'r amgylchedd hanesyddol a naturiol** | **14,686** | **0** | **-1,453** | **13,233** |
| | | | | | |
| | **Cyfanswm Adnoddau - Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth** | **612,974** | **5,916** | **-31,257** | **587,633** |

| | CYLLIDEB CYFALAF - Terfyn Gwariant Adrannol | | | | £000s |
|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Rhaglenni Gwariant** | **Gweithredu** | **2015-16 Llinell syflaen** | **Dyraniadau i Feysydd Blaenoriaethol** | **Newidiadau Cyllideb** | **2016-17 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| **Sectorau a Busnes** | SIF Etifeddol | 10,325 | 0 | -5,875 | 4,450 |
| | Sectorau | 35,808 | 32,000 | 21,269 | 89,077 |
| | **Cyfanswm Sectorau a Busnes** | **46,133** | **32,000** | **15,394** | **93,527** |
| **Gwyddoniaeth ac Arloesi** | Arloesi | 500 | 0 | 2,562 | 3,062 |
| | Gwyddoniaeth | 2,479 | 0 | 0 | 2,479 |
| | **Cyfanswm Gwyddoniaeth ac Arloesi** | **2,979** | **0** | **2,562** | **5,541** |
| **Seilwaith** | Darparu Seilwaith TGCh | 16,304 | 0 | 0 | 16,304 |
| | Darparu Seilwaith yn Gysylltiedig ag Eiddo | 2,152 | 0 | 6,445 | 8,597 |
| | Darparu Seilwaith yn Gysylltiedig ag Eiddo (Incwm) | 0 | 0 | -24,412 | -24,412 |
| | **Cyfanswm Seilwaith** | **18,456** | **0** | **-17,967** | **489** |
| **Strategaeth a Rhaglenni Corfforaethol** | Rhaglenni Corfforaethol | 79 | 0 | 11 | 90 |
| | **Cyfanswm Strategaeth a Rhaglenni Corfforaethol** | **79** | **0** | **11** | **90** |
| **Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd** | Gweithrediadau Traffyrdd a Chefnffyrdd | 50,550 | 20,050 | 0 | 70,600 |
| | **Cyfanswm Gweithrediadau Traffyrdd a Chefnffyrdd** | **50,550** | **20,050** | **0** | **70,600** |
| **Buddsoddi mewn Ffyrdd a Rheilffyrdd** | Cynlluniau Ffyrdd a Rheilffyrdd | 55,785 | 27,434 | 0 | 83,219 |
| | **Cyfanswm Buddsodi mewn Ffyrdd a Rheilffyrdd** | **55,785** | **27,434** | **0** | **83,219** |
| **Teithio Cynaliadwy** | Teithio Cynaliadwy | 67,447 | 0 | 0 | 67,447 |
| | **Cyfanswm Teithio Cynaliadwy** | **67,447** | **0** | **0** | **67,447** |
| **Gwella a Chynnal y Seilwaith Ffyrdd Lleol** | Cyllid Cyfalaf Cyffredinol - Ffyrdd | 13,667 | 0 | 0 | 13,667 |
| | **Cyfanswm Gwella a Chynnal y Seilwaith Ffyrdd Lleol** | **13,667** | **0** | **0** | **13,667** |
| **Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd** | Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd | 6,900 | 0 | 0 | 6,900 |
| | **Cyfanswm Gwella Diogelwch ar y Ffyrdd** | **6,900** | **0** | **0** | **6,900** |
| **Cefnogi a chynnal sector celfyddydau cryf trwy Gyngor y Celfyddydau ac eraill** | Cefnogi a chynnal sector celfyddydau cryf trwy'r Cyngor Celfyddydau ac eraill | 355 | 0 | 0 | 355 |
| | **Cyfanswm Cefnogi a chynnal sector celfyddydau cryf trwy'r Cyngor Celfyddydau ac eraill** | **355** | **0** | **0** | **355** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd** | Mabwysiadu Defnyddio a Dysgu Gydol Oes trwy Wasanaethau Amgueddfeydd | 2,138 | 0 | -583 | 1,555 |
| | Mabwysiadu Defnyddio a Dysgu Gydol Oes trwy Wasanaethau Llyfrgelloedd | 855 | 0 | -330 | 525 |
| | Arweinyddiaeth Strategol ar gyfer gwasanaethau amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd | 1,050 | 0 | 843 | 1,893 |
| | **Cyfanswm Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd** | **4,043** | **0** | **-70** | **3,973** |
| **Darparu rhaglenni chwaraeon a gweithgarwch corfforol effeithiol** | Gweithredu rhaglenni chwaraeon a gweithgarwch corfforol effeithiol | 345 | 0 | 0 | 345 |
| | **Cyfanswm Darparu rhaglenni chwaraeon a gweithgarwch corfforol effeithiol** | **345** | **0** | **0** | **345** |
| **Y Cryfryngau a Chydoeddi** | Y Cyfryngau a Chyhoeddi | 60 | 0 | 0 | 60 |
| | **Cyfanswm Y Cyfryngau a Chyhoeddi** | **60** | **0** | **0** | **60** |
| **Cadw, gwarchod, cynnal a hyrwyddo mynediad i'r amgylchedd hanesyddol a naturiol** | Cadw, gwarchod, cynnal a hyrwyddo mynediad i'r amgylchedd hanesyddol a naturiol | 4,901 | 0 | 0 | 4,901 |
| | **Cyfanswm Cadw, gwarchod, cynnal a hyrwyddo mynediad i'r amgylchedd hanesyddol a naturiol** | **4,901** | **0** | **0** | **4,901** |
| | | | | | |
| | **Cyfanswm Cyfalaf - Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth** | **271,700** | **79,484** | **-70** | **351,114** |

Page 101

| | **CYLLIDEB ADNODDAU - Gwariant a reolir yn flynyddol** | | | | **£000s** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Rhaglenni Gwariant** | **Gweithredu** | **2015-16 Llinell syflaen** | **Dyraniadau i Feysydd Blaenoriaethol** | **Newidiadau Cyllideb** | **2016-17 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| **Seilwaith** | Darparu Seilwaith yn Gysylltiedig ag Eiddo - Adnoddau nad ydynt yn Arian Parod | 20,000 | 0 | 0 | 20,000 |
| | **Cyfanswm Seilwaith** | **20,000** | **0** | **0** | **20,000** |
| **Gweithrediadau'r Rhwydwaith Traffyrdd a Chefnffyrdd** | Gweithrediadau Traffyrdd a Chefnffyrdd - Adnoddau nad ydynt yn Arian Parod | 14,954 | 0 | 0 | 14,954 |
| | **Cyfanswm Gweithrediadau Traffyrdd a Chefnffyrdd** | **14,954** | **0** | **0** | **14,954** |
| **Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd** | Pensiynau'r Amgueddfeydd a Llyfrgelloedd | 3,013 | 0 | 0 | 3,013 |
| | **Cyfanswm Amgueddfeydd a Llyfrgelloedd** | **3,013** | **0** | **0** | **3,013** |
| | | | | | |
| | **Cyfanswm AME - Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth** | **37,967** | **0** | **0** | **37,967** |

| | | | | | £000s |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth - Crynodeb** | **2015-16 Llinell syflaen** | **Dyraniadau i Feysydd Blaenoriaethol** | **Newidiadau Cyllideb** | **2016-17 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| | | | | | |
| | DEL Adnoddau | 612,974 | 5,916 | -31,257 | 587,633 |
| | DEL Cyfalaf | 271,700 | 79,484 | -70 | 351,114 |
| | **Cyfanswm DEL** | **884,674** | **85,400** | **-31,327** | **938,747** |
| | | | | | |
| | **Cyfanswm Gwariant a reolir yn flynyddol** | **37,967** | **0** | **0** | **37,967** |
| | | | | | |
| | **Cyfanswm - Yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth** | **922,641** | **85,400** | **-31,327** | **976,714** |

Page 103

| ADDYSG A SGILIAU - PRIF GRŴP GWARIANT (MEG) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | CYLLIDEB ADNODDAU - Terfyn Gwariant Adrannol | | | | £000s |
| **Maes Rhaglenni Gwariant** | **Gweithredu** | **2015-16 Llinell syflaen** | **Dyraniadau i Feysydd Blaenoriaethol** | **Newidiadau Cyllideb** | **2016-17 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| **Safonau Addysg a Hyfforddiant** | Llythrennedd a Rhifedd | 4,512 | 0 | -56 | 4,456 |
| | Cwricwlwm | 27,906 | 2,900 | 1,744 | 32,550 |
| | Addysgu ac Arweinyddiaeth | 15,956 | 0 | 5,265 | 21,221 |
| | Cymwysterau | 7,903 | 0 | 266 | 8,169 |
| | Addysg ôl - 16 | 507,551 | 5,000 | 0 | 512,551 |
| | Addysg Uwch | 129,160 | 0 | -41,377 | 87,783 |
| | Safonau Addysg | 144,123 | 0 | -6,594 | 137,529 |
| | Grant Amddifadedd Disgyblion | 82,046 | 7,200 | 0 | 89,246 |
| | TGCh a Systemau Rheoli Gwybodaeth | 6,935 | 0 | 0 | 6,935 |
| | **Cyfanswm Safonau Addysg a Hyfforddiant** | **926,092** | **15,100** | **-40,752** | **900,440** |
| **Gweithlu Medrus** | Cyflogaeth a Sgiliau | 23,890 | 0 | -1,042 | 22,848 |
| | Ymgyllstiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc | 15,813 | 0 | 1,401 | 17,214 |
| | Dewisiadau addysg a gyrfa | 20,000 | 0 | -2,000 | 18,000 |
| | **Cyfanswm Gweithlu Medrus** | **59,703** | **0** | **-1,641** | **58,062** |
| **Gwella Llesiant, Lleihau Anghydraddoldeb a Chynyddu Cyfranogiad** | Lles plant a phobl ifanc | 17,532 | 45 | -80 | 17,497 |
| | Cymorth i ddysgwyr ôl-16 | 544,674 | 10,000 | 20,299 | 574,973 |
| | Ennyn Diddordeb Disgyblion | 658 | 0 | 0 | 658 |
| | **Cyfanswm Gwella Llesiant, Lleihau Anghydraddoldeb a Chynyddu Cyfranogiad** | **562,864** | **10,045** | **20,219** | **593,128** |
| **Yr Iaith Gymraeg** | Y Gymraeg mewn Addysg | 18,599 | 0 | 82 | 18,681 |
| | Yr Iaith Gymraeg | 8,649 | 0 | -1,685 | 6,964 |
| | **Cyfanswm yr Iaith Gymraeg** | **27,248** | **0** | **-1,603** | **25,645** |
| **Cymorth Cyflawni** | Cymorth Cyflawni | 3,702 | 0 | -167 | 3,535 |
| | **Cyfanswm Cymorth Cyflawni** | **3,702** | **0** | **-167** | **3,535** |
| | | | | | |
| | **Cyfanswm Adnoddau - Addysg a Sgiliau** | **1,579,609** | **25,145** | **-23,944** | **1,580,810** |

| | CYLLIDEB CYFALAF - Terfyn Gwariant Adrannol | | | | £000s |
|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Rhaglenni Gwariant** | **Gweithredu** | **2015-16 Llinell syflaen** | **Dyraniadau i Feysydd Blaenoriaethol** | **Newidiadau Cyllideb** | **2016-17 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| **Safonau Addysg a Hyfforddiant** | Yr Ystad a'r Ddarpariaeth TG | 143,834 | 21,934 | 0 | 165,768 |
| | **Cyfanswm Safonau Addysg a Hyfforddiant** | **143,834** | **21,934** | **0** | **165,768** |
| | | | | | |
| | **Cyfanswm Cyfalaf - Addysg a Sgiliau** | **143,834** | **21,934** | **0** | **165,768** |

| | CYLLIDEB ADNODDAU - Gwariant a reolir yn flynyddol | | | | £000s |
|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Rhaglenni Gwariant** | **Gweithredu** | **2015-16 Llinell syflaen** | **Dyraniadau i Feysydd Blaenoriaethol** | **Newidiadau Cyllideb** | **2016-17 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| **Gwella Llesiant, Lleihau Anghydraddoldeb a Chynyddu Cyfranogiad** | Cymorth i ddysgwyr ôl-16 - Adnoddau | -85,376 | 0 | 0 | -85,376 |
| | **Cyfanswm Gwella Llesiant, Lleihau Anghydraddoldeb a Chynyddu Cyfranogiad** | **-85,376** | **0** | **0** | **-85,376** |
| **Gweithlu Medrus** | Dewisiadau addysg a gyrfa - Adnoddau | 6,000 | 0 | 0 | 6,000 |
| | **Cyfanswm Gweithlu Medrus** | **6,000** | **0** | **0** | **6,000** |
| | | | | | |
| | **Cyfanswm Adnoddau - Addysg a Sgiliau** | **-79,376** | **0** | **0** | **-79,376** |

Page 104

| | CYLLIDEB CYFALAF - Gwariant a Reolir yn Flynyddol | | | | £000s |
|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Rhaglenni Gwariant** | **Gweithredu** | **2015-16 Llinell syflaen** | **Dyraniadau i Feysydd Blaenoriaethol** | **Newidiadau Cyllideb** | **2016-17 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| **Gwella Llesiant, Lleihau Anghydraddoldeb a Chynyddu Cyfranogiad** | Cymorth i ddysgwyr ôl-16 - Cyfalaf | 449,575 | 0 | 0 | 449,575 |
| | **Cyfanswm Gwella Llesiant, Lleihau Anghydraddoldeb a Chynyddu Cyfranogiad** | **449,575** | **0** | **0** | **449,575** |
| | | | | | |
| | **Cyfanswm Cyfalaf - Addysg a Sgiliau** | **449,575** | **0** | **0** | **449,575** |

| | | | | | £000s |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Addysg a Sgiliau - Crynodeb** | **2015-16 Llinell syflaen** | **Dyraniadau i Feysydd Blaenoriaethol** | **Newidiadau Cyllideb** | **2016-17 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| | | | | | |
| | DEL Adnoddau | 1,579,609 | 25,145 | -23,944 | 1,580,810 |
| | DEL Cyfalaf | 143,834 | 21,934 | 0 | 165,768 |
| | **Cyfanswm DEL** | **1,723,443** | **47,079** | **-23,944** | **1,746,578** |
| | | | | | |
| | Gwariant a reolir yn flynyddol - Adnoddau | -79,376 | 0 | 0 | -79,376 |
| | Gwariant a reolir yn flynyddol - Cyfalaf | 449,575 | 0 | 0 | 449,575 |
| | **Cyfanswm Gwariant a reolir yn flynyddol** | **370,199** | **0** | **0** | **370,199** |
| | | | | | |
| | **Cyfanswm - Addysg a Sgiliau** | **2,093,642** | **47,079** | **-23,944** | **2,116,777** |

**CYFOETH NATURIOL - PRIF GRŴP GWARIANT (MEG)**

| | CYLLIDEB ADNODDAU - Terfyn Gwariant Adrannol | | | | £000s |
|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Rhaglenni Gwariant** | **Gweithredu** | **2015-16 Llinell syflaen** | **Dyraniadau i Feysydd Blaenoriaethol** | **Newidiadau Cyllideb** | **2016-17 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| **Amaethyddiaeth a Bwyd** | Datblygu a darparu polisi a rhaglenni cynhwysfawr mewn Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Môr | 4,935 | 0 | 108 | 5,043 |
| | Gweinyddu'r PAC a gwneud Taliadau yn unol â rheolau'r UE a Llywodraeth Cymru | 7,310 | 0 | 95 | 7,405 |
| | Daparu'r rhaglenni yn y Cynllun Datblygu Gwledig | 25,408 | 0 | -25,408 | 0 |
| | Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru: Darparu'r rhaglenni yng Nghynllun Datblygu Gwledig 2014-20 | 8,371 | 0 | 22,008 | 30,379 |
| | Datblygu ar sail tystiolaeth ar gyfer Materion Gwledig | 606 | 0 | -86 | 520 |
| | Datblygu a rheoli Môr, pysgodfeydd a dyframaethu gan gynwys gorfodi Pysgodfeydd Cymru | 1,959 | 0 | 110 | 2,069 |
| | Datblygu a marchnata bwyd a diod Cymru | 5,000 | 0 | -500 | 4,500 |
| | **Cyfanswm Amaethyddiaeth a Bwyd** | **53,589** | **0** | **-3,673** | **49,916** |
| **Gwarchod a Gwella Iechyd a Lles Anifeiliaid** | Cefnogi a Darparu'r rhaglen/strategeath iechyd a Lles Anifeiliaid | 600 | 0 | -50 | 550 |
| | Rheoli a darparu Dileu TB a Chlefydau Endemig eraill | 30,056 | 0 | -715 | 29,341 |
| | **Cyfanswm Gwarchod a Gwella Iechyd a Lles Anifeiliaid** | **30,656** | **0** | **-765** | **29,891** |
| **Y Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd** | Datblygu a gweithredu polisi a rhaglenni cyffredinol ar ddatblygu cynaliadwy a rheoli cyfoeth naturiol | 957 | 0 | 934 | 1,891 |
| | Datblygu a gweithredu polisi newid yn yr hinsawdd, effeithlonrwydd ynni, Twf Gwyrdd a Diogelu'r Amgylchedd | 10,685 | 0 | -1,825 | 8,860 |
| | Datblygu a gweithredu polisi a deddfwriaeth ynglŷn â'r perygl o lifogydd a'r perygl i'r arfordir, dŵr a charthion | 24,858 | 0 | -2,410 | 22,448 |
| | Hwyluso buddsoddiad mewn ynni a diwydiant glân a diogel | 718 | 0 | -718 | 0 |
| | Rheoli a Gweithredu'r Strategaeth Wastraff a'r rhaglen caffael gwastraff | 75,242 | 5,386 | -3,760 | 76,868 |
| | **Cyfanswm y Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd** | **112,460** | **5,386** | **-7,779** | **110,067** |
| **Yr Amgylchedd** | Darparu polisïau gwarchod natur a choedwigaeth | 3,443 | 0 | 3,827 | 7,270 |
| | Rheol a gweithredu gwelliant amgylcheddol | 5,136 | 0 | -5,136 | 0 |
| | Noddi a rheoli cyrff gweithredu | 70,915 | 0 | -6,880 | 64,035 |
| | **Cyfanswm yr Amgylchedd** | **79,494** | **0** | **-8,189** | **71,305** |

Page 106

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y Sylfaen Dystiolaeth** | Datblygu sylfaen dystiolaeth briodol er mwyn helpu gwaith yr Adran | 884 | 0 | -100 | 784 |
| | Gwarchod iechyd planhigion a datblygu polisïau addasu genetig | 52 | 0 | 0 | 52 |
| | **Cyfanswm Y Sylfaen Dystiolaeth** | **936** | **0** | **-100** | **836** |
| **Cynllunio** | Cynllunio a Rheoleiddio | 6,421 | 0 | -642 | 5,779 |
| | **Cyfanswm Cynllunio** | **6,421** | **0** | **-642** | **5,779** |
| **Tirwedd a Hamdden Awyr Agored** | Hyrwyddo a chefnogi tirweddau gwarchodedig, mynediad ehangach i fannau gwyrdd | 10,527 | 0 | -561 | 9,966 |
| | **Cyfanswm Tirwedd a Hamdden Awyr Agored** | **10,527** | **0** | **-561** | **9,966** |
| | | | | | |
| | **Cyfanswm Adnoddau - Cyfoeth Naturiol** | **294,083** | **5,386** | **-21,709** | **277,760** |

| | **CYLLIDEB CYFALAF - Terfyn Gwariant Adrannol** | | | | **£000s** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Rhaglenni Gwariant** | **Gweithredu** | **2015-16 Llinell syflaen** | **Dyraniadau i Feysydd Blaenoriaethol** | **Newidiadau Cyllideb** | **2016-17 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| **Amaethyddiaeth a Bwyd** | Datblygu a darparu polisi a rhaglenni cynhwysfawr mewn Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Môr | 890 | 0 | -330 | 560 |
| | Gweithredu'r rhaglenni yn y Cynllun Datblygu Gwledig | 7,242 | 0 | -7,242 | 0 |
| | Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru: Darparu'r rhaglenni yng Nghynllun Datblygu Gwledig 2014-20 | 3,481 | 0 | 7,242 | 10,723 |
| | Datblygu a rheoli Môr, pysgodfeydd a dyframaethu gan gynwys gorfodi Pysgodfeydd Cymru | 110 | 0 | 330 | 440 |
| | **Cyfanswm Amaethyddiaeth a Bwyd** | **11,723** | **0** | **0** | **11,723** |
| **Y Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd** | Datblygu a gweithredu polisi a rhaglenni cyffredinol ar ddatblygu cynaliadwy a rheoli cyfoeth naturiol | 12,000 | 0 | 0 | 12,000 |
| | Datblygu a gweithredu polisi newid yn yr hinsawdd, effeithlonrwydd ynni, Twf Gwyrdd a Diogelu'r Amgylchedd | 18,577 | 13,425 | 0 | 32,002 |
| | Datblygu a gweithredu polisi a deddfwriaeth ynglŷn â'r perygl o lifogydd a'r perygl i'r arfordir, dŵr a charthion | 13,372 | 10,210 | 0 | 23,582 |
| | Rheoli a Gweithredu'r Strategaeth Wastraff a'r rhaglen caffael gwastraff | 4,175 | 2,000 | 0 | 6,175 |
| | **Cyfanswm y Newid yn yr Hinsawdd a Chynaliadwyedd** | **48,124** | **25,635** | **0** | **73,759** |
| **Yr Amgylchedd** | Noddi a rheoli cyrff gweithredu | 795 | 0 | 900 | 1,695 |
| | **Cyfanswm yr Amgylchedd** | **795** | **0** | **900** | **1,695** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y Sylfaen Dystiolaeth** | Datblygu sylfaen dystiolaeth briodol er mwyn cefnogi gwaith yr Adran | 38 | 0 | 0 | 38 |
| | **Cyfanswm Y Sylfaen Dystiolaeth** | **38** | **0** | **0** | **38** |
| **Tirwedd a Hamdden Awyr Agored** | Hyrwyddo a chefnogi tirweddau gwarchodedig, mynediad ehangach i fannau gwyrdd | 2,500 | 0 | -900 | 1,600 |
| | **Cyfanswm Tirwedd a Hamdden Awyr Agored** | **2,500** | **0** | **-900** | **1,600** |
| | | | | | |
| | **Cyfanswm Cyfalaf - Cyfoeth Naturiol** | **63,180** | **25,635** | **0** | **88,815** |

| | **CYLLIDEB ADNODDAU - Gwariant a reolir yn flynyddol** | | | | **£000s** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Rhaglenni Gwariant** | **Gweithredu** | **2015-16<br>Llinell syflaen** | **Dyraniadau i Feysydd Blaenoriaethol** | **Newidiadau Cyllideb** | **2016-17<br>Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| **Yr Amgylchedd** | Noddi a rheoli cyrff gweithredu | 2,900 | 0 | 0 | 2,900 |
| | **Cyfanswm yr Amgylchedd** | **2,900** | **0** | **0** | **2,900** |
| | | | | | |
| | **Cyfanswm AME - Cyfoeth Naturiol** | **2,900** | **0** | **0** | **2,900** |



| | | | | | **£000s** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyfoeth Naturiol - Crynodeb** | **2015-16<br>Llinell syflaen** | **Dyraniadau i Feysydd Blaenoriaethol** | **Newidiadau Cyllideb** | **2016-17<br>Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| | | | | | |
| | DEL Adnoddau | 294,083 | 5,386 | -21,709 | 277,760 |
| | DEL Cyfalaf | 63,180 | 25,635 | 0 | 88,815 |
| | **Cyfanswm DEL** | **357,263** | **31,021** | **-21,709** | **366,575** |
| | | | | | |
| | **Cyfanswm Gwariant a reolir yn flynyddol** | **2,900** | **0** | **0** | **2,900** |
| | | | | | |
| | **Cyfanswm - Cyfoeth Naturiol** | **360,163** | | **-21,709** | **369,475** |

Page 109

| GWASANAETHAU CANOLOG A GWEINYDDU - PRIF GRŴP GWARIANT (MEG) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | CYLLIDEB ADNODDAU - Terfyn Gwariant Adrannol | | | | £000s |
| **Maes Rhaglenni Gwariant** | **Gweithredu** | **2015-16 Llinell syflaen** | **Dyraniadau i Feysydd Blaenoriaethol** | **Newidiadau Cyllideb** | **2016-17 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| **Costau Rhedeg Dirprwyedig** | Costau Staff | 202,891 | 0 | -938 | 201,953 |
| | **Cyfanswm Costau Rhedeg Dirprwyedig** | **202,891** | **0** | **-938** | **201,953** |
| **Costau Rhedeg Canolog** | Gwariant Gweinyddol Cyffredinol | 29,762 | 0 | -5,016 | 24,746 |
| | Taliadau Cyfalaf | 16,000 | 0 | 0 | 16,000 |
| | Costau Technoleg Gwybodaeth (Adnoddau) | 17,947 | 0 | 198 | 18,145 |
| | Gwella Busnes | 7,066 | 0 | -2,900 | 4,166 |
| | **Cyfanswm Costau Rhedeg Canalog** | **70,775** | **0** | **-7,718** | **63,057** |
| **Gwasanaethau Gwybodaeth a Chymorth** | Tribiwnlysoedd | 2,449 | 0 | 542 | 2,991 |
| | Gwella Ystadegau Economaidd a'r Farchnad Lafur | 1,079 | 0 | -62 | 1,017 |
| | Digwyddiadau a Chyfathrebu Corfforaethol | 458 | 0 | -48 | 410 |
| | Gwybodaeth Ddaearyddol | 577 | 0 | -166 | 411 |
| | Ymchwil Ganolog | 1,498 | 0 | 398 | 1,896 |
| | Buddsoddi Cyfalaf Strategol | 414 | 0 | -414 | 0 |
| | Ymchwil Economaidd | 125 | 0 | -75 | 50 |
| | Y Sefydliad Polisi Cyhoeddus | 445 | 0 | -43 | 402 |
| | Academi Wales | 1,015 | 0 | -1,015 | 0 |
| | Gwerth Cymru | 318 | 0 | -34 | 284 |
| | Gwasanaeth e-gaffael | 3,146 | 0 | -333 | 2,813 |
| | **Cyfanswm Gwasanaethau Gwybodaeth a Chymorth** | **11,524** | **0** | **-1,250** | **10,274** |
| **Rhaglenni Canolog** | Datblygu Rhyngwladol | 845 | 0 | 15 | 860 |
| | Cysylltiadau Rhyngwladol | 3,154 | 0 | 250 | 3,404 |
| | Y Gronfa Buddsoddi I Arbed | 0 | 0 | -1,344 | -1,344 |
| | Y Gronfa Buddsoddi I Arbed - Ad-dalu Buddsoddiadau | 0 | 0 | 18,791 | 18,791 |
| | Arian Cyfatebol | 2,097 | 0 | -222 | 1,875 |
| | **Cyfanswm Rhaglenni Canolog** | **6,096** | **0** | **17,490** | **23,586** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **WEFO** | Rheoli'r Gwaith o Weithredu Rhaglenni Cronfyedd Strwythurol yng Nghymru | 1,507 | 0 | 0 | 1,507 |
| | **Cyfanswm WEFO** | **1,507** | **0** | **0** | **1,507** |
| | | | | | |
| | **Cyfanswm Adnoddau - Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu** | **292,793** | **0** | **7,584** | **300,377** |

| | **CYLLIDEB CYFALAF - Terfyn Gwariant Adrannol** | | | | **£000s** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Rhaglenni Gwariant** | **Gweithredu** | **2015-16 Llinell syflaen** | **Dyraniadau i Feysydd Blaenoriaethol** | **Newidiadau Cyllideb** | **2016-17 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| **Costau Rhedeg Canolog** | Cyfalaf | 4,000 | 1,515 | 5,935 | 11,450 |
| | Gwella Busnes | 2,735 | 0 | -2,735 | 0 |
| | Costau Technoleg Gwybodaeth (Cyfalaf) | 3,200 | 0 | -3,200 | 0 |
| | **Cyfanswm Costau Rhedeg Canolog** | **9,935** | **1,515** | **0** | **11,450** |
| **Rhaglenni Canolog** | Y Gronfa Buddsoddi I Arbed | 2,631 | 0 | -18 | 2,613 |
| | Y Gronfa Buddsoddi I Arbed - Ad-dalu Buddsoddiadau | -2,631 | 0 | 88 | -2,543 |
| | **Cyfanswm Rhaglenni Canolog** | **0** | **0** | **70** | **70** |
| | | | | | |
| | **Cyfanswm Cyfalaf - Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu** | **9,935** | **1,515** | **70** | **11,520** |

Page 110

| | **CYLLIDEB ADNODDAU - Gwariant a reolir yn flynyddol** | | | | **£000s** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Rhaglenni Gwariant** | **Gweithredu** | **2015-16 Llinell syflaen** | **Dyraniadau i Feysydd Blaenoriaethol** | **Newidiadau Cyllideb** | **2016-17 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| **Costau Rhedeg Canolog** | Darpariaethau ar gyfer Ymddeoliadau Cynnar | 2,652 | 0 | 0 | 2,652 |
| | **Cyfanswm Costau Rhedeg Canolog** | **2,652** | **0** | **0** | **2,652** |
| **WEFO** | Enillion a Cholledion y Gyfradd Gyfnewid | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | **Cyfanswm WEFO** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | |
| | **Cyfanswm AME - Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu** | **2,652** | **0** | **0** | **2,652** |

| | | | | | £000s |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu - Crynodeb** | **2015-16 Llinell syflaen** | **Dyraniadau i Feysydd Blaenoriaethol** | **Newidiadau Cyllideb** | **2016-17 Cynlluniau Newydd y Gyllideb Ddrafft** |
| | | | | | |
| | DEL Adnoddau | 292,793 | 0 | 7,584 | 300,377 |
| | DEL Cyfalaf | 9,935 | 1,515 | 70 | 11,520 |
| | **Cyfanswm DEL** | **302,728** | **1,515** | **7,654** | **311,897** |
| | | | | | |
| | **Cyfanswm Gwariant a reolir yn flynyddol** | **2,652** | **0** | **0** | **2,652** |
| | | | | | |
| | **Cyfanswm - Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu** | **305,380** | **1,515** | **7,654** | **314,549** |

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# Cyllideb Ddrafft
# Llywodraeth Cymru 2016–2017

## Asesiad Effaith Integredig Strategol



Rhagfyr 2015



OGL © Hawlfraint y Goron 2015 WG27329 ISBN digidol 978 1 4734 5344 9

## Rhagair y Gweinidogion

Rydym yn falch o gyd-gyflwyno asesiad effaith integredig strategol Llywodraeth Cymru o Gyllideb Ddrafft 2016-17.

Mae’r Gyllideb Ddrafft hon yn adlewyrchu’n blaenoriaethau, ond wedi’i heffeithio gan benderfyniadau Llywodraeth y DU. Mae Cyllideb Cymru £1.4 biliwn yn is heddiw na'r hyn oedd yn 2010-11 gyda’r setliad yn parhau i leihau mewn termau real o 3.6 y cant rhwng 2015-16 a 2019-20. Roeddem yn gwybod y byddai'n cyllideb yn llai mewn termau real, ond nid faint yn llai. Yr hyn oeddem yn ei wybod, fodd bynnag, oedd nad yw'r galwadau na'r pwysau ar wasanaethau'n lleihau mewn ymateb i gyni.

Yn y cyd-destun hwn, rydym wedi canolbwyntio ar alinio adnoddau gyda’n blaenoriaethau, ac rydym wedi mynd ati i wneud ein penderfyniadau gan sicrhau nad yw ymatebion tymor byr yn cael effeithiau negyddol yn y tymor hir. Wrth baratoi ar gyfer cyfyngiadau ariannol yn y dyfodol, rydym wedi ceisio targedu buddsoddiad mewn canlyniadau cynaliadwy drwy ddiogelu'r gwasanaethau cyhoeddus sy’n fanteisiol i bawb, yn arbennig y rhai y mae pobl â nodweddion gwarchodedig yn dibynnu arnynt. Rydym wedi gwneud hyn drwy ganolbwyntio’n cynlluniau gwario ar ein prif flaenoriaethau sef: iechyd a gwasanaethau iechyd; twf a swyddi; cyrhaeddiad addysgol; a chefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig. Drwy roi pwyslais ar dystiolaeth a gwerthuso, rydym wedi adlewyrchu anghenion nodweddion gwarchodedig yn ein cynlluniau gwario.

Yn unol â’n hymrwymiad i roi Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) ar waith a’n hymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu i sicrhau cynaliadwyedd a thegwch, gyda datblygu cynaliadwy fel egwyddor ganolog, rydym wedi parhau i wella’n dull o asesu effeithiau mewn ffordd integredig. Mae'n Cynlluniau Gwario ar gyfer 2016-17 a'r Datganiad o Effeithiau Strategol hwn yn parhau i adlewyrchu'r pwyslais rydyn ni'n ei roi ar anfantais economaidd-gymdeithasol, hawliau plant, y Gymraeg, cydraddoldeb a datblygu cynaliadwy, yn unol â'r hyn sydd i'w weld bellach yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'n penderfyniadau hefyd wedi'u seilio ar ein hymrwymiad i drechu tlodi ac ysgogi newid pwyslais i wario ar atal problemau ac ymyrryd yn gynnar.

Fodd bynnag, ni ellir asesu’r camau cadarnhaol a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i ystyried effaith ein penderfyniadau gwario ar bobl mewn grwpiau gwarchodedig fel mater ar wahân i effaith diwygiadau treth a lles Llywodraeth y DU. Rydym yn gwybod bod cannoedd o filiynau o bunnoedd yn cael eu rhwygo o'n cymunedau mwyaf difreintiedig gan wneud bywyd yn anodd tu hwnt i deuluoedd. Rydym yn gyson wedi ceisio lliniaru'r effeithiau andwyol ar deuluoedd, gan ddefnyddio pob dull sydd ar gael gennym.

Gan adlewyrchu’r pwyslais ar gydweithredu sydd wedi’i ymgorffori yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rydym yn gwybod nad oes modd i ni wynebu'r heriau hyn ar ein pen ein hunain. Ar Daith y Gyllideb y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, cafwyd cyfle i glywed am brofiadau

uniongyrchol ein partneriaid yn yr Awdurdodau Lleol, ym meysydd iechyd a thai ac yn y Trydydd Sector, ynghyd â phrofiadau'r rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau, er mwyn dysgu beth sy'n llwyddo a ble mae cyfle i integreiddio gwasanaethau ymhellach a sicrhau mwy o gydweithio rhwng y rhai sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cynaliadwy.

Hoffem ddiolch yn arbennig i Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb am eu gwaith parhaus. Mae'n gyfraniad gwerthfawr i'r sylfaen o dystiolaeth ac yn rhoi gwell dealltwriaeth i ni am natur anghydraddoldeb yng Nghymru, sy’n ein harwain wrth i ni wneud penderfyniadau.

**Jane Hutt AC**
**Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth**

**Lesley Griffiths AC**
**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**

## Tudalen Cynnwys

1. Cyflwyniad

2. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

3. Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb

4. Dull Gweithredu y Gyllideb Ddrafft a'r Asesiad Effaith Integredig Strategol 2016-17

5. Penderfyniadau Strategol

6. Meysydd Blaenoriaeth

   - Iechyd a Gwasanaethau Iechyd
   - Cyrhaeddiad Addysgol
   - Cefnogi Plant, Teuluoedd a Chymunedau Difreintiedig
   - Twf a Swyddi

7. Effeithiau Diwygiadau Lles y Deyrnas Unedig

## 1. Cyflwyniad

**1.1.** Mae'r rhagolygon ar gyfer cyllid cyhoeddus, o ganlyniad i Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU, yn parhau i fod yn heriol. Mae asesiad cychwynnol o bwysau a thueddiadau mewn perthynas â gwasanaethau allweddol wedi dangos bod angen gwario £1bn yn fwy dros y tair blynedd nesaf. Fodd bynnag, bydd ein cyllideb ychydig llai na £400m yn uwch o ran refeniw a £200m o ran cyfalaf erbyn 2019-20. Mae'n hasesiad o effeithiau'n penderfyniadau yn hanfodol er mwyn sicrhau ein bod yn hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn atal camwahaniaethu.

**1.2.** Yn unol ag adborth a gafwyd gan Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb, a gan adlewyrchu argymhellion Ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i Arferion Gorau o ran y Gyllideb, rydym unwaith eto wedi dilyn dull gweithredu integredig wrth gynnal yr asesiad effaith. Er gwaetha'r heriau a ddaeth yn sgil y ffaith bod Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU mor hwyr, rydym wedi canolbwyntio wneud penderfyniadau strategol ar lefel uchel ar sail ein dadansoddiad o dystiolaeth ategol, yn arbennig mewn perthynas â phobl â nodweddion gwarchodedig. Mae hyn wedi'n galluogi ni i roi ystyriaeth lawn i anfantais economaidd-gymdeithasol, hawliau plant, y Gymraeg a datblygu cynaliadwy, yn ogystal â chanolbwyntio ar gydraddoldeb a threchu tlodi.

**1.3.** Rydym wedi ystyried yr effeithiau ar grwpiau gwarchodedig yn ehangach nag yn y gorffennol, gan edrych ar feysydd cyflawni yn hytrach na phortffolios Gweinidogol. Rydym wedi ystyried effeithiau tymor hir, wedi asesu cyfleoedd ar gyfer atal problemau, wedi dilyn dull gweithredu integredig ac o gydweithio er mwyn deall effeithiau; ac wedi ymrwymo i gynnwys pobl yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

## 2. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

**2.1** Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i wella'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau am lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n cynigion ar gyfer y gyllideb wedi'u llunio yn erbyn y dyletswyddau newydd yn y Ddeddf, gan adlewyrchu ein hymrwymiad i'w roi ar waith yn llawn ac yn llwyddiannus.

**2.2** Roedd defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n rhan ganolog o'r Ddeddf, yn gymorth i ni gynllunio'n effeithiol yn absenoldeb sicrwydd cynnar am ein setliad ariannol, ac yn ein helpu i gyhoeddi'r cynigion hyn o fewn pythefnos i ganlyniad yr Adolygiad o Wariant gan ystyried yr effeithiau ar grwpiau gwarchodedig. Wrth galon y Ddeddf mae pum ffordd o weithio sydd wedi dylanwadu ar ein dull gweithredu cyffredinol wrth ddyrannu'r gyllideb:

- Rydym wedi ystyried effeithiau posib ein penderfyniadau yn y **tymor hir**, ac wedi pwyso a mesur hyn yn erbyn ein hanghenion yn y tymor byr. Mae hyn wedi'n galluogi i gynllunio ar sail adnabod heriau cyn

iddynt godi, fel bod modd i ni gydbwyso’r pwysau tymor byr gydag anghenion tymor hir.

- Mae'r syniad o **atal** er mwyn rhwystro problemau rhag codi neu waethygu wedi parhau i fod yn sylfaen i'n penderfyniadau. Rydym wedi ymrwymo i chwilio am gyfleoedd i fuddsoddi mewn gwariant ataliol.
- Drwy weithredu mewn ffordd **integredig** ar sail tystiolaeth a gwerthuso, rydym wedi datblygu dealltwriaeth ehangach o'r pwysau trawsbynciol sy'n bodoli ar draws meysydd gwasanaeth pwysig, yn unol â'n prif flaenoriaethau, gan dargedu cyllid ar y rhai mwyaf anghenus. Mae hyn wedi'n galluogi i gael dealltwriaeth ehangach o effaith gyffredinol penderfyniadau gwario ar ddarpariaeth y prif wasanaethau drwy edrych mewn ffordd holistaidd ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.
- Rydym yn cydnabod nad oes modd i ni gyflawni'r heriau hyn wrth ein hunain. Rydym wedi parhau i **gydweithio** a thrafod gyda Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb. Maent wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r sylfaen o dystiolaeth sydd gennym, gan roi gwell dealltwriaeth i ni o natur anghydraddoldeb yng Nghymru sydd wedi arwain ein ffordd o wneud penderfyniadau.
- Rydym wedi ymrwymo i gysylltu â phobl a'u **cynnwys** mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Drwy Daith y Gyllideb y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, rydym wedi gwrando ar brofiadau'r rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau, er mwyn dysgu beth sy'n llwyddo a ble mae cyfle i integreiddio gwasanaethau ymhellach a sicrhau mwy o gydweithio rhwng y rhai sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cynaliadwy.

## 3. Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb

**3.1** Mae Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb yn rhoi cyngor ac yn rhannu arbenigedd ac arferion gorau ar faterion cydraddoldeb, er mwyn helpu i sicrhau bod Asesiad Effaith Cyllideb Llywodraeth Cymru'n gwella’n gyson. Rydym yn gweithio gyda’r Grŵp drwy gydol y flwyddyn er mwyn gwella’n dull gweithredu a llunio’n penderfyniadau.

**3.2** Un o’r prif bethau y mae’r Grŵp wedi bod yn ei drafod ac yn gweithio arno hyd yn hyn yw darparu dealltwriaeth o'r amgylchedd economaidd presennol, ac effaith bosib hyn ar ein hystyriaethau ynghylch cydraddoldeb. Mae hyn wedi arwain at ganolbwyntio'n gryf ar bwysigrwydd adeiladu sylfaen gadarn o dystiolaeth, er mwyn gweld beth yw natur problemau sylfaenol cydraddoldeb, a’u deall yn well. Un o’r prif gasgliadau oedd bod angen cyfaddawdu yn wyneb toriadau i’r gyllideb.

**3.3** Mae eu cyfraniad parhaus wedi bod yn werthfawr iawn ac wedi arwain ein ffordd o wneud penderfyniadau. Gofynnwyd yn benodol i'r Grŵp gynghori ar feysydd sy'n flaenoriaeth ar gyfer buddsoddi cyn dechrau paratoi Cyllideb Ddrafft 2016-17, ac ymgynghorwyd â nhw yn dilyn Adolygiad o Wariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

**3.4** Wedi i’r Grŵp nodi bod angen canolbwyntio ar raglenni sy'n edrych yn benodol ar anghydraddoldeb, rydym wedi canolbwyntio ar y prif feysydd gwasanaeth sy'n cael yr effaith fwyaf. Wrth ddiogelu Gofal Cymdeithasol, rydym wedi neilltuo arian ar gyfer gwasanaethau llinell flaen, ac wedi diogelu rhaglenni fel Dechrau'n Deg, Cymunedau yn Gyntaf, Her Ysgolion Cymru a Cefnogi Pobl, gan ddiogelu cyllid fel y Grant Amddifadedd Disgyblion sy'n rhoi sylw penodol i anghydraddoldeb. Mae hyn yn adlewyrchu’r ffaith ein bod yn diogelu effeithiau ar gydraddoldeb ymhell y tu hwnt i un portffolio Gweinidogol yn unig.

**3.5** Mewn perthynas â blaenoriaethau’r Grŵp ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol, roedd ein penderfyniad i gynyddu cyllid iechyd yn adlewyrchu'r flaenoriaeth i fuddsoddi mewn meysydd ataliol yn hytrach na gofal aciwt, gofal sylfaenol yn hytrach nag eilaidd, a pharhau i ganolbwyntio ar drawsnewid gwasanaethau a gwell integreiddio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Drwy'n dull integredig o weithio a'r dyraniad dilynol i Ofal Cymdeithasol a’r cynnydd i’r Gronfa Gofal Canolraddol, pobl hŷn a gwasanaethau iechyd meddwl, rydym wedi cydnabod swyddogaeth gofalwyr, gwerth iechyd meddwl a gofal cymdeithasol ehangach yn nhermau eu heffaith ar grwpiau gwarchodedig.

**3.6** Mewn cydnabyddiaeth o bwysigrwydd addysg yn ôl y Grŵp ar gyfer rhoi sylw i anghydraddoldeb mewn cyflogaeth a sgiliau rydym wedi cynyddu cyllid ysgolion, wedi diogelu addysg ôl-16 ac wedi cynyddu cyllid cymorth i fyfyrwyr addysg uwch, a thrwy Gytundeb y Gyllideb 2014 rydym yn neilltuo £5m er mwyn parhau i gefnogi tua 2,500 o brentisiaethau.  Rydym wedi mynd ymhellach ac wedi ymrwymo £5m arall i ariannu carfan newydd o 2,500 o brentisiaethau gan gydnabod y gwerth y mae’r Grŵp yn ei roi ar y math hwn o ddysgu yn seiliedig ar waith.

**3.7** Nododd y Grŵp bod effeithiau ar ardaloedd gwledig yn flaenoriaeth. Er mwyn rhoi sylw i dlodi gwledig rydym wedi defnyddio'r dulliau mwyaf effeithiol sydd ar gael i ni. Drwy'n penderfyniadau ynghylch seilwaith, gofal cymdeithasol a diogelu Buddion Cyffredinol rydym wedi cydnabod sut mae rhaglenni fel Cefnogi Pobl, Cymorth i Brynu a thocynnau teithio rhatach wedi cael effaith gadarnhaol ar ardaloedd gwledig. Drwy gydol cyfnod yr Adolygiad o Wariant presennol, rydym wedi medru cysgodi’r awdurdodau lleol yn rhannol rhag effaith penderfyniadau Llywodraeth y DU i ostwng ein Cyllideb. Fodd bynnag, rydym wedi dangos ein bod yn wynebu heriau wrth geisio rheoli’n blaenoriaethau wrth i’r cyllidebau fynd yn llai. Er gwaethaf yr heriau hyn, rydym wedi parhau gyda’n hymrwymiad i roi blaenoriaeth i ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol. Wrth i ni barhau gyda’n hymrwymiad i ddiogelu cyllid ysgolion ar 1 y cant yn uwch na chyfartaledd grant bloc Cymru, rydym yn darparu £39.7 miliwn yn 2016-17, sydd wedi’i dargedu yn bennaf tuag at gyllid ysgolion ar y llinell flaen.

**3.8** Hefyd mae Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb wedi cydnabod bod effaith y penderfyniadau gwario ar gydraddoldeb yn dibynnu ar fanylion cynllun y polisi a'r ffordd mae'n cael ei weithredu. Dyna pam mae'r Grŵp wedi canolbwyntio ar themâu penodol. Mae eu rhaglen o gyfarfodydd wedi cynnwys gweithdai yn ystyried a thrafod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, goblygiadau Diwygio Lles, Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, y strategaeth dai, adroddiad Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen a'r Grant Gwella Addysg.

## 4. Dull Gweithredu y Gyllideb Ddrafft a'r Asesiad Effaith Integredig Strategol 2016-17

**4.1** O ganlyniad i benderfyniadau Llywodraeth y DU, mae Cyllideb Cymru wedi gweld toriad o £1.4 biliwn mewn termau real rhwng 2010-11 a 2015-16, ac yn dilyn Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU rydym yn parhau i wynebu setliad ariannol heriol.

**4.2** Er gwaetha'r ansicrwydd a ddaeth yn sgil amseriad hwyr Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU wrth i ni baratoi ar gyfer y gyllideb hon, rydym yn benderfynol o gadw at ein hymrwymiad i amddiffyn y rhai mwyaf difreintiedig yn ein cymdeithas ac wedi parhau i ganolbwyntio ar ein prif flaenoriaethau.

**4.3** Rydym wedi cymryd sylw o dueddiadau cyfredol a rhagamcanion ar gyfer y dyfodol, a'u heffeithiau posibl yn y tymor byr, canolig a hwy. Fe wnaed hyn er mwyn sicrhau nad yw ymatebion tymor byr yn cael effeithiau negyddol yn y tymor hir. Mae rhagamcanion o dueddiadau demograffig, cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yn awgrymu mai'r prif feysydd â blaenoriaeth, fel ysgolion, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, fydd yn ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r cynnydd yn y galw yn y dyfodol, ac maent yn arbennig o bwysig i bobl â nodweddion gwarchodedig.

**4.4** Edrychwyd wedyn ar ffordd Llywodraeth Cymru o roi sylw i bolisi a chyllid ar gyfer addysg, gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, seilwaith a Buddion Cyffredinol. Rhoddwyd ystyriaeth i'r ffordd mae'r dull gweithredu hwnnw'n effeithio ar y gwasanaethau cyhoeddus ar lawr gwlad, beth yw eu hanghenion ar gyfer y dyfodol, a'r hyn mae hynny'n ei ddweud wrthym am sut y dylid edrych ar ddyraniadau'r gyllideb.

**4.5** O ganlyniad roedd modd i ni asesu cyfanswm yr angen cyffredinol gan ganolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth sy'n cael effaith anghymesur o gadarnhaol, gan ystyried y cysylltiad rhwng y meysydd gwasanaeth hyn.

**4.6** Wrth i setliad Cymru syrthio mewn termau real o 3.6 y cant rhwng 2015-16 a 2019-20 ac wrth i'r galw am wasanaethau barhau i gynyddu, nodwyd heriau sylweddol a gwirioneddol. O ganlyniad i ymagwedd Llywodraeth y DU ar gyni a diwygio lles, a'r cynnydd yn y galw a

wasanaethau, nid yw'n bosibl ateb yn llawn yr holl bwysau cynyddol yn y meysydd â blaenoriaeth a chynnal lefelau cyllido presennol.

**4.7** Gyda'r angen i dargedu cyllid yn effeithiol yn bwysicach nag erioed, roedd yn rhaid pwyso a mesur tystiolaeth o'r effeithiau ar grwpiau gwarchodedig yn erbyn y pwysau ar wasanaethau, er mwyn rhoi blaenoriaeth i gyllid ar gyfer meysydd sydd ag effeithiau cadarnhaol amlwg. Fe wnaed hyn gan wybod bod canolbwyntio'n hymdrechion ar flaenoriaethau yn arwain at oblygiadau i feysydd eraill. Yn yr achosion hynny rydym wedi ceisio lliniaru'r effeithiau negyddol lle bynnag y bo'n bosib.

**4.8** I grynhoi, rydym wedi seilio'n penderfyniadau gwario ar ddadansoddiad o'r galw a'r anghenion yn y prif feysydd gwasanaethau cyhoeddus sy'n arbennig o bwysig i'r rhai sydd fwyaf anghenus. Yn y cyfnod heriol yn ariannol sydd ohoni, rydym wedi ceisio canolbwyntio'n hadnoddau ar flaenoriaethau ar sail yr effaith gadarnhaol fwyaf, a lliniaru effeithiau'r cyni lle nad oes modd osgoi ei effaith yn llwyr.

## 5. Penderfyniadau Strategol

**5.1** Rydym wedi targedu ein buddsoddiad mewn canlyniadau cynaliadwy drwy ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus y mae pob un ohonom yn dibynnu arnynt a pharhau i ganolbwyntio ein cynlluniau gwario ar ein prif flaenoriaethau sef: iechyd a gwasanaethau iechyd; twf a swyddi; cyrhaeddiad addysgol; a chefnogi plant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig.

**5.2** Gyda'r tueddiadau'n dangos galw cynyddol yn y nifer sy'n cael eu trin am afiechydon, gofal heb ei drefnu a gofal cymdeithasol, a gan gydnabod ar yr un pryd yr effeithiau cadarnhaol sylweddol ar grwpiau gwarchodedig, rydym wedi mynd ati mewn ffordd integredig i neilltuo cyllid i Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

**5.3** Mae'n penderfyniad i neilltuo £293m o gyllid ychwanegol ar gyfer iechyd yn 2016-17 yn gydnabyddiaeth bod darparu setliad iechyd digonol a chynaliadwy yn hanfodol ar gyfer cymdeithas yn gyfan, ac ar ben hynny yn gydnabyddiaeth o'r effeithiau arbennig o gadarnhaol ar grwpiau gwarchodedig. Bydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i gynnal mynediad at wasanaethau gofal acíwt o ansawdd pan fo eu hangen, hyrwyddo datblygiad parhaus gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol yn agosach i'r cartref, a chynyddu'r cyllid sydd ar gael i wasanaethau iechyd meddwl ac i bobl hŷn. Fel y nodwyd llynedd, mae ymchwil yn awgrymu bod gwario ar wasanaethau cyhoeddus fel iechyd ac addysg yn lleihau anghydraddoldeb, gan bod y gwariant hwn yn fwy manteisiol i gartrefi incwm isel na chartrefi cyfoethog. Mae modd mesur cyfanswm yr effaith ar gydraddoldeb ac effeithiau rhaglenni gwario unigol, ac o ganlyniad gellir graddio'r rhaglenni i ddangos pa rai sydd fwyaf manteisiol i bobl dlawd a pha rai sydd fwyaf manteisiol i bobl gyfoethog. Fesul pen, mae'r GIG yn gwario mwy ar bobl hŷn a phlant ifanc, ac mae

cartrefi sy’n cynnwys y ddau grŵp hwn o unigolion wedi’u crynhoi yn y grwpiau incwm llai na’r cyfartaledd.

**5.4** Mae'n penderfyniad i ddyrannu £21m arall drwy'r Grant Cynnal Refeniw ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn cydnabod cyfraniad pwysig gwasanaethau cymdeithasol. Rydym wedi cydnabod y pwysau ar ddarpariaeth gwasanaethau, y cysylltiad cryf rhwng iechyd gwael ac amddifadedd a’r effeithiau pwysig mae gofal cymdeithasol yn ei gael ar y mwyaf difreintiedig, boed yn sgil oedran, anabledd neu'r angen i ddiogelu plant.

**5.5** Yn unol â'r ymrwymiad hwn rydym hefyd yn diogelu'r Rhaglen Cefnogi Pobl sy'n rhoi cymorth yn ymwneud â thai i rai o'r bobl fwyaf agored i niwed neu sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol yng Nghymru.

**5.6** Mae'n penderfyniad i neilltuo £39.7m ychwanegol i ysgolion, sydd wedi’i dargedu’n bennaf tuag at gyllid i ysgolion ar y llinell flaen, yn gydnabyddiaeth o bwysigrwydd addysg ar gyfer codi cyrhaeddiad addysgol a gwella sgiliau ar bob lefel yn wyneb y pwysau amlwg sydd ar ein hysgolion. Rydym wedi neilltuo arian i Addysg gan gydnabod ei gyfraniad pwysig i dorri’r cylch o anfantais ac anghydraddoldeb ac i feithrin dyfodol ffyniannus i’r Gymraeg.

**5.7** Drwy'n penderfyniad i ddarparu setliad arian gwastad ar gyfer addysg ôl-16, rydym wedi cydnabod y pwysau sylweddol sy'n wynebu'r sector hwn a'r effeithiau a'r manteision yn unol gyda'n dyhead i weld cymaint â phosib o ddysgwyr yn medru cael y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y gweithle. Yn benodol, rydym wedi cydnabod y manteision a ddaw i Gymru drwy brentisiaethau a'u heffaith ar drechu tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol.

**5.8** Rydym wedi dyrannu £10m arall i gefnogi myfyrwyr Addysg Uwch. Bydd hyn yn cael ei osod yn erbyn y pwysau a ddaw o'r galw cynyddol, ac yn cydnabod llwyddiant parhaus prifysgolion Cymru a'u heffaith er mwyn gwella cyfleoedd bywyd ar gyfer pobl ifanc, beth bynnag eu cefndir.

**5.9** Un o'r meysydd craidd lle rhoddwyd ystyriaeth i gydraddoldeb drwy gydol y broses cynllunio ariannol oedd ein hymateb i ddiwygiadau lles Llywodraeth y DU. Ar bob cam o broses y gyllideb rydym wedi ceisio lliniaru'r effeithiau andwyol ar deuluoedd, gan ddefnyddio pob ysgogiad sydd gennym. Yn unol â’n hymrwymiad i drechu tlodi, rydym yn diogelu cyllid Cymunedau yn Gyntaf.

**5.10** Rydym yn parhau i gefnogi Buddion Cyffredinol drwy gynnal amddiffyniad o 1 y cant uwchlaw newidiadau i Gyllideb Cymru yn gyffredinol. Mae hyn yn golygu parhau i ddarparu presgripsiynau am ddim, brecwast a llaeth am ddim mewn ysgolion, nofio am ddim a thocynnau teithio rhatach. Mae'r mentrau hyn yn helpu'r rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas, a’r rhai sydd o fewn dim i fod yn gymwys am gymorth sy'n dibynnu ar brawf modd, gan gyfrannu at greu cymdeithas

fwy cyfartal. Yn unol â'n sylw ar atal problemau, mae ganddynt hefyd y potensial i leihau'r galw ar ein gwasanaethau yn y dyfodol drwy helpu i greu poblogaeth iachach, fwy egnïol ac annibynnol.

**5.11** Er gwaetha'r gostyngiadau digynsail i'n cyllideb cyfalaf dros y pum mlynedd ddiwethaf, drwy Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar fanteisio i'r eithaf ar y manteision a'r cyfleoedd a ddaw drwy fuddsoddiadau yn seilwaith Cymru, drwy alluogi twf economaidd parhaus a chreu swyddi newydd.

## 6. Meysydd Blaenoriaeth

### Iechyd a Gwasanaethau Iechyd

### Trosolwg

**6.1** Gyda'r tueddiadau'n awgrymu galw cynyddol yn y nifer sy'n cael eu trin am afiechydon, gofal heb ei drefnu a gofal cymdeithasol, gan gydnabod ar yr un pryd yr effeithiau cadarnhaol sylweddol ar grwpiau gwarchodedig, rydym wedi mynd ati mewn ffordd integredig i neilltuo cyllid i Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

### Penderfyniadau allweddol

- Iechyd - £293m o gyllid ychwanegol ar gyfer Iechyd;
- Gofal Sylfaenol a gofal yn y Gymuned – Drwy'r cyllid ychwanegol ar gyfer Iechyd, mae £30m yn cael ei neilltuo i gynyddu'r cyllid ar gyfer y Gronfa Gofal Canolraddol i £50m yn 2016-17;
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Phobl Hŷn – o'r £293m ychwanegol a neilltuwyd, £30m ar gyfer cynyddu'r cyllid sydd ar gael i wasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau i bobl hŷn.
- Gwasanaethau Cymdeithasol – dyrannwyd £21m ychwanegol i'r Grant Cynnal Refeniw; ac
- Ymyriadau ataliol mewn Gofal Cymdeithasol ehangach – Diogelu'r rhaglen Cefnogi Pobl;
- Iechyd y Cyhoedd – rydym yn diogelu'n buddsoddiad mewn rhaglenni i wella iechyd y cyhoedd.

### Iechyd

**6.2** Yn ystod y cyfnod parhaus hwn o gyni a thoriadau Llywodraeth y DU i wasanaethau cyhoeddus, ac yng ngoleuni tystiolaeth ysgubol am alw cynyddol yn sgil ein poblogaeth sy'n heneiddio ac yn cynyddu, ein polisi yw symud o ffwrdd o ganolbwyntio ar afiechyd a gorddibyniaeth ar driniaeth mewn ysbytai. Yn hytrach, rydym yn symud tuag at ofal sylfaenol ac ymyriadau integredig ehangach. Gan bod y GIG yn rhad ac am ddim wrth ei ddefnyddio, bydd y £293m o gyllid ychwanegol yn cyfrannu at yr effaith gadarnhaol ar dlodi a chydraddoldeb.

**6.3** Ein dull gweithredu yw helpu pobl i ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u llesiant eu hunain trwy'r dull cydgynhyrchu, yn ogystal â datblygu GIG ataliol, a arweinir gan ofal sylfaenol a cymunedol. Mae hyn yn gofyn am ailgyfeirio adnoddau ariannol ac adnoddau'r gweithlu er mwyn darparu mwy o ofal iechyd yn y gymuned.

**6.4** Daeth adroddiad Nuffield i'r casgliad y bydd y GIG yng Nghymru'n parhau i fod yn fforddiadwy yn y dyfodol os bydd yn parhau i ddiwygio ac ail-lunio gwasanaethau. Er mwyn darparu GIG cynaliadwy mae angen inni wneud y gwelliannau angenrheidiol mewn cynhyrchiant a darpariaeth gwasanaethau, a'r buddsoddiad ychwanegol o £293m yw ein hymrwymiad i gefnogi cyflawni'r gwelliannau hyn.

**6.5** Mae mwyafswm llethol y gofal iechyd yng Nghymru'n cael ei ddarparu yn y gymuned, yn agos at gartrefi'r cleifion. Mae'r Gronfa Gofal Canolraddol wedi galluogi byrddau iechyd ac awdurdodau lleol i roi sylw i gydraddoldeb drwy ddatblygu gwasanaethau i helpu pobl hŷn a'r rhai sydd â chyflyrau cronig i gadw eu hannibyniaeth yn y gymuned ac i gefnogi rhyddhau cleifion yn gynnar o'r ysbyty. Felly, drwy'r cyllid ychwanegol i iechyd, caiff £30m ei neilltuo i gynyddu cyllid sydd ar gael ar gyfer y Gronfa Gofal Canolraddol i £50m yn 2016-17.

**6.6** Fel Llywodraeth rydym yn parhau i gydnabod swyddogaeth bwysig gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer gwella canlyniadau i gleifion. Rydym felly wedi neilltuo £30m o'r £293m i gynyddu'r cyllid sydd ar gael i'r gwasanaethau iechyd meddwl yn ogystal â chyllid ar gyfer pobl hŷn. Yn unol gyda'n ffordd integredig o edrych ar iechyd a gofal cymdeithasol, rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i helpu i wneud gwelliannau pellach i nifer o feysydd allweddol, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl i blant a'r glasoed a gofal dementia i helpu grwpiau allweddol.

**6.7** Wrth i'n poblogaeth heneiddio mae'n hanfodol i ni weithio gyda phobl i helpu i ddiogelu eu hiechyd wrth iddynt fynd yn hŷn. Drwy ddiogelu ein buddsoddiad yn iechyd y cyhoedd, rydym yn ymrwymo i ddarparu mwy o reolaeth dros iechyd a llesiant a mynediad cynt at gyngor a gwasanaethau i'r rhai sydd eu hangen fwyaf.

## Gwasanaethau Cymdeithasol

**6.8** Mae pobl iau, pobl hŷn a phobl anabl yn fwy tebygol o ddibynnu ar ofal cymdeithasol y mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn eu darparu. Yn y cyd-destun hwn mae amcanestyniadau yn dangos cynnydd yn y nifer o bobl hŷn, mae pwysau ar gostau gofal yn debygol o ddeillio o gynnydd mewn tlodi ac allgáu cymdeithasol ochr yn ochr â chynnydd mewn cyflyrau sy'n fwy cyffredin ymhlith pobl oedrannus, megis dementia. Ar yr un pryd mae'r un tueddiadau yn awgrymu y gall mesurau atal o dan yr amgylchiadau iawn arbed arian cyhoeddus a gwella llesiant dros y tymor hwy. Mae'r dadansoddiad hwn yn cefnogi'n penderfyniad i osod gwasanaethau cymdeithasol ymysg y prif ystyriaethau ar gyfer y Gyllideb Ddrafft hon.

**6.9** Mae'n penderfyniad i neilltuo £21m ychwanegol i'r Grant Cynnal Refeniw ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn gydnabyddiaeth o bwysigrwydd canolbwyntio ar gefnogi a chyflymu newid ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn rhoi sylw i'r heriau hyn gan ganolbwyntio'n arbennig ar ddarparu ar y llinell flaen.

**6.10** Mae'n blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol wedi'u hymgorffori yn rhaglen Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru a rhoi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar waith. Mae'r rhain yn gosod pwyslais ar lesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth ochr yn ochr â sicrhau bod gan bobl lais llawer cryfach a mwy o reolaeth dros y gwasanaethau y maent yn eu cael; symleiddio'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu, a gwella llesiant pawb sy'n byw yng Nghymru.

**6.11** Drwy amddiffyn rhaglenni hollbwysig megis y rhaglen Cefnogi Pobl rydym wedi cydnabod cyfraniad pwysig gofal cymdeithasol i'r rhai mwyaf agored i niwed, boed am resymau henaint, anabledd neu'r angen i ddiogelu plant. Mae'r rhaglen hon yn cynnig cymorth yn gysylltiedig â thai i rai o bobl fwyaf agored i niwed Cymru, yn ogystal â phobl sydd wedi'u hallgáu yn gymdeithasol. Mae hefyd yn helpu unigolion a theuluoedd sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref i ddod o hyd i gartref, cadw'r cartref a byw'n annibynnol, yn ogystal â gwneud cyfraniad allweddol i'n hagenda Trechu Tlodi. Mae'r rhaglen yn enghraifft o gamau y gellir eu cymryd i atal problemau neu leihau'r angen am ymyriadau mwy costus gan y GIG a/neu ofal cymdeithasol. Mae'n helpu unigolion a theuluoedd ac, mewn rhai achosion, yn cefnogi pobl sy'n cwympo i'r system cyfiawnder troseddol.

## Cyrhaeddiad Addysgol

### Trosolwg

**6.12** Rydym wedi mynd ati mewn ffordd gyfannol i ariannu addysg. Gyda'r twf a ragwelir mewn pobl ifanc dros y tymor canolig rydym wedi cydnabod pwysigrwydd sylfaenol addysg ar gyfer codi cyrhaeddiad addysgol a gwella sgiliau ar bob lefel gan gyfrannu at dorri'r cylch o anfantais ac anghydraddoldeb a meithrin dyfodol ffyniannus i'r Gymraeg. Rydym hefyd wedi cydnabod bod newidiadau i'r boblogaeth ynghyd â newid technolegol a sectorol yn ei gwneud yn ofynnol inni ystyried rôl bwysig addysg yng nghyd-destun cefnogi dyfodol economi Cymru.

### Penderfyniadau allweddol

- Ysgolion – dyrannwyd £39.7m yn ychwanegol i ysgolion, sydd wedi'i dargedu'n bennaf at ariannu ysgolion rheng flaen;
- Y Blynyddoedd Cynnar – diogelu Rhaglen Dechrau'n Deg.

- Y Grant Amddifadedd Disgyblion - rydym wedi dyrannu £7.2m yn ychwanegol i godi'r cyllid o £1,050 i bob disgybl cymwys yn 2015-16 i £1,150 yn 2016-17;
- Her Ysgolion Cymru – ymestyn y cynllun i 2016-17 gyda £15m ar gael y flwyddyn nesaf;
- Ôl-16 - darparwyd setliad arian gwastad ar gyfer addysg ôl -16 oed;
- Prentisiaethau - neilltuwyd £5m i barhau i roi cymorth i tua 2,500 o brentisiaethau, a £5m arall i ariannu carfan newydd o 2,500 o brentisiaethau;
- Cymorth i fyfyrwyr Addysg Uwch - neilltuwyd £10m yn ychwanegol i Addysg Uwch;
- Y Gymraeg – neilltuwyd £1.2m i leddfu effaith y gostyngiadau ar gyllid i'r Gymraeg.

## Ysgolion a'r Blynyddoedd Cynnar

**6.13** Gyda'r twf a ragwelir mewn pobl ifanc dros y tymor canolig rydym wedi cydnabod pwysigrwydd addysg ar gyfer gwella cyrhaeddiad a sgiliau addysgol, a'i chyfraniad at dorri'r cylch o anfantais ac anghydraddoldeb ac i feithrin dyfodol ffyniannus i'r Gymraeg.

**6.14** Mae ein penderfyniad i neilltuo £39.7m o gyllid ychwanegol i ysgolion, sydd wedi'i dargedu'n bennaf at ysgolion rheng flaen, yn cael effaith eithriadol o gadarnhaol ar bobl ifanc yn gyffredinol ac mae'n bwysig o dan Erthygl 28 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, fod gan blant hawl i gael addysg. Bydd gan y penderfyniad hwn effeithiau cadarnhaol hefyd wrth fynd i'r afael â thlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol gan ei fod o fudd i grwpiau gwarchodedig ac y bydd ganddo effeithiau cadarnhaol sylweddol ar y Gymraeg.

**6.15** Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar godi safonau darpariaeth, cyrhaeddiad a seilwaith addysg a hyfforddiant ledled Cymru a chynyddu cyllid ysgolion rheng flaen i sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i gyflawni ei botensial.

**6.16** Er mwyn cydnabod tystiolaeth ryngwladol sefydledig bod angen ymyriadau dwys, mor gynnar â phosibl, ym mywydau'r rhai sydd o dan y risg mwyaf i dorri'r cylch o anfantais, rydym wedi diogelu Rhaglen Dechrau'n Deg. Dechrau'n Deg yw rhaglen flaenllaw Llywodraeth Cymru ar gyfer y blynyddoedd cynnar, ac mae'n gweithio i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant, gan eu rhoi yn y sefyllfa orau bosibl i ddechrau'r ysgol. Yn ôl y dystiolaeth sydd gennym hyd yn hyn mae Dechrau'n Deg yn cael effeithiau cadarnhaol ar blant, a phan fydd plant Dechrau'n Deg yn mynd i'r ysgol maent yn barod i ddysgu ac yn fwy hyderus wrth gymysgu â phlant eraill.

**6.17** Yn unol â Chytundeb y Gyllideb 2014, rydym yn darparu £7.2m yn ychwanegol yn 2016-17 i gynyddu'r Grant Amddifadedd Disgyblion (PDG) o 1,050 i bob disgybl cymwys yn 2015-16 i £1,150 yn 2016-17. Mae hyn yn adeiladu ar y rhaglen bresennol sy'n ymateb pwysig i dorri'r

cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol. Mae'r rhaglen hon yn canolbwyntio'n arbennig ar sicrhau bod y plant mwyaf difreintiedig yn cael mynediad at addysg o safon uchel yn eu blynyddoedd cynnar.

**6.18** Rydym wedi ymestyn cynllun Her Ysgolion Cymru hyd at 2016-17 gyda £15m ar gael y flwyddyn nesaf, a fydd yn cefnogi'r rhaglen i gyflymu a chanolbwyntio ymdrechion i wella ein hysgolion, gan ganolbwyntio ar ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru sy'n wynebu'r her fwyaf o safbwynt amgylchiadau a cham datblygu.

**6.19** Wrth gydnabod swyddogaeth bwysig ysgolion o ran sicrhau dyfodol ffyniannus i'r Gymraeg, rydym wedi neilltuo cyllid ychwanegol i ysgolion, sydd wedi'i dargedu'n bennaf at ariannu ysgolion ar y rheng flaen, ac a fydd yn effeithio'n gyfartal ar ysgolion cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg a dwyieithog. Yn benodol, bu cynnydd calonogol yn nifer y disgyblion ysgol gynradd sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg fel iaith gyntaf. Rydym wedi ymrwymo o hyd i'n strategaeth ar gyfer y Gymraeg sef "Iaith Fyw" a'n strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Er hynny, bydd cyni parhaus yn golygu y bydd angen gwneud dewisiadau anodd a byddwn yn ceisio sicrhau bod yr effeithiau ar ddyfodol y Gymraeg a chymunedau Cymraeg eu hiaith mor fach â phosibl. Yn unol â'r ymrwymiad hwn ac mewn cydnabyddiaeth o'r pwysau a wynebir wrth ddiogelu dyfodol ac etifeddiaeth y Gymraeg, rydym wedi neilltuo £1.2m yn 2016-17 fel cam i liniaru effeithiau'r gostyngiadau cyllido.

## Addysg Ôl-16

**6.20** Trwy ein penderfyniad i ddarparu setliad arian gwastad ar gyfer addysg ôl-16, rydym wedi cydnabod yr effeithiau ar drechu tlodi ac anfantais economaidd-gymdeithasol ac wedi ymrwymo i wireddu ein huchelgais i weld cymaint o ddysgwyr â phosibl yn ennill y sgiliau angenrheidiol ar gyfer y gweithlu. Rydym hefyd wedi ceisio lliniaru'r pwysau sylweddol sy'n wynebu'r sector hwn.

**6.21** Rydym yn cefnogi'r rhaglenni sy'n darparu gweithlu medrus ac sy'n cynnig cyfleoedd o safon uchel i bob dysgwr, gan gyfrannu at greu twf a swyddi. Mae addysg ôl-16 yn gwneud cyfraniad sylweddol at drechu tlodi trwy gynyddu lefelau sgiliau'r gweithlu yng Nghymru.

**6.22** Mae'n bwysig inni daro cydbwysedd rhwng darparu addysg ôl- 16 a'r cyfle i gael mynediad i addysg uwch. Mae rhai pobl ifanc o gefndir du neu leiafrifoedd ethnig (BME) a phobl ifanc sydd o dan anfantais yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi os nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant (NEET). Mae addysg a hyfforddiant ôl-16 megis prentisiaethau yn bwysig i ymateb i'r her o ostwng nifer y bobl NEET, ac mae gostwng nifer y bobl NEET yn ganolog i'n Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi. Er mwyn sicrhau cyfleoedd addysg bellach neu'r gallu i ennill y sgiliau angenrheidiol ar gyfer y gweithle, rydym yn diogelu ein cyllideb Addysg Ôl-16. Yn ogystal, trwy ein Cytundeb Cyllidebol 2014 rydym yn neilltuo £5m i alluogi cymorth parhaus i tua 2,500 o

brentisiaethau. Rydym wedi mynd ymhellach ac wedi ymrwymo £5m arall i ariannu carfan newydd o 2,500 o brentisiaethau fel cydnabyddiaeth o werth yr addysg hwn yn seiliedig ar waith.

**6.23** I gydnabod swyddogaeth gofalwyr a'r rhwystrau rhag addysg rydym wedi darparu cyllid i sefydlu cynllun peilot ar gyfer gofal plant ym maes addysg bellach i ddileu'r rhwystrau rhag addysg a mynd i'r afael ag amddifadedd rhwng y cenedlaethau. Bwriedir i hyn gynnig cyfle i'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu allu cael mynediad at addysg bellach heb orfod poeni am gostau gofal plant. Yn arbennig bwriedir i'r peilot hwn gael effaith gadarnhaol ar grwpiau gwarchodedig gan mai'r grwpiau hyn, o bosibl, fyddai'n gweld y manteision mwyaf, a hynny yn arbennig o ran rhywedd.

## Addysg Uwch

**6.24** Mae prifysgolion Cymru wedi gweld newid sylweddol dros y pedair blynedd diwethaf. Mae hyn yn cael ei gefnogi trwy ein strategaeth ar gyfer llai o sefydliadau, a'r rheini'n sefydliadau cryfach, sy'n fwy abl i gystadlu yn y farchnad addysg uwch fyd-eang.

**6.25** Ar yr un pryd rydym wedi ymrwymo o hyd i'n prif nod, sef tegwch i bawb gan sicrhau bod sefyllfa ariannol unigolyn yn llai o ffactor wrth benderfynu a ddylid dilyn addysg brifysgol nag y byddai wedi bod fel arall. Rydym wedi bod yn glir iawn bod y polisi ar ffioedd dysgu yn fuddsoddiad yn y person ifanc ac y dylai'r dewis o sefydliad a chwrs gael ei symbylu gan amgylchiadau unigol ac nid gan gost y ffioedd. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar bobl beth bynnag eu hethnigrwydd, rhyw neu gefndir, ac yn rhoi llwybr allan o dlodi.

**6.26** Rydym felly wedi neilltuo £10m arall i gefnogi myfyrwyr Addysg Uwch. Mae hyn yn diogelu'r effaith sydd gan ein polisi ar ffioedd dysgu ar wella cyfleoedd pobl ifanc mewn bywyd ni waeth beth fo eu cefndir, a hefyd yn ateb y pwysau a ddaw yn sgil galw cynyddol.

**6.27** Yng Nghymru mae Addysg Uwch hefyd yn gwneud cyfraniad sylweddol i'n heconomi a'n cymdeithas ehangach. Yn benodol mae ei heffaith ar economïau a chymunedau lleol yn sylweddol, gyda rhai, megis Aberystwyth a Bangor, yn bwysig iawn yn hyn o beth. Fel cyflogwr mae Sefydliadau Addysg Uwch hefyd yn creu nifer mawr o swyddi ar gyfer pob math o sgiliau. Fe fydd hyn wrth gwrs o fudd i'r bobl hynny y mae'n eu cyflogi.

**6.28** Er hynny, bydd cyni'n arwain at ddewisiadau anodd. Trwy ddewis ariannu cymorth i fyfyrwyr rydym yn cydnabod y bydd pwysau mewn mannau eraill mewn Addysg Uwch. Byddwn yn cydweithredu er mwyn lliniaru'r canlyniadau ac rydym hefyd yn gwneud buddsoddiadau ychwanegol sylweddol yng ngallu ymchwil y sector Addysg Uwch trwy Sêr Cymru, gan ddefnyddio rhaglenni a chronfeydd strwythurol yr UE.

Mae hyn yn cydnabod rôl gwyddoniaeth mewn arloesi a datblygu technoleg yn gysylltiedig â thwf economaidd a chreu swyddi.

## Cefnogi Plant, Teuluoedd a Chymunedau Difreintiedig

### Trosolwg

**6.29** Drwy roi pwyslais ar dystiolaeth a gwerthuso, rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd gwasanaeth allweddol hynny sy'n cael yr effaith fwyaf ar ein plant, ein teuluoedd a'n cymunedau difreintiedig.

**6.30** Ar yr un pryd fodd bynnag, o ganlyniad i agwedd Llywodraeth y DU at gyni cyllidol ac yn arbennig diwygio lles, bu'n rhaid inni wneud penderfyniadau anodd. Ar bob cam o broses y gyllideb, rydym wedi ceisio lliniaru'r effeithiau dinistriol ar deuluoedd a defnyddio'r holl ddulliau sydd ar gael inni.

### Penderfyniadau Allweddol

- Lliniaru Effaith Diwygio Lles Llywodraeth y DU - parhau â'r amddiffyniad o 1 y cant ar gyfer Buddion Cyffredinol i 2016-17.
- Trechu Tlodi – darparu amddiffyniad arian gwastad i raglen Cymunedau yn Gyntaf;
- Cynnal gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd – Neilltuwyd £3m i gyfyngu ar ostyngiadau i arolygiaethau.

### Buddion Cyffredinol

**6.31** Fel ymateb i fesurau diwygio lles Llywodraeth y DU, rydym yn parhau i gefnogi Buddion Cyffredinol, drwy gynnal yr amddiffyniad o 1 y cant, sy'n helpu i greu cymdeithas fwy cyfartal. Mae'r mentrau hyn yn cefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, yn ogystal â'r rheini sydd o fewn dim i fod yn gymwys am gymorth sy'n dibynnu ar brawf modd, ac maent yn helpu i greu cymdeithas fwy cyfartal. Yn unol â'n ffocws ar atal problemau, mae gan y mentrau hyn botensial hefyd i leihau'r galw ar wasanaethau yn y dyfodol trwy helpu i greu poblogaeth iachach, fwy egnïol ac annibynnol.

**6.32** Gan hynny, rydym wedi cynnal ein hymrwymiadau i ddarparu:

I. **Tocynnau Teithio Rhatach** - i helpu pobl hŷn a phobl anabl i gadw eu hannibyniaeth. Prif ddiben y cynllun hwn yw annog mwy o bobl i ddefnyddio'r bws, er mwyn lleihau allgáu cymdeithasol a sicrhau bod grwpiau o bobl sy'n debygol o fod ar incwm cyfyngedig yn gallu elwa ar gyfleoedd i deithio, ac i wella mynediad at addysg a swyddi. Yn benodol, rydym wedi neilltuo £9.75m i'r Cynllun Teithio Rhatach ar y Bws i Bobl Ifanc, o ganlyniad i Gytundeb y Gyllideb â Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar bobl ifanc. Mae hyn yn galluogi pobl ifanc i elwa ar gyfleoedd gwaith,

addysg a hyfforddiant a phrentisiaethau. Bydd o fudd arbennig hefyd i bobl o gartrefi incwm isel ac yn helpu i drechu tlodi.

II. **Brecwast Am Ddim Mewn Ysgolion a Llaeth Ysgol Am Ddim** – yn darparu maeth hanfodol i blant yn ystod y diwrnod ysgol. Dangosodd astudiaeth ddiweddar, a oedd yn defnyddio data o'n cynllun brecwast am ddim mewn ysgolion, fod cysylltiad rhwng brecwast iach a pherfformiad addysgol yn ogystal â chanlyniadau iechyd gwell. Mae hyn yn gyson â gwaith ymchwil sy'n awgrymu y gallai bwyd sy'n rhyddhau egni'n araf gydol y bore gael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau megis gweithrediad gwybyddol, presenoldeb a chyrhaeddiad. Yn ôl yr astudiaeth hon hefyd, trwy gynnal rhagor o ymchwil, gellid penderfynu a allai rhaglenni brecwast am ddim cyffredinol, yn hytrach na rhai wedi'u targedu'n benodol, chwarae rhan bwysig i leihau anghydraddoldebau o ran iechyd ac addysg. Yn ogystal â hynny, un o fanteision y cynllun brecwast am ddim yw'r cyfleoedd 'gofal plant' i rieni sy'n gweithio, gydag effaith arbennig ar fenywod sy'n wynebu rhwystrau rhag bod yn rhan o'r farchnad lafur.

III. **Presgripsiynau Am Ddim** – yn sicrhau nad yw pobl ar incwm isel yn cael eu hatal rhag cymryd meddyginiaethau rheolaidd, gan ddileu'r rhwystrau rhag triniaeth i bobl sy'n byw â chyflyrau hirdymor a mynd i'r afael â ffynhonnell o anghydraddoldeb o ran iechyd, yn arbennig ymysg pobl hŷn a phobl anabl. Amcangyfrifir bod 1 miliwn o bobl yn elwa o hyn, ac yn cael eu hamddiffyn rhag canlyniadau negyddol i'w lles personol a chanlyniadau sylweddol i'r system iechyd a gofal cymdeithasol.

IV. **Nofio Am Ddim** – yn annog pobl Cymru i ddechrau gwneud ymarfer corff ac i fabwysiadu ffordd o fyw iach. Er bod nifer y bobl dros 60 oed sy'n manteisio ar y cynllun yn cynyddu, mae nifer y rheini o dan 16 oed sy'n gwneud hynny yn lleihau. At hynny, ceir tystiolaeth bod plant mewn ardaloedd sy'n economaidd-gymdeithasol ddifreintiedig yn fwy tebygol o fethu â dysgu nofio erbyn eu bod yn 11 oed. O ganlyniad, mae'r cynllun wedi cael ffocws newydd, fel bod awdurdodau lleol yn cael cyllid sy'n uniongyrchol gysylltiedig â nifer y plant mewn ardaloedd economaidd-gymdeithasol ddifreintiedig yn eu dalgylch.

### Gwasanaethau Lleol

**6.33** Fel y trafodir yn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol hwn drwyddo draw, ar bob cam o broses y gyllideb, rydym wedi ceisio lliniaru effeithiau dinistriol mesurau cyni ariannol a diwygio lles y DU ar deuluoedd trwy ddefnyddio pob dull sydd ar gael inni.

**6.34** Yn unol â'n hymrwymiad i Drechu Tlodi, rydym wedi diogelu cyllid i'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r rhaglen hon yn gwneud cyfraniad pwysig i sicrhau gwelliannau yng nghanlyniadau iechyd, addysg ac economaidd y 10 y cant o gymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gyda'r nod tymor hir o gyfrannu at leddfu tlodi parhaus. Yn unol â'n

hegwyddor o atal problemau, mae’r rhaglen hon yn canolbwyntio ar godi Cyrhaeddiad Addysgol, gwella Iechyd a Lles a chynyddu llewyrch a chyflogaeth, gan ganolbwyntio’n benodol ar leihau diweithdra ymysg pobl ifanc.

**6.35** Fodd bynnag, ni ellir asesu'r camau cadarnhaol a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i ystyried effaith ein penderfyniadau gwario ar bobl mewn grwpiau gwarchodedig fel mater ar wahân i effaith mesurau cyni ariannol Llywodraeth y DU, gan gynnwys yng nghyd-destun diwygio trethi a lles. Yn wir, cafodd y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS) ei gomisiynu gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweinidog ar Ddiwygio Lles yn ddiweddar i amcangyfrif beth fyddai effaith diwygio o'r fath yng Nghymru. Byddwn yn amlinellu'r effeithiau yn ddiweddarach.

**6.36** Yn sgil y cyni ariannol, bu'n rhaid inni fod yn realistig wrth wneud penderfyniadau. Er mwyn canolbwyntio ar y meysydd hynny sy'n cynnig y mwyaf o fanteision, rhaid gwneud penderfyniadau anodd sy'n effeithio ar feysydd cyflenwi eraill. Yn benodol, trwy ganolbwyntio ar y meysydd hynny lle ceir y mwyaf o effaith gadarnhaol, nid ydym wedi gallu parhau i gyllido meysydd eraill, a bydd hyn yn cael effaith negyddol ar wasanaethau lleol eraill.

**6.37** Er mwyn lliniaru'r effaith negyddol, rydym wrth fuddsoddi wedi ceisio targedu'r grwpiau gwarchodedig a fydd yn cael eu heffeithio wrth fuddsoddi. Er mwyn lleddfu'r effaith ar ein cymunedau, rydym wedi buddsoddi mewn addysg a gwasanaethau cymdeithasol y rheng flaen trwy'r Grant Cynnal Refeniw. Rydym hefyd wedi defnyddio ein hysgogiadau ar gyfer cyllid seilwaith ac arloesi ac rydym wedi diogelu'r rhaglenni hynny sydd wedi'u targedu at gydraddoldeb, adfywio cymunedol, cynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd.

**6.38** Ar ben hynny, drwy neilltuo £3m i gyfyngu ar ostyngiadau i arolygiaethau, rydym yn ceisio diogelu swyddogaeth bwysig ein harolygiaethau wrth sicrhau ansawdd a diogelwch y gwasanaethau y mae’r grwpiau gwarchodedig yn dibynnu arnynt.

**6.39** Fodd bynnag, rydym yn gwybod y bydd rhaid inni wneud penderfyniadau anodd ynghylch gwasanaethau lleol sydd o fudd i bobl Cymru. Er mwyn gallu darparu gwasanaethau lleol cynaliadwy fel llyfrgelloedd, canolfannau hamdden a gwasanaethau gwastraff ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, bydd rhaid wrth ddull cydweithredol, sy'n chwilio am fodelau darparu gwasanaethau gwahanol, ac sy'n gwneud mwy na chanolbwyntio ar arbedion yn unig.

**6.40** Lle bo hynny'n bosibl, rydym wedi ceisio rhoi hyblygrwydd ariannol i awdurdodau lleol wneud y penderfyniadau hynny, gan ganolbwyntio wrth fuddsoddi ar wasanaethau rheng flaen trwy ddefnyddio'r Grant Cynnal Refeniw i liniaru'r effaith ar grwpiau agored i niwed.

**6.41** Mae'r Amgueddfa Genedlaethol, Archifau, Llyfrgelloedd, y Celfyddydau, Diwylliant a Chwaraeon yn gwneud eu rhan i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, ac yn addysgu ein pobl ifanc am ein diwylliant. Maent hefyd yn cefnogi twristiaeth ac yn gwella ein henw da yn rhyngwladol. Byddwn yn parhau i gydweithio gyda'n partneriaid er mwyn lleihau'r effaith ar y grwpiau gwarchodedig.

## Twf a Swyddi

### Trosolwg

**6.42** Mae Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio, gydol tymor y Cynulliad hwn, ar gyflawni twf sefydlog a chynaliadwy, gan ysgogi adferiad economaidd trwy gefnogi busnesau, denu mewnfuddsoddiad a chynyddu cyflogaeth.

**6.43** Diolch i'r dull a fabwysiadwyd gennym, rydym wedi gweld arwyddion cadarn bod ein hymyriadau economaidd yn cael effaith. Mae Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) wedi parhau i gynyddu, ac rydym yn dal i weld lefelau cynyddol o fewnfuddsoddiad yng Nghymru. Mae cyflogaeth wedi parhau i gynyddu ac mae diweithdra wedi syrthio, ac rydym wedi gweld cynnydd cadarnhaol mewn agweddau ar Dwristiaeth ledled Cymru.

**6.44** Fodd bynnag, wrth i gyni cyllidol roi pwysau pellach ar ein hadnoddau, bu'n rhaid inni fabwysiadu agwedd ddarbodus a chanolbwyntio ar yr ysgogiadau hynny sy'n cael yr effaith fwyaf. Rydym wedi ceisio diogelu'r bobl hynny y mae'r cyni ariannol yn cael effaith negyddol anghymesur arnynt, a lliniaru'r effaith negyddol arnynt.

### Penderfyniadau Allweddol

- Seilwaith - diogelu gwariant cyfalaf;
- Cefnogi Busnesau – Ymestyn y Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach am 12 mis.

### Seilwaith

**6.45** Er gwaetha'r cyfyngiadau sylweddol ar ein cyllideb gyfalaf, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd a'r manteision y mae buddsoddiadau yn seilwaith Cymru yn eu cynnig. Rydym wedi gwneud hyn trwy fuddsoddi mewn datblygu economaidd, trafnidiaeth, yr amgylchedd, ynni, tai, adfywio, addysg ac iechyd.

**6.46** Ers ei lansio yn 2012, mae amrywiaeth o fuddsoddiadau cyfalaf a chynlluniau cyllid arloesol eraill wedi cael eu blaenoriaethu'n llwyddiannus gan Gynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Mae hyn yn rhoi mwy o eglurder i'n partneriaid cyflenwi ac i bobl Cymru ynghylch y gweithgarwch sydd ar y gweill, trwy ein llif o fuddsoddiadau seilwaith arfaethedig. Rydym hefyd yn gweithio i sicrhau bod ein llif o

fuddsoddiadau arfaethedig yn cael ei ddefnyddio i'r eithaf i gyflawni ein manteision polisi a chymunedol ehangach.

**6.47** Mae tai yn chwarae rhan bwysig yn ansawdd bywyd a lles economaidd teuluoedd, ac yn cyfrannu at drechu tlodi. Mae bodloni'r galw am dai fforddiadwy yn dal i fod yn her mewn llawer o ardaloedd. Rydym yn parhau â'n gwaith i fodloni targed Safon Ansawdd Tai Cymru.

**6.48** Mae'n buddsoddiad yn ein rhwydweithiau ffyrdd a rheilffyrdd yn cydnabod swyddogaeth bwysig trafnidiaeth i gefnogi twf a swyddi, yn ogystal â galluogi pobl o grwpiau gwarchodedig i gael mynediad at wasanaethau. Mae gwasanaethau rheilffyrdd yn bwysig o ran cysylltu ardaloedd gwledig ac mae cynnal gwasanaethau yn cydnabod y manteision cymdeithasol ac economaidd a ddaw yn sgil gwasanaethau rheilffyrdd, yn enwedig felly o ran cydlyniant cymunedol a thwristiaeth.

**6.49** Rydym wedi ceisio diogelu ein hadnoddau naturiol rhag effaith y cyni ariannol, gan nodi'r manteision pwysig i bobl Cymru, a'r manteision i grwpiau gwarchodedig yn benodol. Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu ein hadnoddau naturiol, a'u gwerthfawrogi, i'w gwneud yn gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**6.50** Rydym wedi canolbwyntio ar ddiogelu'r amgylchedd trwy sicrhau ein bod yn cael yr effaith fwyaf posibl ar yr amgylchedd, ynni a thai trwy fuddsoddi mewn seilwaith. Trwy'r buddsoddiadau hyn, rydym yn ceisio darparu tai cynaliadwy, effeithlon o ran ynni, sydd o fudd i'n pobl fwyaf agored i niwed. Trwy fuddsoddi mewn ynni gwyrdd, ailgylchu, atal llifogydd ac erydu arfordirol, rydym yn ceisio sicrhau bod Cymru yn fwy cydnerth er mwyn diogelu cymunedau.

**6.51** Fodd bynnag, bydd lleihau adnoddau yn cael effaith ar y ffordd y byddwn yn cynnal ein coetiroedd, diogelu natur a datblygu ein tirwedd. Bydd hyn hefyd yn effeithio ar y cymorth y gallwn ei gynnig i'r cyrff hynny sy'n ymgymryd â'r gwaith hanfodol hwn. Rydym wedi ceisio defnyddio ein hadnoddau'n bennaf yn y meysydd lle gellir gweld y manteision mwyaf a byddwn yn gweithio gyda'r cyrff cyflenwi i sicrhau bod cyn lleied o effaith negyddol â phosibl.

### Cymorth Economaidd

**6.52** Trwy ganolbwyntio gydol tymor y Cynulliad hwn ar gyflawni twf sefydlog a chynaliadwy, gan ysgogi'r adferiad economaidd trwy gefnogi busnesau, denu mewnfuddsoddiad a chynyddu cyflogaeth, gwelwyd canlyniadau cadarnhaol ledled Cymru .

**6.53** Er enghraifft, yn sgil y llwyddiant ein rhaglenni blaenllaw a buddsoddiadau o filiynau o bunnoedd i greu lleoedd prentisiaeth, rydym wedi dangos ein hymrwymiad i sicrhau bod cyfle i gymaint o bobl â phosibl gael cyflogaeth gwerth chweil a chyfrannu at y twf economaidd.

**6.54** Fodd bynnag, fel ymateb i'r heriau a ddaw yn sgil mesurau cyni cyllidol Llywodraeth y DU, rydym wedi gorfod defnyddio ein hadnoddau i gefnogi'n bennaf y gweithgareddau hynny sy'n cael yr effaith fwyaf, a rhoi cymorth yn unol â'n hymrwymiadau. Trwy ddull trawsbynciol wedi'i seilio ar dystiolaeth a gwerthuso, rydym wedi meithrin dealltwriaeth ehangach o'r pwysau a'r effaith sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau gwariant.

**6.55** Rydym wedi buddsoddi yn seilwaith economi Cymru er mwyn creu'r amodau cywir ar gyfer twf economaidd hirdymor, a chyflogaeth gynaliadwy.

**6.56** Byddwn yn parhau i fuddsoddi er mwyn gwneud y rhwydwaith trafnidiaeth yn gynaliadwy yn y tymor hwy, nid yn unig fel ffordd o ysgogi a chefnogi twf economaidd, ond fel ffordd hefyd o gynnig mynediad at gyfleoedd cyflogaeth, a chreu'r amodau cywir i drechu tlodi, trwy ddileu'r rhwystrau sy'n wynebu cymunedau difreintiedig.

**6.57** I gefnogi hyn, rydym wedi diogelu tocynnau teithio rhatach ac wedi ymrwymo £9.75m i'r Cynllun Teithio Rhatach ar y Bws i Bobl Ifanc. Bydd y camau hyn yn helpu i gynnig mynediad at gyfleoedd gwaith, addysg, hyfforddiant a phrentisiaethau i bobl o gartrefi incwm isel.

**6.58** Rydym yn cefnogi'r economi trwy fuddsoddi mewn sgiliau. Trwy fuddsoddi mewn ysgolion, rydym yn ystyried anghenion hirdymor yr economi ac rydym yn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac yn trechu tlodi ar yr un pryd. Trwy ddiogelu addysg ôl-16 a buddsoddi mewn prentisiaethau, rydym wedi mabwysiadu agwedd gyfannol at sgiliau, gan gydbwyso anghenion tymor byr a hirdymor ac ystyried yr effaith ar wahanol grwpiau.

**6.59** Mae cyflogaeth yn cynnig lefel uchel o ddiogelwch rhag tlodi. Felly, er mwyn meithrin gallu economaidd, mae cyllidebau wedi cael eu diogelu trwy gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd i ysgogi cyllid ychwanegol, megis Cyllid Ewropeaidd. Mae gweithgarwch datblygu busnes, entrepreneuriaeth, gwyddoniaeth ac arloesi yn cefnogi cyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol ar gyfer pob grŵp. Mae buddsoddi mewn safleoedd strategol, cyfathrebu da, twristiaeth a digwyddiadau mawr yn gwneud Cymru yn ddewis mwy deniadol i fusnesau a hamdden yn y tymor hwy.

**6.60** I ddangos ein hymrwymiad i gefnogi busnesau yng Nghymru, eu heffeithiau cadarnhaol ar yr economi a'r swyddi hanfodol a ddaw yn eu sgil, rydym yn gwneud penderfyniad cynnar i ymestyn y Cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach presennol am 12 mis arall. Bydd y penderfyniad hwn yn arwain at ostyngiad o £90m mewn taliadau Ardrethi Annomestig cyffredinol gan fusnesau bach Cymru yn 2016-17.

**6.61** Mae penderfyniadau trafnidiaeth wedi cael eu gwneud gyda'r bwriad o liniaru'r effaith negyddol ar grwpiau gwarchodedig, trwy gynnig parhad

gwasanaeth a bod yn ymatebol o hyd i anghenion cymunedau lleol. Mae'r cynllun teithio rhatach yn sicrhau bod gwasanaethau yn dal i gefnogi pobl hŷn a phobl anabl. Mae gwasanaethau bws a thrên fforddiadwy yn arbennig o bwysig mewn cymunedau gwledig, o safbwynt cynhwysiant cymdeithasol, ac maent hefyd yn cynnig cysylltiadau â chyflogaeth ac addysg. Mae'r Cynllun Teithio Rhatach ar y Bws i Bobl Ifanc yn helpu pobl ifanc sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig i dalu costau teithio ar y bws, ac felly mae'n gwella mynediad at ganolfannau cyflogaeth ac addysg.

## 7. Effeithiau Diwygio Lles yn y DU

**7.1** Ni ellir asesu'r camau cadarnhaol a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i ystyried effaith ein penderfyniadau gwario ar bobl mewn grwpiau gwarchodedig fel mater ar wahân i effaith diwygiadau Llywodraeth y DU ym maes trethi a lles. Yn wir, fel rhan o raglen ymchwil a gomisiynwyd gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio Lles, rydym wedi cyhoeddi dau adroddiad yn ddiweddar sy'n ystyried effeithiau'r diwygiadau hyn yng Nghymru, yn ogystal â'r Cyflog Byw Cenedlaethol.

**7.2** Cyhoeddwyd ein hadroddiad diweddaraf (a gynhyrchwyd gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid) ar 19 Tachwedd 2015. Mae'n ymdrin â newidiadau Llywodraeth y DU ym maes trethi a budd-daliadau a gyhoeddwyd hyd at a chan gynnwys Cyllideb mis Gorffennaf, i'w cyflwyno rhwng 2015-16 a 2019-20. Ers i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi, gwelwyd newidiadau pellach yn Natganiad yr Hydref gan gynnwys gwrthdroi'r prif doriadau i gredydau treth, a oedd i fod i gael eu rhoi ar waith o fis Ebrill 2016 ymlaen.

**7.3** Er hynny, rhyddhad tymor byr yn unig a gynigir gan y diogelwch hwn, gan y caiff credydau treth eu dileu'n raddol erbyn 2018 ac ni chafodd y toriadau arfaethedig i Gredyd Cynhwysol eu gwrthdroi. Mae hyn yn golygu mai'r un yw effaith yn fras yn y tymor hir. Felly, mae canfyddiadau ein dadansoddiad diweddaraf yn dal i fod yn ddilys ac yn rhoi syniad o'r effeithiau hirdymor yng Nghymru pan fydd yr holl newidiadau gan gynnwys Credyd Cynhwysol wedi'u sefydlu'n llawn.

**7.4** Dengys yr ymchwil y bydd cyfanswm o tua £600m y flwyddyn o ostyngiad yn incwm aelwydydd Cymru. Mae aelwydydd Cymru'n colli 1.6 y cant o'u hincwm net ar gyfartaledd (neu £459 y flwyddyn) o gymharu ag 1.3 y cant neu £455 y flwyddyn yn y DU yn gyfan. Bydd y golled hon yn ychwanegu at yr incwm sylweddol sydd eisoes wedi'i golli o ganlyniad i doriadau lles cynharach.

**7.5** Bydd aelwydydd ar incwm is, yn enwedig y rhai â phlant, yn colli cryn dipyn yn fwy ar gyfartaledd (tua 12 y cant). Yn ôl statws cyflogaeth, mae aelwydydd incwm isel nad ydynt yn gweithio yn colli tipyn yn fwy nag aelwydydd gweithio sydd ar incwm is ar gyfartaledd. Mae rhieni sengl sy'n ddi-waith, y mwyafrif ohonynt yn fenywod, yn cael eu bwrw'n

arbennig o galed. I'r gwrthwyneb bydd yr effaith ar aelwydydd mwy cefnog a phensiynwyr yn llai a gallent hyd yn oed fod ar eu hennill yn sgil y newidiadau hyn.

**7.6** Ar gyfartaledd, mae aelwydydd sydd â pherson anabl ar eu colled yn sylweddol fwy na'r rhai heb berson anabl (£618 neu 2.4 y cant o'i gymharu â £272 neu 0.9 y cant y flwyddyn), ac mae aelwydydd iau yn colli mwy nag aelwydydd hŷn (e.e. £841 neu 4.1 y cant lle mae'r person hynaf o dan 30 oed o'i gymharu â £58 neu 0.3 y cant lle mae'r person hynaf yn 70 neu'n hŷn). Mae teuluoedd mawr yn colli swm enfawr (£7,750 neu tua 20 y cant ar gyfartaledd) yn y pen draw o'r cyfyngiad yn yr elfen blant mewn credydau treth a Chredyd Cynhwysol i ddau blentyn.

**7.7** Mae'r enillion cyfartalog o'r Cyflog Byw Cenedlaethol dipyn yn llai na'r colledion ar gyfer aelwydydd incwm is yn sgil y newidiadau i drethi a budd-daliadau. At ei gilydd yng Nghymru, nid yw'r enillion o'r Cyflog Byw Cenedlaethol yn gwrthbwyso ond 27 y cant o'r colledion o'r newidiadau i drethi a budd-daliadau, ac mae'r swm hwn yn llai byth ar gyfer aelwydydd incwm is.


# Cyllideb Ddrafft 2016 – 2017

## Cymru Decach, Cymru Well – Buddsoddi at y Dyfodol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Mae ein cynlluniau gwariant ar gyfer y flwyddyn nesaf yn canolbwyntio ar ein blaenoriaethau a'r gwasanaethau sydd bwysicaf i bobl Cymru. Y flwyddyn nesaf, daw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i rym ac rydym wedi defnyddio fframwaith y Ddeddf i ddatblygu ein cynlluniau.




# Cymru Decach, Cymru Well – Buddsoddi at y Dyfodol

## Rhagolwg Ariannol

Gosodwyd Cyllideb Cymru am y pedair blynedd nesaf gan Lywodraeth y DU yn ei Hadolygiad Gwariant ar 25 Tachwedd 2015. Rydym wedi cael setliad heriol lle mae Cyllideb Cymru wedi'i thorri mewn termau real dros bum mlynedd, a hynny ar ben y lleihad o 8% a fu dros y pum mlynedd diwethaf.

Er gwaetha'r toriadau, rydym yn gwario mwy y pen ar iechyd nag yn Lloegr, mwy y pen ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol gyda'i gilydd, a mwy y pen ar addysg. Mae hyn yn dangos y gwerth a rown ar gefnogi ein gwasanaethau cyhoeddus allweddol yng Nghymru.




## Edrych Tua'r Tymor Hir

Rydym wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd am sut i wario ein Cyllideb y flwyddyn nesaf. Wrth i ni edrych tua'r dyfodol, mae ein cynlluniau yn cyd-fynd â'n dyheadau ar gyfer pobl Cymru. Ym mis Ebrill 2016, daw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i rym a bydd yn dylanwadu ar y ffordd y mae'r sector cyhoeddus yn penderfynu sut i ddefnyddio adnoddau. Mae'r saith Nod llesiant yn darparu gweledigaeth ar y cyd i bob corff y sector cyhoeddus y mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd arno.


**Cynnwys**


**Cydweithio**

Yn ystod Taith y Gyllideb flynyddol y Gweinidog Cyllid ar hyd a lled Cymru, bu'n siarad â phobl sy'n gweithio i wasanaethau cyhoeddus yn y rheng flaen, a'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, am eu blaenoriaethau.


**Integreiddio**


**Cydweithio**

Rydym yn gweithio ar draws ffiniau traddodiadol i ddatblygu'r gwaith o integreiddio gwasanaethau ymhellach i gyflawni canlyniadau gwell i bobl Cymru.


**Atal**


**Hirdymor**

Rydym yn canolbwyntio ar wasanaethau sy'n ceisio atal problemau neu'u hatal rhag gwaethygu. Rydym yn cynllunio ar gyfer gofynion yn awr ac yn y tymor hwy.

## Ein Blaenoriaethau Cyllidebol i Gymru

Rydym yn defnyddio ein Cyllideb i ganolbwyntio ar bedwar maes â blaenoriaeth – Iechyd a Gwasanaethau Iechyd, Twf a Swyddi, Cyrhaeddiad Addysgol a Chefnogi Plant, Teuluoedd a Chymunedau Difreintiedig. Dyma sut rydym wedi dyrannu'r Gyllideb i gefnogi ein blaenoriaethau ac i ganolbwyntio ar y gwasanaethau sydd bwysicaf i bobl Cymru. Mae ein Cyllideb Ddrafft ar gyfer 2016-17 yn adlewyrchu'r blaenoriaethau hyn a'n gwerthoedd.



# Iechyd a Gwasanaethau Iechyd

Diogelu ac ysgogi buddsoddiad sy'n cyfrannu at sicrhau Cymru iachach, sy'n fwy cyfartal a llewyrchus.

I godi safonau, gwella canlyniadau i gleifion a sicrhau gwasanaeth iechyd cynaliadwy a chyffredinol, mae **£260m o refeniw ychwanegol a £33.5m** o gyfalaf ychwanegol i'r GIG a fydd yn ariannu:

- £200m i gefnogi ysbytai a meddygon teulu
- £30m i gynyddu'r Gronfa Gofal Canolraddol i £50m
- £30m i wasanaethau pobl hŷn ac iechyd meddwl
- £33.5m o gyfalaf ar gyfer offer, TGCh a seilwaith
- rydym hefyd yn diogelu ein cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd y cyhoedd.



# Twf a Swyddi

Diogelu ac ysgogi buddsoddiad mewn seilwaith sy'n cyfrannu at sicrhau Cymru lewyrchus.

Er mwyn gweithio tuag at dwf economaidd cynaliadwy, cefnogi tai, yr amgylchedd a chreu swyddi, mae **£166.5m o gyfalaf ychwanegol** ar gael a fydd yn ariannu:

- Dros £26m+ i ymestyn Cymorth i Brynu Cymru sy'n helpu pobl i fforddio eu cartrefi eu hunain
- £28m i gefnogi busnesau yng Nghymru
- £10m i wella cysylltiadau trafnidiaeth
- £10m ar gyfer Twf Gwyrdd Cymru i leihau allyriadau carbon a defnyddio ein hynni a'n dŵr yn well; a Nyth i helpu i gadw pobl yn gynnes yn eu cartrefi
- £10m i Reoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd.



# Cyrhaeddiad Addysgol

## Diogelu ac ysgogi buddsoddiad sy’n cyfrannu at sicrhau cymunedau mwy cydlynus, Cymru sy’n fwy cyfartal a llewyrchus a’i diwylliant yn fywiog.

Er mwyn codi safonau addysg a gwella cyfleoedd bywyd, mae **£100m** ychwanegol ar gyfer addysg a sgiliau – **£70m o refeniw ychwanegol** a **£30m o gyfalaf ychwanegol** a fydd yn ariannu:

- £40m i ysgolion i helpu pob disgybl i gyflawni ei botensial
- £15m i Her Ysgolion Cymru i helpu ysgolion sy’n tanberfformio i wella’u perfformiad
- £5m ar gyfer y sector ôl-16 ar gyfer 2,500 o brentisiaethau newydd
- £10m ar gyfer cymorth i fyfyrwyr mewn Addysg Uwch
- £30m ar gyfer rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif – yn cefnogi gwelliannau mewn ysgolion a deilliannau addysgol gwell
- Diogelu cyllidebau ôl-16 rhag gostyngiadau i’w harian.



# Cefnogi Plant, Teuluoedd a Chymunedau Difreintiedig

## Diogelu ac ysgogi buddsoddiad sy’n cyfrannu at sicrhau Cymru sy’n fwy cyfartal, cymunedau cydlynus a Chymru iachach a mwy llewyrchus.

Er mwyn darparu cymorth effeithiol i bobl ar gamau gwahanol ac mewn amgylchiadau gwahanol yn eu bywyd ac i gynnal cymunedau cryf, mae dros **£26m o refeniw ychwanegol** ar gael a fydd yn ariannu:

- £21m ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a ddarperir gan lywodraeth leol
- £3m ar gyfer Arolygiaethau i gefnogi gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg diogel ac o ansawdd
- £1.2m i leddfu effaith gostyngiadau ac i gefnogi’r Gymraeg
- Dros £1m ar gyfer Buddion Cyffredinol – brecwast ysgol, llaeth, nofio a phresgripsiynau am ddim a thocynnau teithio rhatach.

Rydym hefyd yn diogelu rhaglenni ataliol ar lefelau cyllideb 2015-16:

- Dechrau’n Deg
- Cymunedau yn Gyntaf
- Cefnogi Pobl



ISBN Digidol 978-1-4734-5364-7 © Hawlfraint Y Goron WG27381

**I gael rhagor o wybodaeth am y Gyllideb Ddrafft, ewch i’n gwefan: www.llyw.cymru**